HMcpsi

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM

# ADRODDIAD YR AROLYGIAETH
# AR
# CPS GOGLEDD CYMRU

**ADRODDIAD 18/04** **HYDREF 2004**

*Hybu Gwelliant mewn Cyfiawnder Troseddol*

# CPS GOGLEDD CYMRU



**SWYDDFA ARDAL**
Wrecsam

**SWYDDFEYDD ERAILL**
Bae Colwyn

**LLYSOEDD YNADON**
Caergybi, Caernarfon, Dinbych, Dolgellau, Llandudno, Llangefni
Maelor, Prestatyn, Pwllheli, Wrecsam, Yr Wyddgrug

**LLYS Y GORON**
Caer, Caernarfon, Dolgellau, Yr Wyddgrug

**CYNNWYS**


| | | TUDALEN |
|---|---|---|
| **RHAGAIR** | | |
| **1** | **CYFLWYNIAD** | **1** |
| | Adroddiad, methodoleg a natur yr arolygiad | 2 |
| **2** | **CRYNODEB O GANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION YR AROLYGIAD** | **4** |
| | Trosolwg | 4 |
| | Canlyniadau perfformiad allweddol | 4 |
| | Gwaith achos | 5 |
| | Eiriolaeth ac ansawdd y broses o ddarparu gwasanaethau | 5 |
| | Dioddefwyr a thystion | 5 |
| | Rheoli perfformiad | 6 |
| | Rheoli pobl a chanlyniadau | 6 |
| | Rheoli adnoddau ariannol | 6 |
| | Partneriaethau ac adnoddau | 6 |
| | Polisi a strategaeth | 6 |
| | Hyder y cyhoedd | 7 |
| | Arweinyddiaeth a llywodraethu | 7 |
| | Dod â throseddwyr gerbron y llys | 7 |
| | Lleihau treialon aneffeithiol | 7 |
| | Gwerth am arian | 8 |
| | Materion cydraddoldeb ac amrywiaeth | 8 |
| | Argymhellion | 8 |
| | Arfer Da | 9 |
| **3** | **CANLYNIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL** | **10** |
| | Sylwebaeth | 13 |
| | *Cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu* | 13 |
| | *Ansawdd y broses gwneud penderfyniadau* | 13 |
| | *Adolygiad parhaus* | 13 |
| | *Achosion sy'n dirwyn i ben* | 13 |
| | *Traddodebau a ryddhawyd* | 13 |
| | *Lefel y cyhuddiad* | 13 |
| | *Treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol* | 14 |
| | *Troseddwyr ifanc parhaus* | 14 |
| | *Troseddwyr parhaus* | 14 |
| | *Achosion sensitif* | 14 |
| | *Canlyniadau gwrthwynebus* | 14 |
| | *Culhau'r bwlch cyfiawnder* | 15 |
| | *Dadleniad* | 15 |
| **4** | **GWAITH ACHOS** | **16** |
| | Cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu (CAP1) | 16 |
| | Achosion sy'n barod i fynd rhagddynt ar ddyddiad cyntaf y gwrandawiad (CAP2) | 17 |
| | Ceisiadau am fechnïaeth/cadwraeth (CAP3) | 18 |
| | Achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon (CAP4) | 18 |
| | Paratoi treialon diannod (CAP5) | 18 |
| | Traddodi a pharatoi achosion yn Llys y Goron (CAP6) | 19 |

| | | |
|---|---|---|
| | Dadlennu deunydd nas defnyddiwyd (CAP7) | 20 |
| | Achosion sensitif (CAP8) | 21 |
| | Achosion yn ymwneud â phobl ifanc (CAP13) | 22 |
| | Ymdrin â ffeiliau/negeseuon (CAP9) | 22 |
| | Terfynau amser yn y ddalfa (CAP10) | 23 |
| | Gweithredu ar y cyd i wella gwaith achos (CAP11) | 23 |
| | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Thimau Troseddwyr Ifanc (CAP12) | 24 |
| | Prosesau apelio a thraddodi i ddedfryd (CAP14) | 24 |
| | Apeliadau yn erbyn dedfrydau trugarog diangen (CAP15) | 24 |
| | Cofnodi canlyniadau achos (CAP16) | 24 |
| | Gwybodaeth ar faterion gweithredol a chyfreithiol (CAP17) | 25 |
| | Parodrwydd ar gyfer y llys (CAP18) | 25 |
| | Pwyntiau dysgu (CAP21) | 26 |
| **5** | **EIRIOLAETH AC ANSAWDD Y BROSES O DDARPARU GWASANAETHAU** | **27** |
| | Safonau eiriolaeth a monitro (CAP19) | 27 |
| | Arnodiadau llys (CAP20) | 28 |
| | Paratoi ar gyfer y llys (QSD1) | 28 |
| | Presenoldeb yn y llys (QSD2) | 28 |
| | Ystafelloedd (QSD4) | 29 |
| **6** | **DIODDEFWYR A THYSTION** | **30** |
| | Tystion yn y llys (QSD3) | 30 |
| | Cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr (CAP13) | 31 |
| | Cyfarfodydd gyda dioddefwyr a pherthnasau dioddefwyr (DCV5) | 31 |
| | Siarter y Dioddefwyr (CR2) | 31 |
| **7** | **RHEOLI PERFFORMIAD** | **33** |
| | Safonau perfformiad (PM1) a Monitro perfformiad (PM2) | 33 |
| | Rheoli perfformiad ar y cyd (PM3) | 34 |
| | Rheoli risgiau (PM4) | 34 |
| | Gwelliant parhaus (PM5) | 35 |
| | Bod yn atebol am berfformiad (PM6) | 35 |
| **8** | **RHEOLI POBL A CHANLYNIADAU** | **36** |
| | Cynllunio adnoddau dynol (P1) | 36 |
| | Strwythur staff (P2) | 36 |
| | Datblygu staff (P3) | 36 |
| | Adolygu perfformiad (P4) | 37 |
| | Cysylltiad rheolwyr (P5) | 37 |
| | Arfer cyflogi da (P6) | 38 |
| | Cydraddoldeb ac amrywiaeth (P7) | 39 |
| | Iechyd a diogelwch (P8) | 39 |
| **9** | **RHEOLI ADNODDAU ARIANNOL** | **40** |
| | Sgiliau ariannol staff (MFR1) | 40 |
| | Ymlyniad wrth ganllawiau ariannol (MFR2) | 40 |
| | Rheolaethau cyllidebol (MFR3) | 40 |
| | Rheoli costau erlyn (MFR4) | 41 |
| | Ymagwedd gwerth am arian (MFR5) | 41 |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **PARTNERIAETHAU AC ADNODDAU** | **42** |
| | Partneriaethau CJS (PaR1, KPR8) | 42 |
| | Gwella perfformiad CJS lleol (CR4) | 42 |
| | Technoleg gwybodaeth (PaR2) | 42 |
| | Adeiladau, offer a dulliau diogelu (PaR3) | 43 |
| | Partneriaeth gyda'r Pencadlys a'r Ganolfan Gwasanaethau (PaR4) | 43 |
| **11** | **POLISI A STRATEGAETH** | **44** |
| | Rhanddeiliaid (PaS1) | 44 |
| | Mesur perfformiad (PaS2) | 44 |
| | Adolygiad (PaS3) | 44 |
| | Fframwaith o brosesau allweddol (PaS4) | 45 |
| | Cyfathrebu a gweithredu (PaS5) | 45 |
| **12** | **HYDER Y CYHOEDD** | **46** |
| | Cwynion (CR1) | 46 |
| | Cymunedau lleiafrifoedd ethnig (CR5) | 46 |
| | Amddiffyn plant (CR7) | 46 |
| | Cysylltiad cymunedol (CR6 a SR1) | 46 |
| | Cysylltiad â'r cyfryngau (SR2) | 46 |
| | Hyder y cyhoedd (SR3) | 47 |
| **13** | **ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU** | **48** |
| | Gweledigaeth a gwerthoedd (LaG1) | 48 |
| | Cydnabod staff (LaG2) | 48 |
| | Strwythur rheoli (LaG3) | 48 |
| | Strwythur trefniadol (LaG4) | 49 |
| | Cynlluniau gweithredu (LaG5) | 50 |
| | Cydweithredu o ran y system cyfiawnder troseddol (LaG6) | 50 |

| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1** | Map Arolygu Model Rhagoriaeth Busnes |
| **ATODIAD 1A** | Gofynion allweddol a safonau arolygu |
| **ATODIAD 2** | Siart sefydliadol yr Ardal i ddangos strwythur a niferoedd staff |
| **ATODIAD 3** | Ffigurau llwyth achosion yr Ardal |
| **ATODIAD 4** | Adnoddau a llwyth achosion |
| **ATODIAD 5** | Gweithredu argymhellion ac awgrymiadau o'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002 |
| **ATODIAD 6** | Ffeiliau a archwiliwyd ar gyfer CPS Gogledd Cymru |
| **ATODIAD 7** | Rhestr o gynrychiolwyr lleol a gynorthwyodd yn yr arolygiad |
| **ATODIAD 8** | Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM |
| **ATODIAD 9** | Rhestr termau |

**RHAGAIR**

Sefydlwyd Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) gan Ddeddf Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron 2000 fel corff statudol annibynnol. Caiff y Prif Arolygydd ei benodi gan y Twrnai Cyffredinol ac mae hefyd yn atebol iddo.

Diben HMCPSI yw hyrwyddo gwelliant parhaus o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a thegwch y gwasanaethau erlyn o fewn system cyfiawnder troseddol gydgysylltiedig, drwy broses o arolygu a gwerthuso; rhoi cyngor; a nodi arfer da. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ei hun, ond heb beryglu ei hannibyniaeth gadarn.

Mae rhaglen waith HMCPSI yn canolbwyntio'n bennaf ar arolygu unedau busnes o fewn y CPS – y 42 o Ardaloedd a Chyfarwyddiaethau'r Pencadlysoedd. Yn 2002, cwblhaodd ei chylch cyntaf o arolygiadau lle yr ymwelodd â 42 o Ardaloedd y CPS ynghyd â'r Gyfarwyddiaeth Gwaith Achos a Pholisi o fewn Pencadlys y CPS a chyhoeddi adroddiadau arnynt. Cyflawnwyd swm cyfyngedig o waith ailarolygu hefyd. Yn ystod yr ail gylch hwn o arolygiadau gwnaed rhai newidiadau sylweddol o ran methodoleg er mwyn gwella effeithlonrwydd HMCPSI ei hun ac addasu ei brosesau o ran datblygiadau o fewn y CPS a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Y pedwar prif newid yw: mabwysiadu cylch pedair blynedd gyda phob Ardal bellach yn derbyn dau ymweliad yn ystod y cyfnod hwnnw, y gallai un ohonynt fod yn arolygiad canolradd (yn hytrach nag yn llawn); datblygwyd techneg asesu risg i bennu'r math priodol o arolygiad a'r materion y dylid eu cwmpasu; datblygwyd fframwaith arolygu yn seiliedig ar Fodel y Sefydliad Ewropeaidd er Rheoli Ansawdd (EFQM); ac rydym wedi ymgorffori gofynion i sicrhau bod ein proses arolygu yn cwmpasu pob mater a gynhwysir yn y templed arolygu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Bydd HMCPSI hefyd yn defnyddio ystod ehangach o dechnegau ar gyfer casglu tystiolaeth.

Mae'r Llywodraeth wedi cymryd amrywiaeth o fesurau i ddatblygu cydlyniad a gwell trefniadau cydweithio ymhlith yr asiantaethau cyfiawnder troseddol fel y gall y system gyfan weithredu mewn dull mwy cyfannol. Mae Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Trysorlys EM a'r Adrannau perthnasol yn nodi'r disgwyliadau sydd gan y Llywodraeth o'r system cyfiawnder troseddol ar lefel genedlaethol. Cafodd y fframwaith sy'n rheoli'r system yn genedlaethol ei ddiwygio'n sylweddol a chaiff hynny ei adlewyrchu gan y broses o sefydlu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ymhob un o'r 42 o ardaloedd cyfiawnder troseddol. Yn ystod yr ail gylch arolygu, bydd HMCPSI yn rhoi mwy o bwyslais eto ar effeithiolrwydd cyd-berthnasau'r CPS ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill a'i gyfraniad at waith y Byrddau newydd hyn. At y diben hwn, bydd HMCPSI hefyd yn gweithio'n agos ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill.

Er y bydd y broses arolygu yn parhau i ganolbwyntio'n sylweddol ar ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ar waith achos ac ymdrin â gwaith achos, bydd yn parhau i ymestyn i berfformiad y CPS yn gyffredinol. Mae systemau cadarn, dull rheoli da a dull strwythuredig o fonitro perfformiad bob amser yn sail i waith achos da, parhaus. Er bod adroddiadau yn ein cylch cyntaf yn tueddu i fynd i'r afael â materion rheoli a materion gweithredol ar wahân i waith achos, caiff y cysylltiad sylfaenol ei adlewyrchu yn fanylach yn awr drwy'r fframwaith arolygu sy'n seiliedig ar EFQM. Mae timau arolygu yn cynnwys arolygwyr cyfreithiol, arolygwyr rheoli busnes ac arolygwyr gwaith achos sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd. Mae HMCPSI hefyd yn gwahodd aelodau addas, hyddysg o'r cyhoedd a enwebwyd gan sefydliadau cenedlaethol i ymuno â'r broses fel arolygwyr lleyg. Gwirfoddolwyr di-dâl yw'r

arolygwyr hyn sy’n archwilio’r ffordd y mae’r CPS yn cysylltu â’r cyhoedd, drwy ei ddull o ymdrin â thystion a dioddefwyr, ei ddulliau cyfathrebu a chysylltu allanol, ei ddull o ymdrin â chwynion a’r broses o gymhwyso prawf budd y cyhoedd a gynhwysir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Mae gan HMCPSI swyddfeydd yn Llundain ac yn Efrog. Mae’r swyddfa yn Llundain yn gartref i Gr_p De Lloegr a rhan o Gr_p Gogledd Lloegr a Chymru. Mae gweddill Gr_p Gogledd Lloegr a Chymru wedi’i leoli yn y swyddfa yn Efrog. Mae’r ddau Gr_p yn cynnal adolygiadau thematig ac arolygiadau ar y cyd gydag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill. Ar unrhyw adeg, mae HMCPSI yn debygol o fod yn cynnal chwe arolygiad yn seiliedig ar ardaloedd neu Gyfarwyddiaethau a dau adolygiad thematig, yn ogystal ag arolygiadau ar y cyd.

Mae’r fframwaith arolygu yr ydym wedi’i ddatblygu o’r Model Rhagoriaeth Busnes wedi’i grynhoi yn Atodiad 1. Mae penawdau pob pennod yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â gofynion allweddol ac mae’r is-benawdau yn ymwneud â’r elfennau neu’r safonau diffiniol yr ydym yn mesur Ardaloedd CPS yn eu herbyn. Amlinellir y rhain yn llawn yn Atodiad A1 a chânt eu croesgyfeirio i’r is-benawdau yn y testun.

Mae adroddiadau’r Arolygiaeth yn nodi cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant, yn pwysleisio arfer da ac yn gwneud argymhellion o ran yr agweddau hynny ar berfformiad y mae angen eu gwella fwyaf. Ceir y diffiniadau o’r termau hyn yn y rhestr termau yn Atodiad 9.

Yn ystod ail gylch yr arolygiadau, caiff cronfa ddata ei chreu a fydd yn gallu cymharu perfformiadau Ardaloedd y CPS. Mae’r tabl o ddangosyddion perfformiad allweddol o fewn yr adroddiad hwn yn gwneud cymariaethau â chyfanswm y data a gasglwyd o’r 33 arolygiad cyntaf. Mae HMCPSI yn cyfeirio at y ffaith bod yn rhaid bod yn ofalus o hyd er mwyn i ddarllenwyr allu cymharu perfformiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn gyda pherfformiad cyffredinol y CPS yn y cylch *cyntaf*. Er bod llawer o’r gofynion allweddol yn parhau o hyd ac yn cael eu profi gan yr un safon, mae cynnwys y sampl ffeiliau wedi newid a gallai hyn olygu bod cymariaethau o’r fath yn annibynadwy. Am y rheswm hwnnw, nid yw’r adroddiad hwn yn gwneud cymariaethau â’r cylch cyntaf.

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Adroddiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi yw hwn yngl_n â'r CPS yng Ngogledd Cymru (yr Ardal) sy'n gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae ganddo ddwy swyddfa, yn Wrecsam ac ym Mae Colwyn . Lleolir Pencadlys yr Ardal (Ysgrifenyddiaeth) yn swyddfa Wrecsam.

1.2 Rhennir busnes yr Ardal yn ôl swyddogaeth. Mae'r ddwy Uned Dreial (TU) yn adolygu ac yn delio ag achosion yr ymdrinnir â hwy yn Llys y Goron ac yn ogystal, y rhan fwyaf o achosion yn y llysoedd ynadon a restrir ar gyfer treial. Lleolir y TU yn Wrecsam ac ym Mae Colwyn (TU Eryri). Ceir un Uned Cyfiawnder Troseddol (CJU) sy'n gyfrifol am gynnal yr achosion diannod sy'n weddill yr ymdrinnir â hwy yn y llysoedd ynadon. Lleolir y CJU yn Wrecsam ac ym Mae Colwyn (CJU Eryri).

1.3 Ar adeg yr arolygiad ym mis Mehefin 2004, cyflogodd yr Ardal gyfanswm o 67.1 o staff llawn amser. Mae Ysgrifenyddiaeth yr Ardal yn cynnwys Prif Erlynydd y Goron (CCP), y Rheolwr Busnes Ardal (ABM) a'r hyn sy'n gyfartal â deg aelod arall o staff llawn amser. Nodir manylion staffio'r uned isod:

| **Gradd** | **TU Eryri** | **TU Wrecsam** | **CJU Eryri a Wrecsam** |
|---|---|---|---|
| Lefel D | 1 | 1.2 | 2 |
| Cyfreithwyr Lefel C | 9.6 | 6.9 | 3.6 |
| Gweithwyr achos Lefel B2 | 0.4 | 0.4 | 5 |
| Gweithwyr achos Lefel B1 | 4 | 3.8 | 1 |
| Gweithwyr achos Lefel A | 9.4 | 6.8 | |
| **CYFANSWM** | **24.4** | **19.1** | **11.6** |

Ceir dadansoddiad manwl o drefniadau staff a strwythur yn Atodiad 2.

1.4 Mae manylion llwyth achos yr Ardal yn y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2004 fel a ganlyn:

| **Categori** | **Niferoedd yr ardal** | **% ardal o gyfanswm y llwyth achosion** | **% genedlaethol o gyfanswm y llwyth achosion** |
|---|---|---|---|
| Cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu | 5,646 | 26.6 | 12.4 |
| Achosion moduro diannod | 3,900 | 18.4 | 17.4 |
| Achosion diannod eraill | 5,934 | 27.9 | 35.8 |
| Achosion neillffordd neu dditiol yn unig | 5,668 | 26.7 | 33.4 |
| Gweithrediadau eraill | 88 | 0.4 | 1.1 |
| **CYFANSWM** | **21,236** | **100%** | **100%** |

1.5 Mae manylion achosion terfynol Llys y Goron yr Ardal yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2004 fel a ganlyn:

| **Achosion terfynol Llys y Goron** | **Niferoedd yr Ardal** | **% ardal o gyfanswm y llwyth achosion** | **% genedlaethol o gyfanswm y llwyth achosion** |
|---|---|---|---|
| Achosion ditiol yn unig | 201 | 21.6 | 31.7 |
| Troseddau neillfordd | 448 | 48.2 | 43.4 |
| Apeliadau yn erbyn collfarn neu ddedfryd | 123 | 13.2 | 9 |
| Traddodebau i ddefryd | 158 | 17 | 15.9 |
| **CYFANSWM** | **930** | **100%** | **100%** |

1.6 Atodir tabl mwy manwl o lwyth achosion a chanlyniadau achosion o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn Atodiad 3 a cheir tabl o lwyth achosion mewn perthynas ag adnoddau Ardal yn Atodiad 4. Mae CPS Gogledd Cymru (yn debyg i Ardaloedd CPS eraill) wedi elwa ar gynnydd sylweddol yn y gyllideb ers ein harolygiad diwethaf er mwyn hybu perfformiad. O ganlyniad, llwyddodd yr Ardal i recriwtio mwy o staff, ond oherwydd y cynnydd yn y llwyth achosion, nid yw hyn wedi lleihau nifer yr achosion yr ymdrinnir â hwy fesul cyfreithiwr a gweithiwr achos ar gyfartaledd.

**Adroddiad, methodoleg a natur yr arolygiad**

1.7 Mae'r broses arolygu yn seiliedig ar y fframwaith arolygu a grynhoir yn Atodiad 1. Mae penawdau'r penodau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gofynion allweddol ac mae'r is-benawdau yn ymwneud â'r elfennau neu'r safonau diffiniol yr ydym yn mesur Ardaloedd CPS yn eu herbyn. Nodir y rhain yn llawn yn Atodiad 1A a chânt eu croesgyfeirio i'r is-benawdau yn y testun.

1.8 Mae dau fath o arolygiad. Mae arolygiad llawn yn ystyried pob agwedd ar berfformiad Ardal o fewn y fframwaith. Dim ond yr agweddau hynny y mae asesiad risg a gynhelir yn erbyn yr elfennau allweddol o'r fframwaith arolygu, ac yn arbennig y canlyniadau perfformiad allweddol, yn nodi bod angen rhoi sylw iddynt, y mae arolygiad canolradd yn eu hystyried. Mae'r canlyniadau allweddol hyn yn deillio o ddata perfformiad yr Ardal ei hun, a data perfformiad arall a gesglir o fewn yr ardal cyfiawnder troseddol lleol.

1.9 Mae'r amser a aeth heibio ers cynnal yr arolygiad diwethaf o berfformiad yn dylanwadu ar gwmpas yr arolygiad hefyd. Roedd yr asesiad mewn perthynas â CPS Gogledd Cymru hefyd yn defnyddio canfyddiadau o'r arolygiad blaenorol o'r Ardal, y cyhoeddwyd adroddiad arno ym mis Mawrth 2002. O ganlyniad i'r asesiad risg hwn, penderfynwyd y byddai'r arolygiad o CPS Gogledd Cymru yn arolygiad llawn.

1.10 Gwnaeth ein hadroddiad blaenorol gyfanswm o 14 o argymhellion a 15 awgrymiad. Yn ystod yr arolygiad hwn, rydym wedi asesu i ba raddau y gweithredwyd yr argymhellion a'r awgrymiadau, a cheir crynodeb o hyn yn Atodiad 5.

1.11 Roedd ein methodoleg yn cyfuno archwiliad o 134 o achosion a derfynwyd rhwng 1 Chwefror a 30 Ebrill 2004 a chyfweliadau gydag aelodau o staff y CPS ar bob lefel, ymarferwyr cyfraith droseddol a chynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol. Roedd ein sampl ffeiliau yn cynnwys treialon y llysoedd ynadon a Llys y Goron (boed yn rhyddfarnau neu'n gollfarnau), treialon sy'n chwalu a rhai aneffeithiol a rhai mathau penodol o achosion. Pan wnaethom ymweld â'r Ardal, archwiliasom ddeg achos arall a oedd yn amodol ar Derfynau Amser yn y Ddalfa. Ceir dadansoddiad manwl o'n sampl ffeiliau yn Atodiad 6. Ceir rhestr o unigolion y derbyniwyd sylwadau ganddynt yn Atodiad 7. Cynhaliodd y tîm arsylwadau o berfformiad eiriolwyr a'r broses o ddarparu gwasanaeth yn y llys yn y llysoedd ynadon, y Llysoedd Ieuenctid ac yn Llys y Goron.

1.12 Ymwelodd arolygwyr â'r Ardal rhwng 28 Mehefin ac 8 Gorffennaf 2004. Mrs Joan Kostenko, a enwebwyd gan Cyngor ar Bopeth, oedd yr arolygydd lleyg ar gyfer yr arolygiad hwn. Disgrifir rôl yr arolygydd lleyg yn y Rhagair. Archwiliodd yr arolygydd lleyg ffeiliau a fu'n destun cwynion gan aelodau o'r cyhoedd ac ystyriodd lythyrau a ysgrifennwyd gan staff y CPS at ddioddefwyr yn dilyn achos o ostwng neu beidio â pharhau â chyhuddiad. Yn ogystal, ymwelodd â rhai llysoedd a siaradodd â rhai tystion ar ôl iddynt roi tystiolaeth. Roedd hyn yn gyfraniad gwerthfawr at y broses arolygu. Cynhwyswyd safbwyntiau a chanfyddiadau'r arolygydd lleyg yn yr adroddiad cyfan, yn hytrach na chyflwyno adroddiad ar wahân arnynt. Rhoddodd o'i hamser ar sail cwbl wirfoddol, ac mae'r Prif Arolygydd yn ddiolchgar am ei hymdrech a'i chymorth.

1.13 Nodir diben a nodau'r Arolygiaeth yn Atodiad 8. Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 9.

## 2 CRYNODEB O GANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION YR AROLYGIAD

2.1 Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygiad cyfan. Fe'i crynhoir yn is-benawdau sy'n adlewyrchu'r penodau yn yr adroddiad sy'n seiliedig ar ein fframwaith arolygu a ddatblygwyd o Fodel Rhagoriaeth Busnes EFQM (gweler Atodiad 1). Mae is-benawdau eraill yn ymwneud yn benodol â thargedau'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) a materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Trosolwg

2.2 Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd nifer o newidiadau ymhlith yr uwch reolwyr yn yr Ardal. Ym mis Mai 2004, gwnaed penodiadau parhaol i swyddi CCP ac ABM. Mae bellach mewn sefyllfa i achub ar y cyfle i adolygu perfformiad a gweithrediadau'r Ardal a datblygu'r Ardal ar sylfaen gadarn.

2.3 Mae'r Ardal, gyda'i phartneriaid cyfiawnder troseddol wedi perfformio'n dda mewn agweddau pwysig ar ei gwaith. Mae canlyniadau'r targedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus yn dda ac mae hyder y cyhoedd yn dda. Mae'n gweithredu'r tair menter genedlaethol fawr y mae'r CPS wedi ymrwymo iddynt yn genedlaethol (y cynllun cyhuddo cysgodol, Rheoli Treialon yn Effeithiol a Dim Tystion Dim Cyfiawnder) ac mae wedi cyd-leoli gyda'r heddlu ar draws yr Ardal.

2.4 Mae gan yr Ardal staff sefydlog a phrofiadol ar bob lefel. Mae ansawdd ei phroses gwneud penderfyniadau ac eiriolaeth yn dda. Mae'r broses o baratoi achosion yn Llys y Goron yn dda ar y cyfan, ond mae angen gwella'r broses o ymdrin â deunydd nas defnyddiwyd yn sylweddol.

2.5 Yn fewnol, mae gan yr Ardal rywfaint o waith i'w wneud ar gynlluniau hyfforddi, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ar reoli perfformiad. Mae proses yr Ardal o ddosbarthu gwaith o fewn y TU a'r CJU yn anarferol o ran y ffaith mai cyfreithwyr TU sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o dreialon diannod, a hwy hefyd sy'n cwmpasu llawer o sesiynau yn y llysoedd ynadon. Ceir pryder cyffredinol bod y strwythur hwn yn achosi anghydbwysedd rhwng gwaith y llysoedd ynadon a gwaith Llys y Goron. Er na allwn ddod i gasgliad ar y mater hwn, mae angen craffu er mwyn cadarnhau ai'r trefniant hwn yw'r un mwyaf effeithlon ac effeithiol.

### Canlyniadau perfformiad allweddol

2.6 Mae'r Ardal yn cyflawni canlyniadau perfformiad allweddol da ac, ar y cyfan, yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

2.7 Mae dull yr Ardal o ymdrin ag achosion ynghyd â'r gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill wedi galluogi'r Ardal i ymdrin yn gyson ag achosion sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc parhaus o fewn y targed cenedlaethol o 71 diwrnod o'r arestiad i'r ddedfryd. Gyda'i phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol, mae'n rhagori ar ei tharged ar gyfer "Culhau'r Bwlch Cyfiawnder" ac mae ei pherfformiad o ran treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol yn dda, yn enwedig yn Llys y Goron.

**Gwaith achos**

2.8 Mae'r Ardal yn un o'r unig ddwy ardal yn y Sir sydd wedi treialu'r tair menter fawr a ddisgrifiwyd uchod. Mae ganddi staff sefydlog a phrofiadol sydd wedi cynnal lefel uchel o berfformiad er gwaethaf y pwysau a ddaeth yn sgîl newid arferion sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

2.9 Mae'r broses o wneud penderfyniadau yn dda ac mae cyfradd yr achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon a chyfradd yr achosion nad ydynt yn mynd ymlaen i Lys y Goron, yn isel. Roeddem yn pryderu rhywfaint nad oedd bob achos yn cael ei adolygu cyn y gwrandawiad cyntaf ond yn gyffredinol, mae achosion yn barod i fynd yn eu blaen. Mae'r broses adolygu barhaus yn dda ac mae'r achosion ar gyfer treial diannod wedi'u paratoi'n dda.

2.10 Mae'r gwaith ar achosion yn Llys y Goron yn arbennig o dda ac yn gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhan fwyaf o'n mesurau ac eithrio mewn perthynas â dyletswyddau dadlennu deunydd nas defnyddiwyd a chyflwyno tystion yn raddol yn y llys. Mae arbenigwyr ardal yn ymdrin ag achosion sensitif (digwyddiadau hiliol, troseddau homoffobig, trais yn y cartref, cam-drin plant, trais rhywiol a throseddau traffig ffordd angheuol) a chreodd eu dull o ymdrin â'r achosion a'u monitro argraff fawr arnom.

2.11 Mae angen gwella nifer o agweddau ar ddadlennu deunydd nas defnyddiwyd yn arbennig dyletswyddau ail ddadlennu.

**Eiriolaeth ac ansawdd y broses o gyflenwi gwasanaethau**

2.12 Mae safon gyffredinol eiriolaeth yn dda ac mae cyfran sylweddol o erlynwyr y CPS yn dda neu'n dda iawn. Mae ansawdd yr asiantwyr yn y llysoedd ynadon yn gymysg, ond yn Llys y Goron, caiff cwnsleriaid sydd â phrofiad priodol eu cyfarwyddo, yn arbennig yn yr achosion mwy difrifol a sensitif. Bwriedir cyflwyno cynllun strwythuredig ar gyfer monitro eiriolaeth.

2.13 Prin yw presenoldeb eiriolwyr y llysoedd uwch yn Llys y Goron ar hyn o bryd, o ganlyniad i'w hymrwymiadau yn y llysoedd ynadon. Mae angen i'r Ardal fynd i'r afael â hyn.

2.14 Gallai rhai agweddau ar gyflenwi gwasanaethau yn y llys fod yn well: nid oes gan rai erlynwyr amser i baratoi'n ddigonol ar gyfer y llys ac, ar adegau, nid yw'r holl ffeiliau a restrir ar gael i'r erlynydd.

**Dioddefwyr a thystion**

2.15 Mae'r gwasanaeth a ddarperir i dystion yn foddhaol. Mae'r Ardal yn treialu'r prosiect gofal i ddioddefwyr a thystion, Dim Tystion Dim Cyfiawnder. Ym mhob swyddfa CPS mae'r heddlu a'r staff Ardal yn gweithio fel tîm i ddarparu un pwynt cyswllt ac i asesu anghenion dioddefwyr. Mae'r Uned Cyswllt Tystion yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Gwybodaeth i Ddioddefwyr, sy'n ymdrin â Chyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw'r Ardal wedi cyflawni isafswm gofynion y prosiect.

2.16 Ceir rhywfaint o gwmpas ar gyfer nodi anghenion tystion yn fwy amserol er mwyn ceisio mesurau arbennig a hefyd er mwyn cyflwyno tystion yn raddol yn y llys.

2.17 Mae ansawdd cyffredinol y llythyrau i ddioddefwyr o dan y cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr yn dda er bod rhai yn cynnwys paragraffau diangen neu amhriodol. Caiff dioddefwyr troseddau nad ydynt yn mynd rhagddynt ar y cam cyn-cyhuddo eu cynnwys yng nghynllun yr Ardal.

**Rheoli perfformiad**

2.18 Mae angen i'r Ardal gasglu a dadansoddi gwybodaeth perfformiad sydd â chanolbwynt priodol er mwyn nodi a hybu gwelliannau. Mae rheolwyr newydd yr Ardal wedi cydnabod hyn ac maent wrthi'n atgyfnerthu'r gyfundrefn rheoli perfformiad.

**Rheoli pobl a chanlyniadau**

2.19 Mae strwythur yr Ardal a'r broses o leoli ei staff, yn ogystal ag adnoddau a neilltuir i'r fenter gyhuddo, wedi arwain at y ffaith mai prin yw presenoldeb cyfreithwyr yn Llys y Goron. Dylai hyfforddiant staff fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion staff yn ogystal â gofynion deddfwriaeth neu bolisi newydd. Bu cyfathrebu effeithiol yn wendid yn y gorffennol. Eir i'r afael â hyn gyda strategaeth a chynllun newydd, y mae rhywfaint o'r strategaeth a'r cynllun wedi'u gweithredu eisoes.

**Rheoli adnoddau ariannol**

2.20 Mae'r diffyg cysondeb yn swydd yr ABM yn y gorffennol wedi golygu bod yr Ardal ychydig yn agored i faterion ariannol a defnyddir amrywiaeth o systemau i fonitro a rheoli'r gyllideb. Dylai'r broses ddiweddar o benodi uwch reolwyr sefydlogi'r sefyllfa. Gallai fod ymwybyddiaeth fwy eang o gyllid ymhlith rheolwyr eraill.

2.21 Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad yr Ardal ond ceir ychydig o ansicrwydd o ran eu cywirdeb. Mae'n rhaid cywiro hyn.

**Partneriaethau ac adnoddau**

2.22 Mae'r swm enfawr o waith peilot wedi galluogi'r Ardal i ddatblygu cydberthnasau effeithiol gyda'i phartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae'r ddwy swyddfa wedi'u cyd-leoli â'r heddlu. Bydd yn bwysig sicrhau dull strwythuredig ar y cyd o gynllunio a monitro'r holl waith hwn er mwyn sicrhau'r buddiannau gweithredol a'r canlyniadau llwyddiannus mwyaf posibl.

2.23 Mae'r Ardal wedi cyflwyno System Rheoli Achosion Compass ond mae angen iddi annog mwy o gyfreithwyr i'w defnyddio.

**Polisi a strategaeth**

2.24 Mae'r Ardal wedi dangos parodrwydd a chymhelliant rhagorol i ddatblygu ei hun ar gyfer y dyfodol drwy dreialu llawer o fentrau. Mae'n rhaid iddi fod yn ofalus i sicrhau bod y sgiliau ar gyfer newid a rheoli prosiectau ar waith i sicrhau llwyddiant.

2.25 Mae'r broses ddiweddar o benodi uwch reolwyr wedi rhoi'r cyfle am adolygiad cynhwysfawr o strategaeth a chynlluniau'r Ardal, ac achubwyd ar y cyfle hwn. Ar yr un pryd, mae'r Tîm Adolygu Prosesau Busnes wedi gwneud dechrau addawol i ddatblygu prosesau cyson.

**Hyder y cyhoedd**

2.26 Yn gyffredinol, mae'r Ardal wedi ymdrin â chwynion yn dda ac mewn amser da.

2.27 Ymdrinnir ag achosion sydd â dimensiwn lleiafrifoedd ethnig yn dda ond nid yw'r Ardal wedi dangos ymagwedd gydlynol ei hun tuag at y gymuned. Mae angen iddi fod yn fwy rhagweithiol wrth gysylltu â'r cyfryngau. Er hynny, dengys Arolwg Troseddau Prydain fod hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd y broses o ddod â throseddwyr gerbron y llys yng Ngogledd Cymru yn uwch o lawer na'r cyfartaledd, sef 47% o gymharu â 39% yn genedlaethol. Mae'r Ardal yn chwarae rhan allweddol yn y llwyddiant hwnnw.

**Arweinyddiaeth a llywodraethu**

2.28 Mae gweledigaeth a gwerthoedd y rheolwyr newydd wrthi'n cael eu creu. Mae'n bwysig bod staff yn cael ymdeimlad clir o gyfeiriad yn gyflym.

2.29 Er bod gan yr Ardal TU a CJU, mae'r broses o ddosbarthu gwaith yn anarferol oherwydd mai'r TU sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o dreialon diannod ac mae cyfreithwyr TU yn cwmpasu llawer o sesiynau llysoedd ynadon. Ceir pryderon eang bod y strwythur hwn yn achosi anghysondeb rhwng gwaith Llys y Goron a gwaith y llysoedd ynadon. Mae angen proses graffu er mwyn cadarnhau ai'r trefniant hwn yw'r un mwyaf effeithlon ac effeithiol.

**Dod â throseddwyr gerbron y llys**

2.30 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi rhagori ar ei darged ar gyfer dod â throseddwyr gerbron y llys ac mae'r targed hwn yn +6.7% yn Nhachwedd 2003. Mae'r Ardal yn cyfrannu at y llwyddiant hwn drwy'r rhan mae'n ei chwarae yn y broses o weithredu'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo yn llawn ac o ganlyniad i gyfradd isel o ran achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron.

**Lleihau treialon aneffeithiol**

2.31 Mae cyfraddau treialon aneffeithiol yn galonogol o isel. Yn Llys y Goron yn ystod y cyfnod o Ebrill – Gorffennaf 2004, 12.7% oedd cyfradd y treialon aneffeithiol o gymharu â 17.2% yn genedlaethol. Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer y llysoedd ynadon mai 18.1% oedd cyfradd y treialon aneffeithiol o gymharu â 29.3%, sef y cyfartaledd cenedlaethol.

2.32 Mae'n bosibl y gallai'r broses o weithredu'r cynlluniau peilot helpu'r ffigurau da hyn, gan ei bod yn sicrhau bod y cyhuddiadau yn gywir, bod y dull o reoli achosion yn cael ei wella, a bod tystion yn derbyn y gofal iawn. Fodd bynnag, mae cyfraddau amseroldeb wedi dioddef, a thueddir i gael llawer o adolygiadau cyn-treial mewn achosion. Bydd gwerthuso'r prosiectau hyn o gymorth i nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer yr holl asiantaethau.

### Gwerth am arian

2.33 Cymharol brin yw'r asiantau y mae'r Ardal yn eu cyfarwyddo yn y llysoedd ynadon, ac mae'n gwneud defnydd llawn o'i herlynwyr mewnol. Gwna ddefnydd effeithiol o weithwyr achos dynodedig.

2.34 Mae ganddi gryn dipyn o waith i'w wneud eto i brofi buddiannau llawn y prosiectau mawr y mae wedi'u treialu dros y 18 mis diwethaf.

### Materion cydraddoldeb ac amrywiaeth

2.35 Mae gan yr Ardal gynllun cydraddoldeb ac amrywiaeth ond gallai ganolbwyntio mwy ar flaenoriaethau lleol a dylai'r cynllun gael ei alinio â'r Cynllun Busnes Ardal. Yn gyffredinol, mae angen ymagwedd fwy deinamig a phenodol. Ceir cwmpas i wella'r broses o gysylltu â'r gymuned gan roi mwy o bwyslais ar sefydlu hunaniaeth y CPS o fewn y gymuned.

### Argymhellion

2.36 Gwnawn argymhellion ynghylch y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â gwendidau sylweddol sy'n berthnasol i agweddau pwysig ar berfformiad, yr ystyriwn y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddynt.

2.37 Gwnaethom bum argymhelliad i helpu i wella perfformiad yr Ardal:

1. Dylai'r CCP, ar y cyd â'r heddlu, sicrhau bod argymhellion yr adolygiad o'r trefniadau cyhuddo cysgodol yn cael eu gweithredu ac yn arbennig dylai:

   * sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl yn Rhanbarth y Gorllewin yn ymgymryd â'r cyngor cyn-cyhuddo;

   * sicrhau bod y cyngor o dan y cynllun yn gyson;

   * sicrhau bod ceisiadau priodol am ffeiliau llawn; ac

   * ystyried pa mor gynhwysfawr yw cwmpas canolfannau cyhuddo'r heddlu (paragraff 4.4).

2. Dylai cyfreithwyr gydymffurfio'n llawn â dyletswyddau dadlennu deunydd nas defnyddiwyd a gweithredu'r gweithdrefnau yn y Cyfarwyddiadau Gweithredol ar y Cyd diwygiedig, a dylai'r Penaethiaid Uned fonitro hyn yn effeithiol (paragraff 4.23).

3. Dylai'r CCP a'r ABM sicrhau cywirdeb dangosyddion perfformiad (paragraff 4.46).

4. Mae'n rhaid i'r ABM sicrhau bod y cynllun gweithredu cyfathrebu yn cael ei ddatblygu ymhellach ac yn cael ei weithredu'n llawn (paragraff 8.20).

5. Dylai'r ASB graffu ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o rannu gwaith rhwng y TU a'r CJU, gan gynnwys cydbwysedd y staff yn yr unedau (paragraff 13.12).

**Arfer Da**

2.38 Rydym wedi nodi dwy agwedd ar arfer da, y gellid eu mabwysiadu'n genedlaethol:

1. Ymestyn y cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr i gynnwys darparu llythyron i ddioddefwyr lle na fydd achosion sy'n amodol ar gyngor cyn-cyhuddo yn mynd rhagddynt (paragraff 6.9).

2. Mae gan yr Ardal system effeithiol o fonitro pwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol i sicrhau bod y tasgau yn cael eu cyflawni (paragraff 13.14).

## 3 CANLYNIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

**Targed 1: Gwella'r broses o weinyddu cyfiawnder drwy gynyddu nifer y troseddau lle y daw'r troseddwyr gerbron y llys i 1.2 miliwn erbyn 2005-06; gyda gwelliant yn holl ardaloedd CJS, cynnydd mwy yn yr ardaloedd sydd â'r perfformiad gwaethaf, a gostyngiad yn y gyfran o dreialon aneffeithiol.**

| PERFFORMIAD Y CPS | Targed Cenedlaethol 2003-2004 | Perfformiad Cenedlaethol Cylch hyd yn hyn* | Targed yr Ardal 2003-2004 | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|---|---|---|
| GWAITH ACHOS LLYS YR YNADON A'R LLYS IEUENCTID | | | | |
| **Cyngor** | | | | |
| Penderfyniadau sy'n cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol yn y Cod [1] | - | 95.5% | - | 100% |
| Penderfyniadau sy'n cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol yn y Cod [1] | - | 96.6% | - | 100% |
| **Adolygiad Cyntaf** | | | | |
| Penderfyniadau i fynd rhagddo os bydd yr adolygiad cyntaf yn cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol [1] | - | 98.7% | - | 97.8% |
| Penderfyniadau i fynd rhagddo os bydd yr adolygiad cyntaf yn cydymffurfio â'r prawf budd y cyhoedd [1] | | 99.9% | - | 100% |
| Ceisiadau am dystiolaeth/gwybodaeth ychwanegol a wnaed yn briodol yn ystod yr adolygiad cyntaf [1] | | 77.2% | - | 100% |
| **Achosion sy'n dirwyn i ben** | | | | |
| Cyfradd dirwyn i ben yr achosion a gwblhawyd (Ffigur y CPS) | - | 13.4% | - | 9.1% |
| Achosion a ddaeth i ben gydag amseroedd dirwyn i ben prydlon [1] | - | 76.5% | - | 72% |
| Penderfyniadau i ddirwyn achos i ben a oedd yn cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol [1] | - | 93.3% | - | 92% |
| Penderfyniadau i ddirwyn achos i ben a oedd yn cydymffurfio â'r prawf budd y cyhoedd [1] | - | 92.4% | - | 92.3% |
| Achosion a ddaeth i ben lle y cymerwyd pob cam rhesymol i wneud cais am dystiolaeth/gwybodaeth ychwanegol [1] | - | 87.8% | - | 96% |
| **Lefel y cyhuddiad** | | | | |
| Cyhuddiadau yr oedd angen eu diwygio ac a ddiwygiwyd yn amsero l [1] | | 74.4% | | 66.7% |
| Achosion a aeth ymlaen i dreial neu a gafodd ble euog ar y cyhuddiad cywir [1] | | 95.5% | | 100% |
| **Treialon diannod sy'n chwalu neu sy'n aneffeithiol** | | | | |
| Treialon sy'n chwalu fel y cofnodwyd gan y CPS a JPM y llysoedd ynadon | - | (Hyd-Rhag 03) 37.5% | - | (Hyd -Rhag 03) 41.1% |
| Treialon sy'n chwalu mewn sampl ffeiliau y gellid bod wedi eu hosgoi drwy gamau gweithredu gan y CPS [1] | - | 19% | - | 1 allan o 13 |
| Treialon aneffeithiol fel y cofnodwyd gan y CPS a JPM y llysoedd ynadon | - | (Ebr-Rhag 03) 29.3% | - | (Ebr-Rhag 03) 18.1% |
| Treialon aneffeithiol yn y sampl ffeiliau y gellid bod wedi eu hosgoi drwy gamau gweithredu gan y CPS | | 29 | | - [4] |
| **Treialon diannod** | | | | |
| Cyfradd ryddfarnu yn y llysoedd ynadon (% o derfyniadau) – ffigur y CPS | - | 2% | - | 1.6% |
| Penderfyniadau i fynd ymlaen i dreial sy'n cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol [1] | - | 96.6% | - | 97.2% |
| Penderfyniadau i fynd ymlaen i dreial diannod sy'n cydymffurfio â'r prawf budd y cyhoedd [1] | - | 99.6% | - | 100% |
| Achosion ag adolygiad treial diannod amserol [1] | - | 76.7% | - | 100% |
| Ceisiadau am dystiolaeth/gwybodaeth ychwanegol a wnaed yn briodol yn yr adolygiad treial diannod [1] | - | 71.5% | - | 100% |
| Dim achosion i'w cyflwyno lle yr oedd y canlyniad yn rhagweladwy, ac y gallai'r CPS fod wedi gwneud mwy i osgoi'r canlyniad [1] | - | 39.8% | - | 0 allan o 0 |

| PERFFORMIAD Y CPS | Targed Cenedlaethol 2003-2004 | Perfformiad Cenedlaethol Cylch hyd yn hyn* | Targed yr Ardal 2003-2004 | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|---|---|---|
| **GWAITH ACHOS LLYS Y GORON** | | | | |
| **Traddodi a chyflwyno papurau erlyn** | | | | |
| Achosion ag adolygiad amserol cyn traddodi, neu'r broses o gyflwyno achos yr erlyniad mewn achosion a "ddanfonwyd" [1] | - | 81.3% | - | 92.3% |
| Penderfyniadau i fynd ymlaen ar y cam traddoddi/cyflwyno papurau erlyn a oedd yn cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron [1] | - | 96.5% | - | 100% |
| Penderfyniadau i fynd ymlaen ar y cam traddodi/cyflwyno papurau erlyn a oedd yn cydymffurfio â'r prawf budd y cyhoedd yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron [1] | - | 99.8% | - | 100% |
| Ceisiadau ar gyfer tystiolaeth/gwybodaeth ychwanegol a wnaed yn briodol ar gam traddodi/cyflwyno'r adolygiad o achos yr erlyniad [1] | - | 82% | - | 100% |
| Adolygiad parhaus amserol a chywir yn dilyn traddodi | - | 83% | - | 89.3% |
| Achosion lle y cyflwynwyd papurau traddodi yn amserol i'r amddiffyniad | 80% | 78.3%<br>81% [3] | - | 89.3% [1]<br>97.8 % [2] |
| Achosion lle y darparwyd cyfarwyddiadau yn amserol i'r cwnsler | 84% | 85.2%<br>85.3% [3] | - | 96.4% [1]<br>100% [2] |
| Cyfarwyddiadau I'r cwnsler a oedd yn foddhaol [1] | - | 63.6% | - | 92.6% |
| **Treialon sy'n chwalu ac sy'n aneffeithiol** | | | | |
| Treialon sy'n chwalu fel y cofnodwyd gan y CPS a JPM Llys y Goron | - | (Ebr-Gorff 04)<br>38.6% | - | (Ebr-Gorff 04)<br>41.8% |
| Treialon sy'n chwalu y gellid bod wedi eu hosgoi drwy gamau gweithredu gan y CPS [1] | - | 17.9% | - | 0 out of 13 |
| Treialon aneffeithiol fel y cofnodwyd gan y CPS a JPM Llys y Goron | - | (Ebr-Gorff 04)<br>17.2% | - | (Ebr-Gorff 04)<br>12.7% |
| Treialon aneffeithiol lle y gallai camau gweithredu gan y CPS fod wedi osgoi gohiriad [1] | - | 9.6% | - | - [4] |
| **Lefel y cyhuddiad** | | | | |
| Cyhuddiadau yr oedd angen eu diwygio ac a ddiwygiwyd yn amserol [1] | | 78.4% | | 100% |
| Ditiadiau yr oedd angen eu diwygio [1] | | 26.1% | | 26.9% |
| Achosion a aeth ymlaen i dreial neu a gafodd ble euog ar y cyhuddiad cywir [1] | | 96% | | 96.6% |
| **Rhyddfarnau a orchmynnwyd gan Farnwr (JOA) a rhyddfarnau a gyfarwyddwyd gan Farnwr (JDA)** | | | | |
| JOA/JDA lle yr oedd y canlyniad yn rhagweladwy, a lle y gallai'r CPS fod wedi gwneud mwy i osgoi'r canlyniad [1] | - | 23.4% | - | 10% |
| **Treialon** | | | | |
| Cyfradd ryddfarnu yn Llys y Goron (% o'r holl derfyniadau ac eithrio JOA, apeliadau/traddodebau ar gyfer dedfryd a dileu gwarantau) [2] | - | 10 % | - | 5.7% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CULHAU'R BWLCH CYFIAWNDER** | | | | |
| Canran a ddaeth gerbron y llys yn erbyn y gwaelodlin ar gyfer 01-2002 fel y cofnodwyd gan y JPIT | Targed +5% | +9.7%<br>(o Dach 03) | | +6.7%<br>(o Dach 03) |

1 fel yr aseswyd gan HMCPSI o'r archwiliad o'r sampl ffeiliau yn ystod yr arolygiad

2 hunan-asesiad gan yr Ardal

3 ffigur a gasglwyd yn genedlaethol yn seiliedig ar ffurflenni hunan-asesu Ardal

4 nifer annigonol o ffeiliau i ddarparu data dibynadwy

* perfformiad Ardaloedd a arolygwyd yng nghylch arolygu 2002-2004 ar gyfartaledd yn seiliedig ar sampl o achosion a archwiliwyd ac arsylwadau yn y llys hyd at 30 Mehefin 2004

**Targed 2: Gwella lefel hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys hyder cymunedau lleiafrifoedd ethnig, a chynyddu bodlonrwydd dioddefwyr a thystion yn flynyddol, tra'n parchu hawliau diffynyddion.**

| PERFFORMIAD Y CPS | Targed Cenedlaethol 2003-2004 | Perfformiad Cenedlaethol Cylch hyd yn hyn* | Targed yr Ardal 2003-2004 | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|---|---|---|
| GWAITH ACHOS LLYS YR YNADON A'R LLYS IEUENCTID | | | | |
| **Dadleniad** | | | | |
| Achosion lle yr ymdriniwyd â dadleniad sylfaenol yn briodol [1] | | 69.6% | | 92% |
| Achosion lle yr ymdriniwyd â dadleniad eilaidd yn briodol [1] | | 55.2% | | 0 allan o 0 |
| **Gofal tystion** | | | | |
| Treialon lle y gwnaed defnydd priodol o S9 CJA 1967 [1] | | 96.3% | | 96% |
| Treialon lle y gwnaed defnydd priodol o fesurau gofal tystion [1] | | 82.3% | | 100% |
| GWAITH ACHOS LLYS Y GORON | | | | |
| **Dadleniad** | | | | |
| Achosion lle yr ymdriniwyd â dadleniad sylfaenol yn briodol [1] | | 80.1% | | 70.8% |
| Achosion lle yr ymdriniwyd â dadleniad eilaidd yn briodol [1] | | 59% | | 31.3% |
| **Gofal tystion** | | | | |
| Treialon lle y gwnaed defnydd priodol o gyflwyno tystion yn raddol/wrth gefn [1] | | 81.5% | | 62.5% |
| Treialon lle y gwnaed defnydd priodol o fesurau gofal tystion [1] | | 93.5% | | 100% |
| LLYS YR YNADON A LLYS Y GORON | | | | |
| **Terfynau amser yn y ddalfa** | | | | |
| Achosion mewn sampl lle y cyfrifwyd y dyddiadau dod i ben yn gywir | - | 91.4% | - | 100% |
| MATERION ERAILL | | | | |
| **Talu costau tystion** | | 2003-04 | | |
| Talu costau tystion o fewn 10 diwrnod i dderbyn y cais [2] | 100% | 98.8% | 100% | 99.1% |
| **Ymdrin â chwynion** | | 2003-04 | | |
| Cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 10 diwrnod [2] | 94% | 86.1% | 96% | 100% |
| **Ymrwymiad siarter dinasyddion** | | 2003-04 | | |
| Gohebiaeth AS yr ymatebwyd iddi o fewn 15 diwrnod [2] | 100% | 92.8% | Dd/G | 100% |
| **Gwella cynhyrchiant** | | | | |
| Lleihau cyfradd absenoldeb oherwydd salwch fesul aelod o staff | 8.5 diwrnod (2004) | 9.2 diwrnod | | 8.2 diwrnod |
| AGWEDDAU ERAILL AR BERFFORMIAD Y CPS | | | | |
| **Mesurau Perfformiad Cyfiawnder i'r Ifanc CJS (a rennir rhwng y Swyddfa Gartref, yr Adran Materion Cyfansoddiadol (LCD yn flaenorol) a'r CPS)** | | | | |
| I haneru'r amser o arestiad i ddedfryd ar gyfer troseddwyr ifanc parhaus o 142 i 71 diwrnod erbyn 31 Mawrth 2002 | 71 diwrnod | 64 diwrnod (Maw-Mai 04) | 71 diwrnod | 54 diwrnod (Maw-Mai 04) |

1 fel yr aseswyd gan HMCPSI o'r archwiliad o'r sampl ffeiliau yn ystod yr arolygiad

2 hunan-asesiad gan yr Ardal

* perfformiad Ardaloedd a arolygwyd yng nghylch arolygu 2002-2004 ar gyfartaledd yn seiliedig ar sampl o achosion a archwiliwyd ac arsylwadau yn y llys hyd at 30 Mehefin 2004

**Sylwebaeth**

***Cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu***

3.1 Mae ansawdd cyngor cyn-cyhuddo ffurfiol i'r heddlu yn gadarn a chyflwynir y cyngor yn dda. Mae'r Ardal wedi sefydlu ei chynllun cyhuddo cysgodol ar draws yr Ardal ond amrywiol fu ei lwyddiant mor belled. Mae wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r cynllun ac mae bellach yn gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor wyneb yn wyneb a roddir ar draws canolfannau cyhuddo Gogledd Cymru yn gynhwysfawr.

***Ansawdd y broses gwneud penderfyniadau***

3.2 Mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn gadarn. Nododd cyfreithwyr faterion a gofynnwyd am dystiolaeth neu wybodaeth bellach yn ystod yr adolygiad cychwynnol yn yr holl achosion perthnasol o gymharu â pherfformiad cenedlaethol o 77.2% yn achosion y llysoedd ynadon ac 82% yn achosion Llys y Goron. Ystyriasom mai dim ond mewn un achos allan o'r 59 achos a archwiliwyd gennym yr oedd lefel y cyhuddiad a aeth rhagddo i dreial neu ble euog yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron yn anghywir .

***Adolygiad parhaus***

3.3 Mae profiad y cyfreithwyr yn y TU sy'n delio ag achosion yn Llys y Goron a threialon yn y llysoedd ynadon wedi galluogi'r broses adolygu barhaus i barhau yn gadarn er gwaethaf yr amser cymharol brin y maent yn treulio yn y swyddfa. Mae amseroldeb yr adolygiad am dreial neu draddodi a'r cais priodol am dystiolaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yr achosion yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron.

***Achosion sy'n dirwyn i ben***

3.4 Mae cyfradd yr achosion sy'n dirwyn i ben yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (9.1% o gymharu â 12.2%) ac roedd ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn dda ar y cyfan.

***Traddodebau a ryddhawyd***

3.5 Mae traddodebau a ryddheir oherwydd nad ydynt yn barod yn brin iawn. Os na chânt eu hailgychwyn, dylai systemau sicrhau eu bod yn cael eu cau a, lle y bo angen, bod y dioddefwr yn cael ei hysbysu.

***Lefel y cyhuddiad***

3.6 Roedd penderfyniadau ynghylch lefel y cyhuddiad yn y llysoedd ynadon yn foddhaol ond, yn aml, ni wnaed diwygiadau angenrheidiol yn brydlon. Roedd perfformiad yr Ardal yn hyn o beth yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (66.7% o gymharu â 72.2%). Yn Llys y Goron gwnaed y diwygiadau gofynnol ym mhob achos ac yn brydlon.

*Treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol*

3.7 Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru (LCJB) yn perfformio'n foddhaol yn Llys y Goron. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2004, 37.2% oedd cyfradd y treialon a chwalwyd o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 38.8% (er, yn y cyfnod diweddaraf o fis Ebrill – Gorffennaf 2004 mae wedi codi ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol) a 12.7% oedd cyfradd y treialon aneffeithiol, o gymharu â 17.2%. Yn ein sampl o ffeiliau Llys y Goron, ni ellid bod wedi osgoi unrhyw dreialon a chwalwyd drwy weithredu gan y CPS.

3.8 Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer y llysoedd ynadon mai 18.1% oedd cyfradd y treialon aneffeithiol o gymharu â 29.3% sef y cyfartaledd cenedlaethol er mai 41.1% oedd cyfradd y treialon a chwalwyd o gymharu â 37.5% yn genedlaethol. Yn ein sampl o ffeiliau y llysoedd ynadon, dim ond un o'r 13 o achosion a chwalwyd y gellid bod ei osgoi drwy weithredu gan y CPS.

*Troseddwyr ifanc parhaus*

3.9 Mae arbenigwyr Ardal yn gweithio'n dda yn gyson gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill wrth baratoi achosion yn effeithiol i gadw'r gyfradd amseroldeb ar gyfer Troseddwyr Ifanc Parhaus yn sylweddol is na'r 71 diwrnod gofynnol. 54 diwrnod yw'r ffigur diweddaraf.

**Cryfderau**

* Y gwaith da ac amserol a wneir yn gyson i gadw amseroldeb achosion Troseddwyr Ifanc Parhaus ar ffigur sy'n sylweddol is na'r targed.

*Troseddwyr parhaus*

3.10 Datblygwyd protocol troseddwyr parhaus manwl rhwng asiantaethau CJS. Mae'r Ardal wedi pennu targed o gynnydd o 9% yn nifer y troseddwyr parhaus a ddaw gerbron y llys, a disgwylir iddi gyflawni hyn. Mae'r LCJB yn datblygu'r amserlen ar gyfer gweithredu ei strategaeth Troseddwyr Cyson Iawn a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth.

*Achosion sensitif*

3.11 Yn gyffredinol, ymdrinnir ag achosion sensitif yn dda, ac rydym yn trafod hyn yn fanylach ym mharagraffau 4.24 i 4.28.

*Canlyniadau gwrthwynebus*

3.12 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 yn y llysoedd ynadon, 0.3% oedd cyfran yr achosion gwrthwynebus (dim achos i'w gyflwyno), sef yr un peth â'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oedd y canlyniad yn rhagweladwy yn unrhyw un o'r chwe achos a archwiliwyd gennym.

3.13 Yn ystod yr un cyfnod yn Llys y Goron 5.1% oedd cyfradd y rhyddfarnau a orchmynnwyd gan farnwr o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 14%. 2% oedd cyfradd y rhyddfarnau a gyfarwyddwyd gan farnwr o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 1.9%. Archwiliwyd deg o'r achosion hyn gennym ac o fewn tri ohonynt roedd y canlyniad yn rhagweladwy. O'r tri achos hyn, ystyriasom y gallai'r CPS fod wedi gwneud mwy i osgoi'r canlyniad mewn un achos.

***Culhau'r bwlch cyfiawnder***

3.14 Mae'r LCJB wedi rhagori ar ei darged o +5% ar gyfer dod â throseddwyr gerbron y llys. Dengys y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd +6.7% a dengys ffigur yr LCJB ar gyfer Chwefror 2004, sef +11.2% fod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud. Mae'r Ardal yn cyfrannu at y llwyddiant hwn drwy ei rhan yn y broses o weithredu'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo yn llawn ac yn sgîl cyfradd isel o ran achosion sy'n dirwyn i ben, sef 9.1% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 13.4%.

***Dadleniad***

3.15 Mae dadlennu sylfaenol yn foddhaol ar y cyfan mewn achosion syml yn y llys ynadon, ond nid yw'r un peth yn wir am achosion mwy cymhleth yn Llys y Goron. Mae angen rhoi sylw i'r agwedd hon ar y gwaith, yn enwedig dadlennu eilaidd. Trafodwn hyn a gwnawn argymhelliad ym mharagraff 4.23.

## 4 GWAITH ACHOS

### Cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu (CAP1)

4.1 Mae'r Ardal wedi sefydlu'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo cysgodol ar draws yr ardal a rennir yn dri rhanbarth yr heddlu: y Dwyrain, Canolog a'r Gorllewin. Cyflwynwyd y cynllun yn llwyddiannus yn Rhanbarth y Dwyrain lle yr ymgymerodd nifer o'r heddlu â'r cynllun. Yn y Rhanbarth Canolog, cafodd swyddogion a oedd yn gweithio sifft rywfaint o anawsterau ymarferol wrth ymgynghori â chyfreithwyr, ac ym mis Awst argymhellir lleihau'r ddwy orsaf gyhuddo bresennol i un orsaf yn Llanelwy. Bydd cyfreithwyr yn gweithio yn yr orsaf hon yn ystod oriau gwaith bum diwrnod yr wythnos.

4.2 Ni fu'r cynllun yn llwyddiant yn Rhanbarth y Gorllewin lle yr oedd yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o'r cynllun a nifer y swyddogion a ymgymerodd â'r cynllun yn wael. Ceir tystiolaeth glir nad yw swyddogion yn defnyddio'r cynllun a hyd yn oed yn ceisio ei osgoi mewn amryw ffyrdd.

4.3 O ganlyniad i ddaearyddiaeth rhannau o'r ardal mae'n anodd cysylltu'n uniongyrchol â chyfreithwyr. Mae rhai cyfreithwyr yn fwy profiadol neu gadarn nag eraill, sy'n arwain at roi rhywfaint o gyngor anghyson; bydd rhai yn gofyn am ffeil lawn o dystiolaeth yn fwy nag eraill. Yn sgîl yr anghysondebau hyn gellir awgrymu bod swyddogion yn dewis a dethol gyda phwy y maent yn siarad.

4.4 Argymhellir, erbyn diwedd 2005, bod y cynllun yn dod yn rhwymedigaeth statudol ym mhob Ardal. Mae'n hanfodol y deuir o hyd i ddatrysiadau ar gyfer y gwendidau hynny. Gan ystyried hyn, mae tîm heddlu/CPS ar y cyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr. Creodd trylwyredd, gonestrwydd a natur agored yr adolygiad hwn argraff arnom. Gwnaeth yr adolygiad ddeg argymhelliad y cymerir camau yn eu cylch ar hyn o bryd. Er bod angen datblygu'r cynllun ymhellach, ystyriwn fod yr ymagwedd a fabwysiadwyd a'r gwaith a wnaed i ddatrys y problemau yn gryfderau. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd llwyddiant y cynllun hefyd yn arwain at argymhelliad.

**Cryfderau**

* Adolygiad cynhwysfawr ac agored o'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo ynghyd â chynllun gweithredu manwl a realistig ar gyfer y camau unioni sydd eu hangen.

**ARGYMHELLIAD**

**Dylai'r CCP, ar y cyd â'r heddlu, sicrhau bod argymhellion yr adolygiad o'r trefniadau cyhuddo cysgodol yn cael eu gweithredu ac yn arbennig dylai:**

* sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl yn Rhanbarth y Gorllewin yn ymgymryd â'r cyngor cyn-cyhuddo;
* sicrhau bod y cyngor o dan y cynllun yn gyson;
* sicrhau bod ceisiadau priodol am ffeiliau llawn; ac
* ystyried pa mor gynhwysfawr yw cwmpas canolfannau cyhuddo'r heddlu.

**Achosion sy'n barod i fynd rhagddynt ar ddyddiad cyntaf y gwrandawiad (CAP2)**

4.5 Lle y rhoddir cyngor cyn-cyhuddo, safon yr Ardal yw y dylai ffeiliau llawn sy'n barod ar gyfer treial gael eu paratoi cyn y cyhuddiad os yw mechnïaeth yn briodol. Gellid diwygio hyn yng ngoleuni'r arweiniad diweddar a gyhoeddwyd gan y DPP. Yn ymarferol, mae ffeiliau yn aml yn ddiffygiol. Yn ein sampl o achosion yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron, roedd angen gwybodaeth bellach mewn hanner o'r 59 o achosion. Gofynnodd cyfreithwyr Ardal am y wybodaeth bellach hon yn ystod yr adolygiad cyntaf ym mhob achos perthnasol. Caiff yr achosion eu hadolygu a chaiff y flaenwybodaeth ei pharatoi a'i gwirio a'i rhoi i'r amddiffyniad yn ystod y cyhuddiad neu yn y gwrandawiad cyntaf.

4.6 Mewn achosion eraill, fel arfer y rhai yn llysoedd y Gwrandawiad Cyntaf Cynnar (EFH), bydd blaenwybodaeth wedi'i pharatoi gan yr heddlu a'i rhoi i'r amddiffyniad heb i gyfreithiwr neu DCW ei gwirio. Gall hyn arwain at gyflwyno dogfennau amhriodol; er enghraifft, crynodebau anghywir, datganiadau tystion nad ydynt yn rhan o achos yr erlyniad a gwybodaeth sensitif. At hyn, anaml y caiff y dogfennau a gyflwynir fel blaenwybodaeth eu cofnodi ar y ffeil ac anaml y caiff copi o'r blaenwybodaeth ei gadw. Yn ein sampl, cofnodwyd manylion y flaenwybodaeth mewn chwech allan o 29 o achosion perthnasol yn y llysoedd ynadon ac mewn pump allan o 22 o achosion perthnasol yn Llys y Goron. Roedd y diffyg cofnod hwn yn destun argymhelliad yn ein hadroddiad blaenorol ac mae angen rhoi sylw i'r mater hwn.

4.7 Roeddem yn pryderu na chaiff rhai achosion eu hadolygu cyn y gwrandawiad cyntaf. Er y ceir systemau i erlynwyr ar ddyletswydd (nid o reidrwydd yr erlynydd a fydd yn y gwrandawiad yn y llys) adolygu'r ffeiliau y diwrnod cynt, yn ymarferol, mae cyfreithwyr CJU a TU yn aml yn y llys neu'n ymwneud â gwaith arall bedwar allan o bum diwrnod yr wythnos, felly prin yw'r amser sy'n weddill ganddynt i adolygu neu i baratoi ffeil ddigonol.

| |
|---|
| **Agweddau ar gyfer gwelliant**<br><br>* Dylid cadw cofnod o'r dogfennau a gyflwynir i'r amddiffyniad fel blaenwybodaeth. |

**Ceisiadau am fechnïaeth/cadwraeth (CAP3)**

4.8 Mae erlynwyr yn gwneud sylwadau priodol wrth wneud ceisiadau am fechnïaeth neu gadwraeth, gan ddarparu digon o wybodaeth i'r ynadon allu gwneud penderfyniadau. Ar adegau, ni allant hysbysu'r amddiffyniad o'u barn mewn achosion cadwraeth cyn i gyfreithiwr yr amddiffyniad weld ei gleient i gymryd cyfarwyddiadau, oherwydd caiff y ffeiliau eu dosbarthu'n hwyr i'r llys a byddant yn cyrraedd pan fydd yr erlynydd yn ymdrin â materion eraill.

**Achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon (CAP4)**

4.9 9.1% oedd cyfradd yr achosion a wnaeth ddirwyn i ben yn yr Ardal yn ystod y flwyddyn hyd at Fawrth 2004, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 12.1%. Mae llawer yn priodoli'r gyfradd is hon i lwyddiant y fenter cyngor cyn-cyhuddo cysgodol. Gallai hyn fod yn wir, ond mae'n anodd gwneud cysylltiad cyffredinol yn uniongyrchol â chyhuddo pan fydd effaith y ddwy fenter arall (Prosiect Rheoli Treialon yn Effeithiol a Dim Tystion Dim Cyfiawnder) hefyd yn effeithio ar y gyfradd.

4.10 Archwiliwyd 25 o ffeiliau gennym a oedd yn cynnwys achosion a wnaeth ddirwyn i ben. Roedd tair ar hugain o'r 25 (92%) o'r penderfyniadau i ddirwyn i ben yn cydymffurfio â phrofion y Cod. Cymerwyd camau rhesymol cyn penderfynu dirwyn achosion i ben ym mhob achos heblaw am un. Roedd y broses o ddirwyn achosion i ben yn amserol mewn 18 allan o 25 o achosion (72%), sydd ychydig yn is na'r perfformiad cenedlaethol o 76.5%.

4.11 Mae gan yr Ardal gytundeb gyda'r heddlu o ran pa achosion nad oes angen ymgynghori yn eu cylch cyn iddynt gael eu dirwyn i ben. Ymgynghorwyd â'r heddlu ym mhob un o'r 20 o achosion perthnasol heblaw am un, er na allem gael cadarnhad o hyn mewn pedwar achos arall. Pan ymgynghorir â'r heddlu mae'n bosibl y bydd oedi pellach oherwydd nad yw'r heddlu yn ateb yn brydlon neu oherwydd nad yw cyfreithwyr ar gael i drafod yr achosion.

**Paratoi treialon diannod (CAP5)**

4.12 Mae ansawdd y broses o baratoi at gyfer treialon diannod yn dda ac yn uwch na'r perfformiad cenedlaethol. Mae'r penderfyniadau yn cydymffurfio â'r Cod. Mae profiad cyfreithwyr yn y TU (sy'n delio â threialon llysoedd ynadon) yn gyffredinol yn galluogi ffeiliau i gael eu paratoi'n gywir ac yn brydlon, er gwaethaf rhai ffeiliau hwyr a geir gan yr heddlu a gwneir rhai ceisiadau priodol am wybodaeth bellach os oes angen.

4.13 Pan dderbynnir y ffeil lawn, bydd y cyfreithiwr yn cwblhau'r adolygiad a'r cyfarwyddiadau. Hwn, mewn gwirionedd, yw'r adolygiad o'r treial oherwydd caiff treialon yn aml eu rhestru yn fuan cyn yr adolygiad cyn-treial. Caiff y ffeil ei dychwelyd i'r cyfreithiwr cyn y treial ar yr amod nad oes problemau. Gall hyn olygu bod cyfreithwyr yn adweithiol yn hytrach na'n rhagweithiol wrth reoli'r achos. Caiff ffeiliau treialon eu gwirio cyn iddynt gael eu hanfon at asiantau. Mae'r Prosiect Rheoli Treialon yn Effeithiol (ETMP) wedi cyflwyno ffurflen gwirio parodrwydd ar gyfer treial, er na chaiff ei defnyddio ymhob achos.

4.14 Hyd yn hyn, ni nodwyd llawer o fuddiannau o'r ETMP. Mae gan lysoedd yn yr Ardal systemau a diwylliannau gwahanol. Gwneir gwaith yn awr i gyflawni mwy o gysondeb ar draws yr Ardal drwy ETMP a chyfarfodydd datblygu achosion. Nid oedd rhai aelodau o staff yn ymwybodol o'r prosiect, ei fuddiannau disgwyliedig, neu'r newidiadau a wnaed eisoes. Mae angen atgyfnerthu'r broses o werthuso'r prosiect.

### Traddodi a pharatoi achosion yn Llys y Goron (CAP6)

4.15 Mae'r Ardal yn elwa ar weithlu sefydlog a chyfreithwyr a gweithwyr achos profiadol. Mae rhai aelodau o staff wedi mynegi pryder bod canolbwynt y gwaith yn y TU wedi symud o waith Llys y Goron i waith y llysoedd ynadon gan fod cyfreithwyr yn paratoi treialon llysoedd ynadon ac yn erlyn yn y llysoedd ynadon yn hytrach nac yn Llys y Goron. Dibynnir yn helaeth ar weithwyr achos ar gyfer gwaith Llys y Goron. Dylai'r pryderon hyn fod yn rhan o'r craffu yr ydym wedi'i argymell ym mharagraff 13.12.

4.16 Er gwaethaf y pryderon hyn, canfuom fod y gwaith yn Llys y Goron yn dda ac yn uwch yn gyson na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhan fwyaf o'n mesurau. Roedd penderfyniadau yn cydymffurfio â'r Cod a gwnaed ceisiadau am wybodaeth bellach yn briodol ym mhob achos. Roedd adolygu cyn traddodi yn amserol mewn 24 allan o 26 o achosion (92.3%) o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 81.3%. Roedd adolygu ar ôl traddodi yn amserol ac yn gywir mewn 89.3% o achosion o gymharu â 83%. Fel arfer, caiff achosion a anfonir i Lys y Goron eu paratoi ar amser er bod y llys yn caniatáu cyfnod llai na'r 42 diwrnod arferol. Caiff yr amseroldeb hwn ei ategu gan ofyniad yr Ardal am ffeil sy'n barod i fynd i dreial cyn i ddiffynnydd gael ei gyhuddo. Cyflwynwyd papurau traddodi i'r amddiffyniad o fewn y cyfnod gofynnol mewn 89.3% o achosion, o gymharu â 81%, ac fe'u cyflwynwyd i'r cwnsler mewn 96.4% o achosion o gymharu â 85.2% yn genedlaethol. Mae'n ddiddorol nodi bod hunanasesiad yr Ardal o'r ddau fesur olaf hwn hyd yn oed yn fwy hael na'r canfyddiadau. Dylid nodi hefyd, gan y derbynnir llawer o ffeiliau llawn yn hwyr gan yr heddlu ac y gall fod oedi yn y gronfa argraffu, er gwaethaf pa mor gyflym y cânt eu paratoi, dim ond ar ddiwrnod y traddodi y caiff y papurau traddodi eu cyflwyno, gan achosi gohiriadau pellach.

4.17 Roedd ansawdd y cyfarwyddiadau i'r cwnsler yn destun awgrym yn ein hadroddiad diwethaf. Canfuom fod y cyfarwyddiadau hyn yn dda iawn bellach. Yn ein sampl roedd 25 allan o 27 o achosion perthnasol (92.6%) yn foddhaol neu'n well, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 63.6%.

4.18 Dim ond un neu ddau o draddodebau a ryddheir oherwydd nad ydynt yn barod sydd yn yr Ardal o fewn blwyddyn. Roeddem yn fodlon bod system ar waith ar gyfer ystyried ailgyflwyno achosion yn briodol. Efallai y byddai rheolwyr am sicrhau, os na fydd yr achosion hyn yn mynd rhagddynt neu os na cheir tystiolaeth bellach, bod yr achosion yn cael eu cau'n briodol a bod y dioddefwr yn cael ei hysbysu.

4.19 Mae gan yr Ardal Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r heddlu yngl_n â gweithredu Deddf Elw Troseddau 2001. I ddechrau, prin oedd y ceisiadau o fewn y Ddeddf oherwydd prin oedd yr ymchwiliadau ariannol a wnaed. Mae nifer yr ymchwilwyr ariannol yn tyfu ac mae'r Ardal, ar y cyd â'r heddlu, yn bwriadu cynnal hyfforddiant gloywi i ailddechrau'r broses.

> **Cryfderau**
>
> * Gwaith da cyson ac amserol cyfreithwyr a gweithwyr achos wrth baratoi achosion Llys y Goron.

**Dadlennu deunydd nas defnyddiwyd (CAP7)**

4.20 Ymdriniwyd â dadlennu sylfaenol mewn achosion syml yn y llysoedd ynadon yn briodol mewn 23 allan o'r 25 o achosion (92%), sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol o 69.6%. Nid oedd angen ail ddadlennu yn unrhyw un o'r achosion a archwiliwyd gennym yn y llysoedd ynadon, oherwydd na chafwyd datganiadau gan yr amddiffyniad.

4.21 Yn achosion Llys y Goron dim ond mewn 70.8% o achosion yr ymdriniwyd â dadlennu sylfaenol yn briodol o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 80.1%. Yn ein hadroddiad diwethaf gwnaethom argymhelliad i wella'r broses asesu a'r gweithdrefnau ar gyfer dadlennu eilaidd. Prin yw'r cynnydd a wnaeth yr Ardal yn hyn o beth: canfuom mai dim ond 31.3% o achosion yr ymdriniwyd â hwy yn briodol o gymharu â 59% yn genedlaethol.

4.22 Er y dywedwyd wrthym bod hyfforddiant wedi'i roi ar y canllawiau llymach a geir yn y Cyfarwyddiadau Gweithredol ar y Cyd, prin oedd y dystiolaeth a welsom fod y rhain yn cael eu cymhwyso. Ymhlith y diffygion roedd:

* MG6Cs (y rhestr o ddeunydd nas defnyddiwyd), derbyniwyd manylion annigonol, ni chafwyd sylwadau ac ni chawsant eu dychwelyd i'w cywiro;
* dim dull ystyrlon o arnodi MG6Cs gan gyfreithwyr; weithiau dim ond llofnod a gafwyd;
* nid anfonwyd datganiadau gan yr amddiffyniad i'r heddlu;
* nid ymatebwyd i ddatganiadau'r amddiffyniad;
* ni chwblhawyd cofnodion dadlennu; a
* dull gwael o reoli dogfennau dadlennu o fewn y ffeil.

4.23 Byddai'r cwnsler yn aml yn ymgymryd â materion dadlennu. Beth bynnag, weithiau, bydd y llys yn gorchymyn proses o ddadlennu nad yw'n tanseilio'r erlyniad na'n cynorthwyo'r amddiffyniad. Serch hynny, y cyfreithwyr Ardal a ddylai fod yn ystyried ac yn ymdrin â materion dadlennu mewn ffordd ragweithiol, ac nid ydynt yn gwneud hyn mewn llawer o achosion.

**ARGYMHELLIAD**

**Dylai cyfreithwyr gydymffurfio'n llawn â dyletswyddau dadlennu deunydd nas defnyddiwyd a gweithredu'r gweithdrefnau yn y Cyfarwyddiadau Gweithredol ar y Cyd diwygiedig, a dylai'r Penaethiaid Uned fonitro hyn yn effeithiol.**

### Achosion sensitif (CAP8)

4.24 Mae digon o arbenigwyr ym mhob uned i ddelio ag achosion arbenigol (digwyddiadau hiliol, troseddau homoffobig, trais yn y cartref, cam-drin plant, trais rhywiol a throseddau angheuol ar y ffordd). Fel arfer, y Penaethiaid Uned yw hyrwyddwyr yr Ardal yn yr arbenigeddau hyn. Ystyriwn fod y rhan fwyaf o'u gwaith yn gryfder, ond ceir cwmpas bellach i drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i gyfreithwyr profiadol er mwyn gwella eu datblygiad ac i alluogi Penaethiaid Uned i ganolbwyntio ar reoli'r unedau a chydberthnasau allanol, yn arbennig gyda grwpiau eraill yn y gymuned.

4.25 Ymdrinnir ag achosion sy'n ymwneud â thrais yn y cartref yn dda. Os yn bosibl, mae cyfreithwyr yn gadarn wrth ddilyn trywydd achosion, er i ni arsylwi un achos yn y llys a gafodd ei oedi'n ddiangen drwy barhau â chyhuddiad llai ar ôl ple am gyhuddiad mwy difrifol, a arweiniodd at dreial a chwalodd. Archwiliwyd 14 o'r achosion hyn gennym a dim un na chafodd ei adolygu gan arbenigwr. Cafodd pob un eu marcio fel achosion trais yn y cartref. Cafwyd manylion cefndirol digonol (a da iawn yn aml) am yr achosion hyn. Mae gan yr Ardal restr wirio o gamau i annog cydymffurfiaeth â pholisi'r CPS, er na chafodd ei chwblhau bob amser. Serch hynny, dilynwyd polisi'r CPS ymhob achos ond un lle nad oedd yn bosibl cymryd camau oherwydd nodwyd yr angen am fesurau arbennig yn rhy hwyr. Mae hyrwyddwr yr Ardal yn rhagweithiol iawn. Mae'n monitro bob achos ac yn cysylltu'n agos ac yn aml gyda'r heddlu a'r gymuned, gan greu a dod o hyd i ddatrysiadau i faterion. O ganlyniad caiff cyfran uwch o achosion na'r arfer eu herlyn yn llwyddiannus.

4.26 Ar y cyfan, ymdriniwyd ag achosion a oedd yn ymwneud â digwyddiadau hiliol (yn cynnwys y rhai â materion yn ymwneud â Chymru/Lloegr) yn dda. Caiff achosion eu nodi yn gywir a chaiff y rhan fwyaf o ffeiliau eu marcio. Cydymffurfiodd penderfyniadau'r adolygiad â'r Cod mewn 12 o'r 14 o achosion a archwiliwyd gennym. Mewn un achos, dylid bod wedi ceisio gwybodaeth bellach pan ddatgyffesodd y dioddefwr. Mewn ail achos, aeth llawer o amser heibio cyn i benderfyniad gael ei wneud yn newid y penderfyniad gwreiddiol i fynd rhagddo. Gwneir penderfyniadau pwysig gan arbenigwyr neu drwy ymgynghori â hwy ac mae pob cyfreithiwr wedi derbyn hyfforddiant yngl_n â throseddau'n ymwneud â hil. Rhoddwyd digon o wybodaeth i ddangos effaith y trosedd ar y dioddefwr mewn 11 allan o 14 o'r ffeiliau. Unwaith eto, mae hyrwyddwr yr Ardal ar gyfer troseddau casineb yn rhagweithiol. Mae'n monitro pob achos, gan gasglu'r canlyniadau a chyflwyno materion a godwyd. Cawsom un sylw yn dweud yr ymdriniwyd â digwyddiad anrhefn cyhoeddus sylweddol a oedd yn deillio o faterion hiliol yn dda iawn.

4.27 Archwiliwyd 13 o ffeiliau gennym a oedd yn ymwneud â cham-drin plant. Ymdriniwyd â phob ffeil yn unol â pholisi'r CPS ym mron pob agwedd. Dywedwyd wrthym mai arbenigwyr sy'n adolygu ac yn ymdrin â'r ffeiliau hyn, ond ni allwn gadarnhau hyn ar yr holl ffeiliau. Traddodwyd y rhan fwyaf o'r achosion hyn i Lys y Goron. Tueddir i beidio â nodi ar ffeiliau Llys y Goron eu bod yn ymwneud ag achosion cam-drin plant. Dim ond mewn un allan o'r tri achos perthnasol y cafwyd nodiadau a sylwadau am dystiolaeth fideo'r plentyn. Cafwyd prosesau diogelwch boddhaol ar gyfer y fideos. Ymdriniwyd â dull dadlennu trydydd parti yn gywir.

4.28 Mae arbenigwr yn ymdrin â phob achos sy'n ymwneud â thraffig ffordd lle y cafwyd marwolaeth a chaiff yr achosion eu trosglwyddo i'r CCP. Mae protocol yn cael ei ddatblygu gyda'r heddlu yngl_n â'r dull o ymdrin â'r achosion hyn a'r ffaith bod angen cadw cysylltiad gyda theuluoedd y sawl a fu farw.

4.29 Archwiliwyd pump achos gennym a oedd yn ymwneud â throseddau ar y stryd (lladrata). Ymdriniwyd â phob un yn dda iawn.

**Cryfderau**

* Y dull o ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â thrais yn y cartref a throseddau casineb a dull rhagweithiol yr hyrwyddwyr Ardal.

**Achosion yn ymwneud â phobl ifanc (CAP13)**

4.30 Mae arbenigwyr pobl ifanc yn adolygu ac yn ymdrin â phob ffeil sy'n ymwneud â phobl ifanc. Mae ansawdd da eu dull o wneud penderfyniadau a'u harbenigedd yn y maes hwn o'r gyfraith yn amlwg o'r ffeiliau, gan gynnwys yr arnodi a geir yn y llys a sylwadau eraill.

4.31 Mae cydberthnasau gyda Thimau Troseddwyr Ifanc yn dda iawn ac o ganlyniad gellir datblygu achosion a chytuno ar benderfyniadau yngl_n â dargyfeirio.

4.32 Weithiau caiff asiantau eu defnyddio yn y Llysoedd Ieuenctid yn enwedig mewn treialon. Mae'n bwysig bod yr Ardal yn sicrhau bod ganddynt ddigon o arbenigedd mewn darpariaethau cyfreithiol ar gyfer pobl ifanc a'u bod yn gyfarwydd â'r prosesau ar gyfer yr achosion hyn.

**Ymdrin â ffeiliau/negeseuon (CAP9)**

4.33 Mae'r Ardal wedi datblygu rhai systemau i gynnal dull effeithlon o ymdrin â ffeiliau a'u trefnu. Mae cyd-leoli staff yr Ardal a staff yr heddlu yn y ddwy swyddfa yn cynorthwyo'r broses hon. Fodd bynnag, ceir oedi o hyd o fewn y ddwy swyddfa o ganlyniad i nifer o ffactorau yn cynnwys prinder staff wrth gefn i weithio yn lle staff gweinyddol sy'n absennol. Ar hyn o bryd, mae'r Ardal yn cynnal adolygiad o brosesau busnes, a ddylai ffurfioli, safoni a gwella effeithiolrwydd systemau.

4.34 Ni chafwyd achosion o oedi amlwg wrth gysylltu'r post i ffeiliau ond nid oedd y post yn cael ei ateb yn brydlon. Gellid priodoli hyn i'r amser prin y mae erlynwyr a gweithwyr achos yn ei dreulio yn y swyddfa ac mae angen mynd i'r afael â hyn fel rhan o'r craffu a awgrymwyd ym mharagraff 13.12.

### Terfynau amser yn y ddalfa (CAP10)

4.35 Archwiliwyd deg o ffeiliau gennym o'r llysoedd ynadon a Llys y Goron, i gadarnhau a oeddent yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r terfynau amser yn y ddalfa (CTL). Cyfrifwyd yr holl ddyddiadau dod i ben yn gywir o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 91.4%. Fodd bynnag, cafodd yr Ardal un methiant o ran y terfynau amser yn y ddalfa o fewn y 12 mis diwethaf.

4.36 Caiff y ffeiliau eu nodi'n briodol, ond cafwyd anghysondeb ar draws yr Ardal o ran sut y cafodd y ffeiliau eu marcio yn cynnwys rhai dyddiadau aneglur ac amwys. Caiff cyfrifydd parod ei ddefnyddio'n briodol ac mae systemau monitro dyblyg ar waith, Roedd y rhain wedi'u diweddaru ac roeddent hefyd yn sicrhau bod dyddiadau dod i ben yn cael eu hadolygu'n amserol. Roedd rhai gwiriadau rheoli hefyd ar waith, ond ni chawsant eu harnodi bob amser ar y ffeil ac nid oeddent yn amserol. Roedd y gweithdrefnau ym mhob uned yn foddhaol ar y cyfan ond cafwyd rhai amrywiaethau. Mae angen i reolwyr ystyried cysondeb systemau ar draws yr Ardal.

4.37 Roedd yr arnodiadau ar y sampl ffeiliau o ansawdd da ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd cyfreithwyr bob amser yn cytuno ar y dyddiadau CTL yn y llys. Mae'r Ardal yn cytuno bod angen iddi wella yn hyn o beth. Er mwyn hwyluso hyn, mae protocol ar waith gyda'r llys ynadon, yr heddlu a'r Gwasanaethau Llys am weithdrefnau ar gyfer CTL.

4.38 Yn ddiweddar, cyflawnodd yr holl staff hyfforddiant CTL, a bwriedir dosbarthu cyfarwyddiadau i fodloni'r Camau Hanfodol ar Systemau Terfyn Amser yn y Ddalfa a hefyd y Canllaw Arfer Da a argymhellir, a ddylai sicrhau systemau cyson ar draws yr Ardal.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Sicrhau cysondeb a gwella arferion wth ddelio ag achosion CTL.

### Gweithredu ar y cyd i wella gwaith achos (CAP11)

4.39 Mae'r Ardal yn defnyddio'r system Monitro Perfformiad ar y Cyd (JPM) i fonitro ansawdd ac amseroldeb ffeiliau a dderbynnir gan yr heddlu o hyd. Dylid monitro'r holl ffeiliau llawn gyda chofnodi eithriadol ar ffeiliau eraill. Fodd bynnag, mae'r system wedi dirywio ac mae'r rhan fwyaf yn ystyried bod y ffigurau a gynhyrchir yn annibynadwy. Ni chaiff y ffigurau hyn eu dadansoddi'n llawn. Gwelsom sampl o ffurflenni TQ1 (lle y mae cyfreithwyr yn rhoi sylwadau ar ansawdd y ffeiliau) ac roedd llawer yn annefnyddiol ac nid oedd eraill wedi'u cwblhau o gwbl.

4.40 Mae'r Ardal a'r heddlu yn derbyn bod yn rhaid gwella systemau er mwyn gwella ansawdd ffeiliau a sicrhau y gall pob asiantaeth gyflawni gwelliannau. Mae system ategol yn cael ei threialu sy'n rhoi mwy o fanylion a gall dargedu perfformiad unigol yr heddlu. Bydd yr Ardal yn canolbwyntio ar y ffeiliau cyngor cyn-cyhuddo ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau. Mae angen gwella ansawdd ac amseroldeb ffeiliau ar draws yr Ardal ac yn arbennig yn Rhanbarth y Gorllewin.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Y systemau ar gyfer gwella ansawdd ac amseroldeb ffeiliau, yn enwedig yn Rhanbarth y Gorllewin.

**Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Thimau Troseddwyr Ifanc (CAP12)**

4.41 Yn yr achosion llysoedd ynadon a archwiliwyd gennym, darparwyd pedwar allan o chwe phecyn gwybodaeth i'r Gwasanaeth Prawf neu'r Timau Troseddwyr Ifanc er mewn saith achos arall ni chafwyd cofnod. Yn Llys y Goron darparwyd 24 allan o 26 o becynnau gwybodaeth ond mewn tri achos arall ni chafwyd cofnod.

4.42 Ceir trefniadau gwahanol ar gyfer darparu gwybodaeth yn dibynnu ar ddaearyddiaeth yr ardal a nifer y llysoedd. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau yn effeithiol ac yn amserol. Ceir cynlluniau i ddarparu gwybodaeth drwy e-bost diogel yn y dyfodol.

**Prosesau apelio a thraddodi i ddedfryd (CAP14)**

4.43 Yn y gorffennol, cafodd yr achosion hyn eu herlyn gan Eiriolwyr Llysoedd Uwch yr Ardal (HCA): ni pharatowyd cyfarwyddiadau. Yn fwy diweddar, mae'r cwnsler fel arfer wedi cael eu cyfarwyddo ac mae'r gweithwyr achos yn paratoi'r achosion. Mae'r Ardal bellach yn hyfforddi staff A2 i wneud y gwaith hwn.

**Apeliadau yn erbyn dedfrydau trugarog diangen (CAP15)**

4.44 Mae uwch reolwyr yn delio â'r apeliadau hyn. Dywedwyd wrthym yr ymdrinnir â hwy yn effeithlon iawn a bod yr Ardal yn rhagweld ceisiadau am wybodaeth a allai fod ym meddiant Pencadlys y CPS .

4.45 Nid oes gan yr Ardal system ar gyfer hysbysu'r dioddefwr neu deulu'r dioddefwr o'r hawl i gysylltu â'r Twrnai Cyffredinol yn uniongyrchol os bydd yr Ardal yn penderfynu peidio â chyfeirio yn yr achosion hynny lle y mae parti sydd â diddordeb wedi ceisio cyfeiriad. Mae'r Ganolfan Gwybodaeth i Ddioddefwyr (VIB) yn ysgrifennu i hysbysu'r dioddefwr neu'r teulu o'r hyn sydd wedi digwydd yn yr achos a dylid ychwanegu'r wybodaeth hon.

**Cofnodi canlyniadau achos (CAP16)**

4.46 Mae gan yr Ardal darged o 24 awr i derfynu achosion ac ni chafwyd unrhyw ôl-groniadau ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, nid oes gan Reolwyr hyder yng nghywirdeb y Dangosyddion Perfformiad. Gellid priodoli hyn yn rhannol i allu'r System Rheoli Gwaith Achos i ddelio â strwythur anarferol yr Ardal lle y caiff y rhan fwyaf o achosion treial y llysoedd ynadon eu trosglwyddo i'r TU. Mae'r ffactorau eraill yn cynnwys gwallau gan ddefnyddwyr ac arnodiadau ffeil nad ydynt yn ddigon clir, sy'n arwain at or-ddefnyddio'r categori 'arall' ar gyfer achosion aflwyddiannus. Mae Dangosyddion Perfformiad cywir yn hanfodol i reolwyr yr Ardal ac i gyllid yr Ardal.

4.47 Cafwyd rhai problemau cychwynnol ar ôl cyflwyno system lle y caiff ffeiliau'r llysoedd ynadon sydd wedi'u terfynu eu storio'n electronig a'u sganio gan yr heddlu. Roedd data annigonol yn cael ei gopïo, yn cynnwys rhai cofnodion Ardal. Ar ôl trafod, mae'r mater wedi cael ei ddatrys.

| |
|---|
| **ARGYMHELLIAD** |
| **Dylai'r CCP a'r ABM sicrhau cywirdeb y dangosyddion perfformiad.** |

**Gwybodaeth ar faterion gweithredol a chyfreithiol (CAP17)**

4.48 Ni cheir bwletin cyfreithiol lleol rheolaidd. Mae arbenigwyr ar bynciau arbennig weithiau'n dod ag achosion at ei gilydd ac yn cyhoeddi arweiniad ond mae hyn yn tueddu i fod o fewn yr unedau yn hytrach na systemau ar draws yr Ardal. Gellid gwneud mwy o ddefnydd o Gylchlythyr yr Ardal drwy gynnwys materion sydd o ddiddordeb cyfreithiol er mwyn ategu gwybodaeth a dderbyniwyd gan Bencadlys y CPS.

**Parodrwydd ar gyfer y llys (CAP18)**

4.49 Mae ffeiliau sy'n mynd ar goll yn y llys yn broblem, er i ni dderbyn tystiolaeth wrthgyferbyniol yngl_n â graddfa'r broblem. Caiff rhai o'r ffeiliau hyn eu trefnu ar gyfer y gwrandawiad cyntaf ac mae eraill wedi bod yn y llys o'r blaen. Mae'r Arolygydd yn y CJU bellach yn ymchwilio i raddfa ac achos y broblem. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r mater o beidio â derbyn ffeiliau gan yr heddlu a gwaith staff yr heddlu yn y CJU. Gall ffeil fod ar goll hefyd o fewn swyddfeydd y CPS. Mae'n bwysig felly bod yr heddlu a rheolwyr y CPS yn ymchwilio i'r materion ac yn dod o hyd i ddatrysiadau ar y cyd.

4.50 Yn gyffredinol, caiff ffeiliau eu cyflwyno i asiantau yn brydlon er mwyn iddynt allu paratoi ar gyfer y llys. Gall daearyddiaeth yr ardal a nifer y llysoedd anghysbell, ynghyd â'r amser y mae erlynwyr yn ei dreulio yn y llys yn hytrach nag yn y swyddfa, olygu y gall cyflwyno ffeiliau a'u dychwelyd o'r llys achosi oedi.

4.51 Mae'r TU yn delio â threialon y llysoedd ynadon yn ogystal â gwaith arferol Llys y Goron. Unwaith y caiff ple dieuog ei nodi, caiff y ffeil ei throsglwyddo i'r TU. Mae cyfreithwyr CJU yn delio â gwaith pellach sydd ei angen cyn cymryd y ble. Nid oeddem yn fodlon bod yr achosion hyn yn cael eu dyrannu'n glir a phrin yw'r amser sydd gan gyfreithwyr CJU yn y swyddfa i gyflawni'r camau sydd eu hangen. O ganlyniad, gall achosion gael eu rhestru ar gyfer y gwrandawiad nesaf heb fod y gwaith angenrheidiol wedi'i wneud a gallant gael eu gohirio ymhellach. Bydd hyn yn un o'r ffactorau i'w hystyried yn y broses graffu a argymhellwyd gennym ym mharagraff 13.12.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Mae angen i'r Ardal a'r heddlu ymchwilio ar y cyd i raddfa ac achos ffeiliau sy'n mynd ar goll yn y llys.

**Pwyntiau dysgu (CAP21)**

4.52 Yn ein hadroddiad diwethaf, gwnaethom argymhelliad ar gyfer gwella'r prosesau dysgu. Mae Penaethiaid Uned yn darparu crynodeb misol o achosion gwrthwynebus i'r CCP (dim achos i'w gyflwyno yn y llysoedd ynadon, rhyddfarnau a gyfarwyddwyd ac a orchmynnwyd gan farnwr). Dengys y rhain fod achosion yn cael eu dadansoddi a bod gwersi yn cael eu nodi. Nododd y CCP y tueddiadau ac anfonir dadansoddiad i Uned Gweinyddu Cyfiawnder yr heddlu.

4.53 Derbyniasom wybodaeth amrywiol yngl_n â chysylltiad cyfreithwyr a gweithwyr achos â'r gwaith o ddadansoddi'r achosion hyn. Disgrifiodd rhai gysylltiad llawn a gwelsom ychydig o adroddiadau a gadarnhaodd hyn. Dywedodd cyfreithwyr eraill wrthym nad oedd ganddynt unrhyw fewnbwn.

4.54 Gallai'r system ar gyfer dysgu gwersi fod yn well. Nid ymddengys fod yr adroddiadau yn cael eu dosbarthu o fewn Rhanbarthau'r heddlu. Er bod yr adroddiadau ar gael i'r holl staff sy'n gweithio ymhlith y cyhoedd, nid oedd llawer yn ymwybodol o hyn. Caiff achosion sydd wedi methu eu trafod weithiau mewn cyfarfodydd tîm ond yn y gorffennol prin oedd yr enghreifftiau o hyn.

## 5 EIRIOLAETH AC ANSAWDD Y BROSES O DDARPARU GWASANAETHAU

### Safonau eiriolaeth a monitro (CAP19)

5.1 Mae ansawdd cyffredinol eiriolaeth yn dda. Arsylwyd 18 o gyfreithwyr a gweithwyr achos dynodedig (DCW) y CPS gennym a naw eiriolwr allanol a oedd yn erlyn yn y llysoedd lleol. Cafwyd perfformiad galluog gan bob un o erlynwyr y CPS heblaw am un ym mhob agwedd ac roedd naw yn well na'r cyffredin neu wedi creu argraff dda. O'r naw asiant a'r cwnsler, roedd tri yn gwbl alluog a chafwyd perfformiad da gan bedwar, ond gallai dau fod wedi gwneud yn well.

5.2 Cadarnhaodd cynrychiolwyr lleol o asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill fod safon gyffredinol eiriolaeth yn gadarn. Mae gan yr Ardal gyfran uwch na'r cyfartaledd o erlynwyr hirsefydlog. Yn ogystal, mae gan y rhai a gafodd eu recriwtio yn fwy diweddar brofiad helaeth o eiriolaeth mewn cymwysterau eraill ac maent wedi elwa ar hyfforddiant sefydlu CPS. Rydym hefyd wedi cael adborth cadarnhaol am, berfformiad DCW yr Ardal. Cadarnhawyd yr argraff ffafriol honno gan ein harsylwadau yn y llys.

5.3 Rhoddir pecyn sefydlu i asiantau newydd ynghyd â hyfforddiant sefydlu i fargyfreithwyr sydd am gael eu cyfarwyddo gan y CPS. Mae perfformiad asiantau a gaiff eu cyfarwyddo i erlyn yn y llysoedd ynadon yn foddhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r defnydd o asiantau wedi cynyddu o ganlyniad i'r angen i leoli erlynwyr profiadol mewn gorsafoedd cyhuddo, a'i gwnaeth yn fwy anodd i sicrhau ansawdd. Ar adegau, nid oedd asiantau unigol yn ddigon profiadol neu nid oeddent wedi paratoi'n ddigonol, ac o ganlyniad, roedd defnyddwyr eraill y llys yn dueddol o fod yn negyddol eu barn ynghylch yr erlyniad.

5.4 Mater ychwanegol fu'r anhawster a gafodd y CPS i leoli erlynwyr a oedd yn siarad Cymraeg mewn llysoedd lle yr oedd hawl gan y diffynnydd i gael y gweithrediadau wedi'u cynnal yn y Gymraeg. Gall hyn olygu na all diffynyddion fynnu eu hawliau statudol, perir trafferth i'r llys neu mae'r erlynydd o dan anfantais oherwydd na all ddeall popeth sy'n cael ei ddweud. Mae gan yr Ardal nifer o erlynwyr sy'n siarad Cymraeg a dylid cynyddu'r defnydd o'r rhain yn y llys.

5.5 Mae'r Ardal yn bwriadu cyflwyno dull ffurfiol strwythuredig o fonitro erlynwyr mewnol gan gymhwyso amrywiaeth ar fodel a oedd yn llwyddiannus mewn Ardal CPS arall. Ni chafwyd dull ffurfiol o fonitro eiriolaeth fewnol yn ystod y 12 mis cyn ein hymweliad ar wahân i ddull monitro newydd ddyfodiaid. Ni chyflwynwyd dull strwythuredig o fonitro asiantau llysoedd ynadon eto, fel yr awgrymwyd yn ein hadroddiad blaenorol ac mae'r broses o fonitro cwnsler yr erlyniad yn Llys y Goron wedi canolbwyntio ar fathau arbenigol o achosion, fel trais rhywiol a cham-drin plant. O ystyried nifer yr asiantau a gyfarwyddir i erlyn yn y llysoedd ynadon, dylid cynnwys y rhain yn system fonitro'r Ardal.

5.6 Mae'r broses o leoli HCA yn Llys y Goron wedi lleihau o ganlyniad i'w cysylltiad â gweithgareddau yn y llysoedd ynadon a gweithredu mentrau newydd, er enghraifft darparu cyngor cyn-cyhuddo. Bydd rheolwyr ardal yn dymuno datblygu strategaeth ar gyfer ailsefydlu eu presenoldeb yn Llys y Goron cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Dull ffurfiol o fonitro eiriolaeth.

**Arnodiadau llys (CAP20)**

5.7 Dangosodd ein harchwiliad o'r ffeiliau fod y broses o arnodi yn y llys yn dda. Dim ond un o'r 30 o ffeiliau llysoedd ynadon ac un o'r 29 o ffeiliau Llys y Goron oedd yn ddiffygiol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o lawysgrifen yn anodd iawn i'w ddarllen. Mae hunanasesiad mwy diweddar wedi nodi rhai diffygion sy'n ymddangos dro ar ôl tro, yn cynnwys methiant i gofnodi enw'r erlynydd a pheidio â darparu gwybodaeth gyflawn am statws mechnïaeth diffynyddion. Mae'r Ardal yn mynd i'r afael â hyn gyda'r unigolion dan sylw.

**Paratoi ar gyfer y llys (QSD1)**

5.8 Ceisir sicrhau dilyniant o ran yr achosion llys lle y bo'n bosibl, fel bod erlynwyr yn delio â rhai achosion y maent yn gyfarwydd â hwy, gan eu bod eisoes wedi eu paratoi ar gyfer gwrandawiadau cynharach.

5.9 Gall teithio pellteroedd, eisteddiadau hwyr yn y llys ac ymrwymiadau i'r fenter gyhuddo gyfyngu ar yr amser sydd gan erlynwyr i baratoi ar gyfer y llys. Gwelsom effaith hyn yn ystod ein harsylwadau yn y llys gydag erlynwyr yn cyfeirio at eu ffeiliau mewn ymateb i geisiadau am y math o wybodaeth a ddylai fod wedi bod ar flaenau'u bysedd. Ar y llaw arall, mae nifer y treialon sy'n chwalu a'r treialon aneffeithiol yn parhau i fod yn uwch na nifer y treialon effeithiol, felly mae'r llysoedd yn aml yn gorffen yn gynnar gan ryddhau eiriolwyr.

5.10 Fel yr ydym wedi amlygu'n barod, nid yw gweithdrefnau olrhain achosion bob amser yn effeithiol wrth sicrhau bod ffeiliau erlyn ar gael yn y llys pan fydd eu hangen. Mae hyn yn golygu na ellir datblygu'r achosion hynny. Am yr un rheswm, nid yw ffeiliau bob amser ar gael ar yr adeg y bydd erlynwyr yn gwneud y gwaith paratoi, ac mae hyn yn achosi oedi yn y llys wrth iddynt geisio ymgyfarwyddo â hwy yn ystod y gweithrediadau.

5.11 Rydym hefyd wedi crybwyll y ffaith na ddefnyddir y cynllun cyngor cyn-cyhuddo. Weithiau bydd swyddogion yr heddlu yn nodi'n optimistaidd bod angen i droseddau a wadir gael eu cyfaddef. Mae hyn yn golygu y caiff achosion eu rhestru i gychwyn yn y Gwrandawiadau Cyntaf Cynnar (EFH) a gwmpesir gan DCW ac yna (pan sylweddolir y ffaith eu bod yn cael eu hymladd) eu trosglwyddo i Wrandawiadau Gweinyddol Cynnar (EAH) a erlynir gan gyfreithwyr. Mae hwn yn ffactor arall sy'n cyfyngu ar y cyfle i sicrhau gwaith paratoi digonol.

**Presenoldeb yn y Llys (QSD2)**

5.12 Mae erlynwyr fel arfer yn mynychu'r llys yn ddigon cynnar i allu datrys materion gyda chyfreithwyr yr amddiffyniad ac ymgynghorwyr cyfreithiol y llys cyn i'r gweithrediadau ddechrau a gwelsom enghreifftiau da o hyn yn ystod ein harsylwadau yn y llys.

5.13 Yn Llys y Goron, mae gweithwyr achos yn darparu lefelau da o gymorth i'r cwnsler sy'n erlyn. Mae gweithwyr achos unigol yn gyfrifol am dreialon penodol ac yn darparu dilyniant drwy eu holrhain hyd at eu casgliad.

**Ystafelloedd (QSD4)**

5.14 Mae'r cyfleusterau sydd ar gael at ddefnydd y CPS yn ddigonol yn y canolfannau llys mwy modern. Ceir rhai problemau yn y canolfannau llys bach h_n, lle mae'r ystafelloedd sydd ar gael i holl ddefnyddwyr y llys, yn gyffredinol, yn gyfyngedig. O fewn llawer o'r rhain, nid oes gan y CPS ystafell ddynodedig. Er bod y llysoedd yn ddigon parod i ganiatáu i'r erlynwyr ddefnyddio eu cyfleusterau, gall materion godi yngl_n â diogelwch yn enwedig wrth ddefnyddio ffonau.

## 6 DIODDEFWYR A THYSTION

### Tystion yn y llys (QSD3)

6.1 Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan erlynwyr i ddioddefwyr a thystion sy'n mynychu'r llys, o ran egluro materion a darparu cymorth yn dda ar y cyfan. Mae ansawdd y broses o ymgynghori â dioddefwyr yngl_n â gwneud penderfyniadau yn y llys, i sicrhau bod ganddynt fewnbwn priodol a'u bod yn deall y canlyniad, yn llai cyson.

6.2 Mae cydberthnasau gyda chynrychiolwyr Gwasanaeth y Tystion wedi'u datblygu'n dda a cheir ymagwedd bartneriaeth effeithiol tuag at ddiwallu anghenion tystion sy'n mynychu'r llys. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o ddyblygu ymdrech a byddai'r ddau barti yn elwa ar arweiniad pellach yn egluro eu priod rolau.

6.3 Mae'r Ardal yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i dreialu'r prosiect gofal cenedlaethol i ddioddefwyr a thystion, 'Dim Tystion Dim Cyfiawnder'. Mae Uned Cyswllt Tystion yn darparu un pwynt cyswllt ac yn asesu anghenion dioddefwyr a thystion. Mae timau'n gweithio'n ddaearyddol a chânt eu staffio ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS.

6.4 Mae hyn wedi arwain at welliannau amlwg yn lefel y wybodaeth sydd ar gael am dystion a'r gwasanaeth a ddarperir iddynt yn gyffredinol. Fe'u hysbysir yn rheolaidd am statws eu hachos a'r canlyniad. Caiff anghenion tystion unigol eu hasesu fel y gellir darparu cyngor a chymorth addas iddynt os oes angen iddynt fynychu'r llys am dreial.

6.5 Mae gwerthusiad diweddar o'r fenter wedi amlygu'r ffaith bod angen gwneud gwaith pellach i gyflawni'r isafswm safonau sy'n ddisgwyliedig o'r cynllun yn gyson. Caiff y dull o reoli'r uned ei adolygu i sicrhau ei fod yn hunangynhaliol a bwriedir cychwyn dull o fapio prosesau er mwyn nodi bylchau yn y gwasanaeth ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn ddiangen. Mae'r gwaith a gynigir hefyd yn cynnwys gwella ansawdd y wybodaeth a ddarperir i ddechrau gan yr heddlu, sy'n hanfodol i lwyddiant cyffredinol y cynllun. Dylai hyn gynnwys darparu datganiadau personol dioddefwyr mewn achosion perthnasol. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn brin iawn. Caiff ymwybyddiaeth staff ei datblygu ymhellach a chaiff sgiliau cyfathrebu eu gwella.

6.6 Mae perfformiad wrth geisio mesurau arbennig mewn achosion priodol ar gyfer tystion diamddiffyn yn foddhaol ar y cyfan, er na chaiff pob achos amodol eu nodi. Yn ogystal, nid yw'r heddlu a'r CPS bob amser yn nodi natur ddiamddiffyn rhai tystion yn llawn yn ystod y broses asesu anghenion.

6.7 O'n harchwiliadau o'r ffeiliau canfuom fod trefniadau cyflwyno tystion yn raddol wedi'u gwneud mewn chwech allan o ddeg achos perthnasol. Felly ceir mwy o gyfle i gyflwyno tystion yn raddol mewn treialon yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron fel nad oes yn rhaid i dystion aros yn ddiangen am gyfnodau hir.

**Cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr (CAP13)**

6.8 Cafodd gweithwyr achos eu lleoli yn y Ganolfan Gwybodaeth i Ddioddefwyr (VIB) ar sail eu gallu profedig i ymgynghori â dioddefwyr ac egluro penderfyniadau i ddioddefwyr sy'n mynychu'r llys. Rhoddwyd hyfforddiant penodol mewn Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) hefyd. Rhagwelir y caiff y VIB ei hymgorffori'n fuan o fewn yr Uned Cyswllt Tystion fel rhan o 'Dim Tystion Dim Cyfiawnder', yn dilyn yr adolygiad a ddisgrifiwyd uchod. Bydd hyn yn darparu un ffynhonnell wybodaeth i ddioddefwyr a thystion.

6.9 Caiff pob llythyr ei drafftio i ddechrau gan y VIB ac yna eu trosglwyddo i gyfreithwyr eu gwirio a'u llofnodi. Mae ansawdd cyffredinol llythyrau DCV i ddioddefwyr yn dda, yn enwedig o ran yr esboniadau testun rhydd a roddir. Fodd bynnag, mae rhai yn cynnwys paragraffau safonol diangen ac roedd un a welsom yn cynnwys paragraff a oedd yn amhriodol i amgylchiadau'r achos. Mae'r Ardal yn mynd y tu hwnt i lefel y gwasanaeth a ddarperir yn gyffredinol o fewn y CPS drwy ysgrifennu i esbonio penderfyniadau a gymerwyd i beidio ag erlyn ar y cam cyngor cyn-cyhuddo. Ystyriwn fod hyn yn **arfer da**. Darperir manylion cyfeirio hefyd i asiantaethau cymorth sy'n gallu darparu cymorth a gwybodaeth bellach.

6.10 Cafwyd gostyngiad mewn perfformiad o ran nodi achosion amodol a sicrhau y caiff llythyron eu hanfon o fewn pum diwrnod i wneud y penderfyniad. Arddangoswyd posteri atgoffa i sicrhau nad yw achosion yn mynd ar goll yn y system.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Gweithredu isafswm safonau y prosiect Dim Tystion Dim Cyfiawnder.

* Amseroldeb llythyrau i ddioddefwyr o dan y cynllun DCV.

**Cyfarfodydd gyda dioddefwyr a pherthnasau dioddefwyr (DCV5)**

6.11 Cynigir cyfarfodydd personol gyda'r CCP i ddioddefwyr a'u teuluoedd mewn achosion priodol. Ni fu unrhyw broblemau wrth nodi lleoliadau addas ar gyfer cyfarfodydd o'r fath ac fe'u cynhaliwyd mewn lleoliadau gwahanol. Yn arbennig, nid oes gan swyddfa Bae Colwyn gyfleuster dynodedig, ond mae ystafell wedi cael ei nodi ac yn cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd.

**Siarter y Dioddefwyr (CR2)**

6.12 Dylai erlynwyr a gweithwyr achos wneud pob ymdrech i ymgynghori â dioddefwyr cyn gwneud penderfyniadau. Rydym eisoes wedi crybwyll bod ansawdd y gwaith ymgynghori â dioddefwyr yn y llys yn anghyson. Dywedwyd wrthym am achosion lle y cafwyd ymgynghori cynhwysol effeithiol cyn y gwnaed penderfyniadau i leihau neu i ollwng cyhuddiadau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion eraill, gwnaed penderfyniadau heb fewnbwn gan y dioddefwr a chawsant eu hegluro ar ôl i'r penderfyniad gael ei roi ar waith.

6.13 Yn gyffredinol, mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir i Wasanaeth y Tystion am dystion a fydd yn mynychu treialon yn foddhaol ond gall y rhestrau a ddarperir gan y CPS yn llysoedd ynadon Llangefni fod yn anghywir neu'n anghyflawn.

6.14 Ceir cyfle i'r CPS fod yn fwy rhagweithiol hefyd drwy geisio mwy o drefniadau rhestru 'sy'n ystyriol o dystion' yn ei drafodaethau gyda'r llysoedd ynadon. Cafodd amseroedd aros eu hymestyn gan nifer y treialon sy'n cael eu rhestru gan y llys a'r ffaith bod y CPS yn ei gwneud yn ofynnol i bob tyst fynychu cyn i sesiwn y llys ddechrau, er na fydd eu treial yn dechrau am gryn amser.

## 7 RHEOLI PERFFORMIAD

### Safonau perfformiad (PM1) a monitro perfformiad (PM2)

7.1 Ni chafwyd system rheoli perfformiad ffurfiol yng Ngogledd Cymru ar adeg yr arolygiad, er bod rheolwyr wrthi'n adolygu'r sefyllfa. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y canlyniadau perfformiad cadarn yn yr Ardal fel a amlinellwyd ym Mhennod 3.

7.2 Mae rheolwyr ardal yn cwblhau'r gwiriadau Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos (CQA) y cytunir arnynt yn genedlaethol. Ystyriwn fod cyfle i dargedu ffeiliau a ddewisir ar gyfer monitro yn well – dim ond 11 o achosion Llys y Goron a archwiliwyd yn y cyfnod Ionawr – Mai 2004. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r canfyddiad cyffredin bod gwaith achos yn Llys y Goron yn dioddef o ganlyniad i strwythur y gwaith diannod a gyflawnir gan erlynwyr a'r cynnydd yn y gwaith hwn. Roedd canfyddiadau'r Ardal o ran dadlennu yn well o lawer na'r canfyddiadau o'r sampl ffeiliau, ac mae angen i reolwyr roi sylw i asesiadau CQA.

7.3 Mae dull 'samplo dethol' fel rhan o'r ymarfer Tystysgrif Sicrwydd lleol yn ategu'r gwaith monitro CQA, er, unwaith eto, roedd swm y gwaith achos yn Llys y Goron yn gyfyngedig eleni. Yn ddiweddar, dechreuwyd ar rywfaint o waith monitro ychwanegol wedi'i dargedu mewn cysylltiad â ffeiliau cyngor.

7.4 Ar y cyfan, prin oedd dealltwriaeth y rheolwyr a'r staff o berfformiad yn gyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â chyfraniad yr Ardal at gyflawni rhai o'r amcanion rhyng-asiantaeth a'r elfennau ysgogi sy'n effeithio ar gyflawni targedau. Caiff hyn ei achosi yn bennaf gan:

* absenoldeb y broses o ddadansoddi gwybodaeth perfformiad;

* diffyg targedau lleol priodol a mesurau llwyddiant, yn enwedig mewn perthynas â mentrau/cynlluniau peilot pwysig;

* cyfathrebu ac adborth gwael; a

* diffyg hyder yng nghywirdeb rhywfaint o ddata perfformiad a data Dangosyddion Perfformiad.

7.5 Cydnabuwyd yr angen i wella gan y Bwrdd Strategol Ardal (ASB) a fydd yn neilltuo mwy o amser i reoli perfformiad. Mae wrthi'n atgyfnerthu'r gyfundrefn rheoli perfformiad. Mae hyn yn gam cadarnhaol, ond, ar ei ben ei hun, nid yw'n mynd i'r afael â'n pryder yn llawn, yn enwedig mewn perthynas â dadansoddi gwybodaeth.

7.6 Mae'n bwysig bod yr Ardal yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran ei hymagwedd at reoli perfformiad, gan ystyried ei lefelau cyrhaeddiad a'i chryfderau. Mae angen iddynt sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y mesurau cywir ar gyfer Gogledd Cymru, a gaiff eu cofnodi'n gywir a'u dadansoddi'n briodol. Mae angen iddynt hefyd wella'r llifau gwybodaeth i'r staff. Er ein bod yn cydnabod bod ymdrechion yn cael eu gwneud i wella'r sefyllfa bresennol ni allwn sicrhau ein hunain y bydd y camau arfaethedig yn gwbl effeithiol.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Y broses o gasglu a dadansoddi gwybodaeth perfformiad sydd â chanolbwynt priodol a gaiff ei defnyddio i lywio gwelliannau lle y bo angen.

**Rheoli perfformiad ar y cyd (PM3)**

7.7 Trafodwn ddulliau monitro perfformiad ar y cyd ym mharagraffau 4.38 – 4.39.

7.8 Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd gydag uwcharolygydd yr heddlu lle y trafodwyd rhai agweddau ar berfformiad. Roedd y CPS yn ansicr o ran sut y caiff gwybodaeth o gyfarfodydd o'r fath ei rhannu o fewn yr heddlu a phrin yw'r cysylltu uniongyrchol a geir gyda Rhanbarthau.

7.9 Er mai prin yw cysylltiad staff y CPS, mae'r heddlu yn cymryd camau cadarnhaol i geisio monitro a gwella'r ansawdd fel y bernir gan archwilwyr ffeiliau. Caiff gwybodaeth (gan swyddogion) ei throsglwyddo i ranbarthau i nodi agweddau posibl ar gyfer gwelliant. Datblygwyd Cynllun Gweithredu Ansawdd Ffeiliau yn ddiweddar ac roedd gwaith y CPS yn hyn o beth yn canolbwyntio ar gyhuddo a chyfathrebu.

7.10 Cafwyd pryder nad oedd system gytûn ar waith ar gyfer rheoli perfformiad staff yr heddlu sy'n cyflawni swyddogaethau gweinyddol traddodiadol y CPS yn yr amgylchedd sydd wedi'i gyd-leoli. Mae arolygydd newydd yr heddlu wedi dechrau mynd i'r afael â hyn, ac fe'n calonogir bod cyfarfodydd rheoli ar y cyd â'r heddlu a staff y CPS yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.

7.11 Caiff cyfraddau treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol eu monitro o dan nawdd LCJB a'r swyddog perfformiad. Derbyniasom safbwyntiau amrywiol o ran p'un a oedd erlynwyr yn cytuno ar gwblhau'r ffurflenni cytûn yn y llys. Mae pryderon ynghylch gwallau posibl wedi arwain y CPS i fonitro'n annibynnol (am ddau fis) y rhesymau pam nad yw treialon yn mynd rhagddynt. Cynhelir dulliau cysoni i sicrhau data cenedlaethol.

**Rheoli risgiau (PM4)**

7.12 Fel gyda'r rhan fwyaf o Ardaloedd y CPS, mae'r gwaith rheoli risgiau yng Ngogledd Cymru yn datblygu o hyd. Roeddem yn falch o nodi bod y gofrestr risgiau wedi'i diweddaru'n ddiweddar ac mae bellach yn llawer mwy penodol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae'r Ardal hefyd wedi llunio cofnodion risg o'i heiddo fel rhan o'r cynllun peilot asesu BS7799.

7.13 Ystyriwn y byddai mwy o ddefnydd o dechnegau rheoli risgiau wedi bod o fudd i'r Ardal wrth iddi gynllunio ar gyfer gweithredu'r mentrau mawr.

**Gwelliant parhaus (PM5)**

7.14 Ni cheir cymhelliant gwirioneddol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus ymhlith llawer o'r staff. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod pobl yn dechrau blino ar gynlluniau peilot, ynghyd â'r canlyniadau gwaith achos cadarnhaol yn yr Ardal. Fodd bynnag, ceir arwyddion bod rhai staff profiadol yn ansicr o'r angen am fwy o newid neu welliant. Cynhaliwyd rhywfaint o waith hunanasesu cychwynnol gan ddefnyddio'r Model Rhagoriaeth Busnes yn yr Ysgrifenyddiaeth. Ni chafwyd llawer o gefnogaeth i'r cynigion i ehangu'r cynllun.

7.15 Mae gan yr Ardal Dîm Adolygu Prosesau Busnes (BPRT) gyda chynrychiolwyr o raddau a swyddfeydd amrywiol. Yn ddiweddar, cwblhaodd y gr_p brosiect sylweddol yn cynhyrchu mapiau proses a chyfarwyddiadau pen desg ar gyfer y prosesau allweddol yn cynnwys defnyddio CMS nad ydynt wedi'u gweithredu eto. Bwriad yr ASB yw defnyddio hyn fel cyfle i safoni gweithdrefnau ar draws yr unedau lle y bo'n ymarferol. Maent hefyd am ddefnyddio'r gr_p ar gyfer gwaith prosiect pellach yn y dyfodol, gan gydnabod gwerth adborth eang gan staff i newid.

**Bod yn atebol am berfformiad (PM6)**

7.16 Mae'r materion a amlygwyd uchod, yn eu hanfod, yn lleihau gallu'r Ardal i fod yn atebol am berfformiad. Mae'n hanfodol eu bod yn goresgyn y diffyg ymddiriedaeth gan staff yn eu dangosyddion perfformiad eu hunain (gweler yr argymhelliad ym mharagraff 4.46) ac mae'n bwysig bod y dadansoddiad o ddata perfformiad yn cael ei wella.

## 8 RHEOLI POBL A CHANLYNIADAU

### Cynllunio adnoddau dynol (P1)

8.1 Mae staffio yn eitem sefydlog ar agendâu ASB. Prin y ceir newidiadau ymhlith cyfreithwyr a gweithwyr achos sydd o fudd i'r Ardal. Ystyria staff fod y CPS yn gyflogwr da yn y farchnad gyflogaeth leol a phrin yw nifer y staff a fyddai wir yn ystyried symud. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad mewn boddhad ers arolwg staff 2002. Bu ymgyrchoedd recriwtio diweddar i gyfreithwyr yn llwyddiannus.

### Strwythur staff (P2)

8.2 Mae gan yr Ardal ddilema o ran y ffaith bod ganddi nifer sylweddol o staff profiadol iawn, ond nifer cymharol fach o waith achos difrifol. Mae hyn yn achosi rhwystredigaeth i rai aelodau o staff sydd o'r farn nad ydynt yn defnyddio eu sgiliau i'r eithaf. Cafodd hyn ei waethygu gan gynnydd sylweddol diweddar yn nifer yr achosion sy'n ymwneud â thraffig, er mai dim ond ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol y mae canran yr achosion hyn. Cafwyd safbwyntiau gwrthgyferbyniol ymhlith staff o ran p'un a oedd nifer y staff ym mhob uned yn briodol. Trafodwn strwythur ymhellach ym Mhennod 13.

8.3 Caiff erlynwyr eu lleoli'n helaeth mewn llysoedd ynadon a dim ond un diwrnod yr wythnos sydd gan y rhan fwyaf o gyfreithwyr a DCW yn y swyddfa. Roedd y defnydd o asiantau yn 2003-04 yn gymharol isel, sef 16.4% (29.9% oedd y cyfartaledd cenedlaethol) o sesiynau llysoedd ynadon, er bod hyn wedi codi mewn misoedd diweddar. Mae'r Ardal yn monitro nifer y sesiynau fesul person, ond nid yw wedi ystyried hyn mewn perthynas â baich gwaith unigolion.

8.4 Mae pwyntiau cadarnhaol a negyddol i'r penderfyniad i is-rannu timau sydd eisoes yn fach, ar sail diriogaethol. Maent wedi ffurfio rhai cyd-berthnasau a dealltwriaeth dda o achosion. Fodd bynnag, ar adegau, ceir ôl-groniadau a thagfeydd, yn enwedig ar adegau pan geir absenoldebau nad ydynt wedi'u cynllunio.

8.5 Mae daearyddiaeth yr Ardal yn achosi rhywfaint o gymhlethdodau, yn enwedig yn y gorllewin, lle y gall yr amser i deithio i'r llys ac o'r llys fod yn helaeth. Teimlodd rhai staff nad oedd rhestrau yn rhoi ystyriaeth briodol i hyn.

8.6 Mae'r ymrwymiad i waith achos diannod a'r fenter gyhuddo wedi cyfrannu at ostyngiad yn sylwebaeth yr HCA dros y chwe mis diwethaf (76 sesiwn yn 2003-04). Bydd gan yr Ardal chwe HCA cymwys yn fuan a phan fydd yn ymarferol bydd am weithio tuag at wella'r broses o'u lleoli yn Llys y Goron.

8.7 Mae gweithwyr achos yn ymdrin â swm sylweddol o waith paratoi achosion i gynorthwyo cyfreithwyr. Croesewir hyn ar yr amod bod cyfreithwyr yn parhau i gynnal rheolaeth gyffredinol o'r achos ac yn cyfarwyddo ac awdurdodi yn Llys y Goron.

### Datblygu staff (P3)

8.8 Ar y cyfan, mae angen gwella hyfforddiant ac mae'r swyddog hyfforddi wedi dechrau mynd i'r afael â rhai materion. Mae hyfforddiant wedi tueddu i ganolbwyntio ar yr hyfforddiant 'gorfodol' a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth neu newidiadau polisi yn hytrach nag ymgais ragweithiol i nodi a darparu ar gyfer anghenion unigolion. Roedd cofnodion hyfforddiant yr Ardal yn anghyflawn.

8.9 Mae'r Ardal yn tueddu i newid ei hymagwedd tuag at ddadansoddiad o gynlluniau datblygu personol (PDP) a blaengynlluniau swyddi (FJP) a ddefnyddir i nodi anghenion hyfforddi. Cofnododd yr arolwg staff ostyngiad o 31% ym moddhad staff o ran p'un a chawsant eu hannog i ddatblygu eu sgiliau. Mae llawer o staff felly yn croesawu'r ymagwedd newydd.

8.10 Mae'r swyddog hyfforddi yn gyfrifol am gynhyrchu pecyn sefydlu a chynllun hyfforddi – nid oedd y rhain wedi'u cwblhau ar adeg yr arolygiad.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Dylid datblygu cynllun hyfforddiant yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion a dylid cyflawni'r hyfforddiant a nodwyd.

**Adolygu perfformiad (P4)**

8.11 Mae gan yr Ardal enw da o ran amseroldeb y broses o gwblhau arfarniadau perfformiad. Roedd y safbwyntiau ar effeithiolrwydd y broses yn amrywio, a'r diffyg adborth ystyrlon oedd y pryder cyffredin. Mae'r rhan fwyaf o staff yn cael o leiaf un adolygiad y flwyddyn. Mae nifer o amcanion cyffredinol ar gyfer cyfreithwyr (y mae'r ASB yn cytuno arnynt) a ategir gan ambell safbwynt personol.

8.12 Roedd PDP a FJP penaethiaid uned a gweithwyr achos yn cael eu terfynu ar adeg yr arolygiad – mae'n bwysig cwblhau'r ymarfer hwn yn brydlon er mwyn llywio'r cynllun hyfforddi.

**Cysylltiad rheolwyr (P5)**

8.13 Bu cyfathrebu effeithiol yn wendid dros y flwyddyn ddiwethaf, a bu'r newidiadau i staff ar lefel uwch yn ffactor sylweddol a gyfrannodd at hyn. Mae rheolwyr yn cydnabod y bu anawsterau ac maent eisoes yn cynllunio ffyrdd i wella'r sefyllfa. Cyhoeddwyd strategaeth gyfathrebu a chafodd rhai agweddau eu gweithredu eisoes.

8.14 Mae Cyngor Whitley yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n ymgynghorol ac yn agored o ran y materion a gaiff eu trafod. Ceir eitemau sefydlog a phriodol ar yr agenda a chaiff materion a gaiff eu codi mewn unrhyw gyfarfod eu monitro hyd nes iddynt gael eu cwblhau.

8.15 Mae gan yr Ardal gylchlythyr rheolaidd ar gyfer ei staff. Mae wedi tueddu i ganolbwyntio mwy ar ddigwyddiadau a materion cymdeithasol yn y gorffennol. Rhoddwyd mwy o bwyslais busnes ar faterion mwy diweddar a gallai gynnwys mwy o wybodaeth am waith achos.

8.16 I oresgyn pryderon staff yngl_n â diffyg natur agored rheolwyr, rhoddwyd y cyfle i aelodau o staff fynychu cyfarfodydd ASB. Ar adeg yr arolygiad, mynegodd 18 aelod o staff ddiddordeb mewn mynychu, gan nodi lefel uchel o ymrwymiad. Mae'r CCP a'r ABM yn bwriadu cynnal sioeau teithio chwarterol ar draws yr Ardal.

8.17 Ni chynhaliwyd llawer o gyfarfodydd tîm yn 2003-04, ond mae hyn wedi gwella yn y flwyddyn ariannol newydd. Trefnir bod cyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal o fewn amser byr i gyfarfodydd ASB a drefnir ymhell o flaen llawn. Gan fod presenoldeb bob amser yn debygol o gael ei gyfyngu gan ymrwymiadau llys, bydd angen cymryd gofal i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r rhai nad ydynt yn bresennol mewn cyfarfodydd.

8.18 Daeth y Bwrdd Seinio i ben yn 2003 o ganlyniad i ddiffyg diddordeb. Cafwyd cynlluniau i ddefnyddio grwpiau ffocws yn ei le, i ddarparu dull o gyfathrebu. Ni chafwyd tystiolaeth o weithgaredd o'r fath.

8.19 Mae'r Ardal wedi ceisio defnyddio technoleg i wella cyfathrebu gyda llwyddiant cymysg. Mae rhai staff yn amharod i ddefnyddio'r gyriant a'r e-bost a rennir, tra bod eraill yn ansicr o ran lle i ddod o hyd i wybodaeth. Mae gan ddwy swyddfa'r CPS yriannau a rennir sydd ar wahân ac felly roeddent yn cynnwys gwybodaeth wahanol mewn lleoliadau gwahanol. Nid oedd pawb yn ymwybodol o hyn a bydd angen i reolwyr sicrhau mwy o reolaeth a chysondeb yngl_n â'r defnydd o'r gyriant a rennir.

8.20 Mynegodd llawer o staff bryder yngl_n â lefel yr ymgynghori, yn enwedig ar fentrau mawr. Ceir cyfleoedd i fwy o faterion gael eu dirprwyo, er y cydnabyddir mai prin fu'r amser a oedd gan lawer o erlynwyr yn y swyddfa. Mae'r Tîm Adolygu Prosesau Busnes (BPRT) yn enghraifft dda o gysylltiad staff a'r cyfle i fewnbynnu eu safbwyntiau a'u sgiliau i brosiect.

**ARGYMHELLIAD**

**Dylai'r ABM sicrhau bod y cynllun gweithredu cyfathreb yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i weithredu'n llawn.**

**Arfer cyflogi da (P6)**

8.21 Mae'r rhan fwyaf o staff yn fodlon iawn ar CPS Gogledd Cymru fel cyflogwr, er bod ganddynt nifer o bryderon yngl_n â sut y mae'r sefydliad wedi bod yn gweithredu dros y 18 mis diwethaf. Adlewyrchwyd hyn yn arolwg staff 2004 lle yr oedd y sgorau yn llai cadarnhaol mewn llawer o feysydd o gymharu â'r arolwg blaenorol a nodwyd nifer o agweddau i'w gwella. Roedd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn yn cael ei derfynu ar adeg yr arolygiad.

8.22 Mae'r Ardal yn gefnogol o arferion gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd, ac ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o geisiadau ar gyfer patrymau gwaith penodol er boddhad y staff dan sylw. Teimlodd canran fach o staff fod lle i wella wrth ddyrannu baich gwaith i roi ystyriaeth briodol i arferion gwaith unigolion. Er gwaethaf y ddadl yng Nghyngor Whitley, ceir tensiwn o hyd rhwng dymuniadau staff am seibiant ac anghenion gweithredol yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol.

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth (P7)

8.23 Mae gan yr Ardal Gynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n seiliedig ar dempledi cenedlaethol. Mae'r cynllun yn un cyffredinol iawn gydag ychydig o faterion penodol lleol. Ceir cyfle i sicrhau mwy o aliniad â'r Cynllun Busnes Ardal, gan ganolbwyntio mwy ar flaenoriaethau lleol. Cafodd rhai agweddau o'r cynllun eu rhannu gyda'r LCJB a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru.

8.24 Mae gan yr Ardal reolwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd hefyd yn gyfrifol am gyfathrebu a hyfforddiant. Mae angen mwy o eglurder o ran disgwyliadau'r rôl a pherchenogaeth uwch reolwyr o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

8.25 Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cysylltiad cyffredinol â'r gymuned (gweler Pennod 12). Mae canran isel (0.56%) of bobl o leiafrifoedd ethnig yn byw yng Ngogledd Cymru, ac mae angen i'r Ardal ddarparu ar gyfer anghenion y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae'n gweithio'n dda gyda'r llysoedd mewn ymgais i ddarparu erlynwyr sy'n siarad Cymraeg pan fo'u hangen. Weithiau, ni chyflawnir hyn. Fe'n hysbyswyd y bu adegau pan bu'n rhaid cynnal gweithrediadau yn Gymraeg er nad oedd yr erlynydd yn gallu siarad Cymraeg. Nid yw hyn yn ddelfrydol iawn a bydd angen i reolwyr fonitro'r sefyllfa.

8.26 Mae gan yr Ardal gyfran fawr iawn o staff sy'n ferched sy'n gweithio yn y maes gweinyddol ac mae'n gobeithio cynyddu nifer y staff sy'n ddynion gydag amser. Ni chafwyd unrhyw staff o leiafrifoedd ethnig ac ni chawsom ein hysbysu o unrhyw gynlluniau cadarnhaol i newid hyn.

8.27 Noda'r sgorau o'r arolwg staff o dan faterion Urddas yn y Gwaith (12% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol) fod lle i wella o ran y ffordd y cred pobl y cânt eu trin.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Mae angen ymagwedd fwy deinamig a phenodol tuag at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Iechyd a diogelwch (P8)

8.28 Mae Iechyd a Diogelwch yn fater sefydlog ar yr ASB ac yng nghyfarfodydd Cyngor Whitley. Mae gan yr Ardal y seilwaith a chynrychiolwyr hyfforddedig i reoli materion Iechyd a Diogelwch. Roeddem yn fodlon, drwy'r asesiad BS7799 a'r broses o reoli materion posibl yn ystod y gwaith adeiladu diweddar, bod sylw yn cael ei roi i faterion Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, yn ddiweddar nid yw'r adroddiadau asesu chwarterol ffurfiol wedi cael eu cwblhau.

8.29 Mae'r cynrychiolydd Ardal yn gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i asesu risgiau mewn eiddo nad yw'n ymwneud â'r CPS, a rhoddwyd rhai gwelliannau ar waith o ganlyniad. Ceir rhai pryderon o hyd yn llys Prestatyn, lle y mae anawsterau gyda mynediad wedi arwain at rai achosion o drin erlynwyr yn annymunol mewn ardaloedd cyhoeddus. Nid yw'r digwyddiadau wedi'u cofnodi'n swyddogol yn unol â chanllawiau.

## 9 RHEOLI ADNODDAU ARIANNOL

### Sgiliau ariannol staff (MFR1)

9.1 Mae'r rheolwr B1 yn yr ysgrifenyddiaeth yn cynnal y rhan fwyaf o'r gwaith manwl ar lefel weithredol ac mae'r ABM yn gyfrifol am berfformiad ariannol yr Ardal. Mae'r diffyg dilyniant ar lefel ABM yn y gorffennol diweddar wedi golygu bod yr Ardal ychydig yn agored o ran arbenigedd ariannol ymhlith ei staff.

9.2 Er y cafwyd rhywfaint o drafodaethau lefel uchel ar gyllidebau mewn cyfarfodydd ASB, prin yw'r ddealltwriaeth o gyllid ymhlith rheolwyr o'r tu allan i'r ysgrifenyddiaeth.

### Ymlyniad wrth ganllawiau ariannol (MFR2)

9.3 Roedd cydymffurfiad yr Ardal â chanllawiau ariannol yn gadarn ar adeg yr arolygiad. Roeddem yn fodlon bod y systemau ar gyfer gosod contractau a lleoli'r cwnsler mewn achosion arbennig, a delir drwy gostau erlyn (3010), yn y llysoedd ynadon, yn foddhaol.

9.4 Roeddem yn fodlon, er gwaethaf y problemau yn y gorffennol, nad yw troseddau penodedig yn cael eu cynnwys yn nangosyddion perfformiad yr Ardal. Caiff gweithrediadau penodedig, y mae nifer fawr ohonynt yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i'r ymgyrch "Siwrne Saff", eu cynnwys yn rhestrau cyffredinol y llysoedd ynadon. Gall hyn wastraffu amser erlynwyr yn ddiangen. Bydd rheolwyr ardal yn dymuno cysylltu â rheolwyr llysoedd ynadon i wella'r broses o restru achosion o'r fath.

### Rheolaethau cyllidebol (MFR3)

9.5 Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae'r Ardal wedi defnyddio amrywiaeth o systemau i fonitro a rheoli cyllid gan fod gan bob ABM ei hoff ddull. Dylai hyn gael ei sefydlogi bellach yn sgîl penodi ABM a CCP parhaus. Fe'n calonogwyd i nodi bod y system arfaethedig yn seiliedig ar gyflogau gwirioneddol ac yn cynnwys proses ailgysoni fanwl.

9.6 Roedd gan yr Ardal danwariant sylweddol o £180,000 yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ni chafwyd dealltwriaeth gyffredin ymhlith rheolwyr yr Ardal o'r rheswm dros yr amrywiaeth yn y gyllideb a briodolwyd yn bennaf i'r ffaith eu bod wedi ad-dalu cyflogau staff a fu ar secondiad drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf yn hwyr. Byddai gweithredu mwy cadarnhaol i fynd i'r afael â'r pwynt hwn wedi galluogi defnydd mwy effeithiol o arian.

9.7 Cyfrannodd y newidiadau ymhlith ABM ac absenoldeb yr ABM am gyfnodau, at roi blaenoriaeth isel i faterion ariannol y llynedd. Bydd angen i reolwyr ardal roi mwy o sylw i gyllidebau eleni gan eu bod wedi cynyddu eu lefelau staffio ar adeg pan fo'r broses o bennu cyllidebau yn llai hael nag y bu mewn blynyddoedd diweddar. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant bach, ond mae'r CCP a'r ABM yn hyderus eu bod wedi nodi rhai arbedion posibl i fynd i'r afael â hyn.

9.8 Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad yr Ardal ac mae'n bwysig eu bod yn gywir. Rydym wedi gwneud argymhelliad ym mharagraff 4.46.

**Rheoli costau erlyn (MFR4)**

9.9 Ymdrinnir â chostau erlyn yn dda yng Ngogledd Cymru. Mae ganddynt glerc ffioedd arbenigol sy'n delio â'r gwaith o brosesu ffioedd o ddydd i ddydd. Ceir risg y gallai ôl-groniadau ddatblygu os bydd y clerc yn absennol ac os bydd rheolwyr am sicrhau eu hunain bod systemau wrth gefn priodol yn bodoli. Gellir gwella'r dull o gadw cofnodion mewn achosion â chostau uchel.

**Ymagwedd gwerth am arian (MFR5)**

9.10 Mae'r Ardal yn gwneud ymdrechion priodol i sicrhau gwerth am arian wrth brynu. Gwnaed arbedion mewn costau cynnal a chadw.

9.11 Mae rheolwyr wedi ceisio lleihau'r gwariant ar asiantau drwy leoli erlynwyr yn helaeth. Er bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyllideb, gall gael effaith negyddol ar forâl ac ar y gallu i adolygu a pharatoi achosion yn effeithiol.

9.12 Ar sail ehangach mae'n amlwg bod gan yr Ardal gryn dipyn i'w wneud cyn cyflawni buddiannau llawn y cynlluniau peilot a'r mentrau mawr a weithredwyd dros y 18 mis diwethaf.

## 10 PARTNERIAETHAU AC ADNODDAU

### Partneriaethau CJS (PAR1, KPR 8)

10.1 Mae'r Ardal yn chwarae rhan lawn yn y LCJB a'i is-grwpiau gweithredol, er gwaethaf y diffyg cysondeb ymhlith uwch reolwyr yr Ardal. Mae cyd-berthnasau gydag asiantaethau eraill yn ddymunol ar bob lefel, er y ceir rhywfaint o awgrym nad yw'r Ardal wedi gallu darparu'n llawn ar rai cytundebau ar y lefel weithredol. Mae'r Ardal wedi gweithredu nifer o fentrau gyda'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ers yr arolygiad diwethaf – cyd-leoli CJU, (a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2002), y cynllun cyngor cyn-cyhuddo, y Prosiect Rheoli Treialon Effeithiol a Dim Tystion Dim Cyfiawnder.

10.2 Ar y cyfan, cafodd mentrau eu gweithredu'n llawn a mabwysiadwyd arferion gweithio cydweithredol a chafwyd cydweithredu da rhwng asiantaethau, er bod angen sicrhau y cynhelir dull cynllunio ac adolygu strwythuredig er mwyn cyflawni'r buddiannau gweithredol llawn a sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gyd-leoli lle y gobeithir y caiff strwythur newydd yr heddlu a sefydlwyd yn ddiweddar a'r rheolwyr newydd a benodwyd yn ddiweddar i'r CPS a'r heddlu, effaith gadarnhaol. Trafodir cynnydd mentrau unigol mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad.

10.3 Ceir cyd-berthynas waith ddigonol gyda Gwasanaeth y Tystion, er bod y sianeli cyfathrebu yn anffurfiol yn bennaf. Bydd rheolwyr am sicrhau y caiff ymagwedd strwythuredig, ffurfiol ei mabwysiadu i sicrhau y caiff Gwasanaeth y Tystion ei gynnwys yn llawn mewn mentrau newydd.

10.4 Mae'r dull rheoli perfformiad ar y cyd gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill o safon amrywiol a chaiff hyn ei drafod ym mharagraffau 7.7 –7.11.

### Gwella perfformiad CJS lleol (CR4)

10.5 Ym marn uwch swyddogion partneriaid cyfiawnder troseddol yr Ardal, mae'r Ardal yn barod i ymgymryd â mentrau newydd ac mae'n ymatebol i'r pryderon a godwyd. Fodd bynnag, ceir y canfyddiad, a nodir uchod, nad yw'r Ardal bob amser yn gallu rhoi cytundebau ar waith.

### Technoleg gwybodaeth (PAR2)

10.6 Cyflwynwyd Compass ar draws yr Ardal. Canfuom fod CJU yr heddlu a staff cymorth gweinyddol y CPS yn gwneud defnydd effeithiol o'r system, ond mae'r Ardal yn derbyn bod angen gwella'r cysylltiadau rhwng cyfreithwyr a gweithwyr achos gan fod hyn yn cyfrannu at broblemau o ran llif ffeiliau ac oedi. Ceir rhywfaint o amharodrwydd i ddefnyddio'r system ac mae angen hyfforddiant gloywi yn awr ar rai staff, yn enwedig cyfreithwyr. Caiff hyn ei gydnabod a'i drefnu. Mae strwythur ansafonol yr Ardal yn arwain at hyder cyfyngedig mewn data dangosyddion perfformiad gan Compass, ac eir i'r afael â hyn rhywle arall yn yr adroddiad.

10.7 Mae'r Ardal yn dechrau defnyddio systemau TG Cyfiawnder Troseddol ond hyd yn hyn, prin yw nifer y bobl sy'n ymgymryd â'r systemau. Bydd rheolwyr am annog y defnydd effeithiol o ebost diogel gan staff yr Ardal a'u partneriaid CJS.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Gwella'r defnydd o Compass gan gyfreithwyr a gweithwyr achos.

**Adeiladau, offer a dulliau diogelu (PAR3)**

10.8 Mae adeiladau o fewn yr Ardal, yn gyffredinol, yn diwallu anghenion y busnes, er y cafwyd rhai pryderon gan ambell aelod o staff yngl_n â safon yr adeiladau o ganlyniad i gyd-leoli. Yn ddiweddar, cwblhaodd yr Ardal archwiliad BS7799 cynhwysfawr ar ddiogelwch, gan nodi materion i fynd i'r afael â hwy.

**Partneriaeth gyda'r Pencadlys a'r Ganolfan Gwasanaethau (PAR4)**

10.9 Mae cyd-berthnasau gyda'r ganolfan gwasanaethau yn foddhaol. Mae'r Ardal yn cymryd rhan weithredol mewn nifer o fentrau ac mae hyn wedi hwyluso cysylltiadau mewnol cadarnhaol.

## 11 POLISI A STRATEGAETH

### Rhanddeiliaid (PAS1)

11.1 Er clod iddi, mae'r Ardal wedi cymryd rhan flaenllaw yn y broses o dreialu a gweithredu mentrau cenedlaethol. Mae'n un o'r unig ddwy Ardal sydd wedi gweithredu cyngor cyn-cyhuddo, Dim Tystion Dim Cyfiawnder a'r Prosiect Rheoli Treialon yn Effeithio fel gr_p integredig o fentrau. Cafodd rhan helaeth o'r strategaeth hon ei llywio gan y CCP sylweddol blaenorol.

11.2 Daethom ar draws lefelau o frwdfrydedd neu ddealltwriaeth is na'r disgwyl o'r cynlluniau peilot ymhlith rhai aelodau o staff. Gellir priodoli hyn yn rhannol i newidiadau strwythurol a diffyg cysondeb ymhlith uwch reolwyr, sydd wedi cyd-daro â'r gwaith peilot. Roedd rhai o'r staff yn pryderu bod y ffaith bod pobl yn blino ar y cynlluniau peilot yn risg a'u bod yn edrych am fwy o sefydlogrwydd.

11.3 Er gwaethaf unrhyw amheuon, mae'r rhan fwyaf o staff wedi dangos ymagwedd ymrwymedig i geisio gweithredu'r mentrau yn effeithiol. Cafodd hyn ei rwystro rhywfaint gan y diffyg cynlluniau a'r sgiliau rheoli prosiect a oedd ar gael drwy'r 18 mis diwethaf. Byddai rhai o'r cynlluniau peilot a'r newidiadau mawr wedi elwa ar ddull gwell o asesu risgiau fel rhan o'r broses gynllunio yn ogystal â dull gwell o nodi a chytuno ar ddisgwyliadau.

11.4 Fel arfer, cynllunnir a chysylltir ag asiantaethau eraill y mae'r cynlluniau peilot a'r broses o'u gweithredu wedi effeithio arnynt, ond cymysg fu effeithiolrwydd y gwaith cynllunio.

| |
|---|
| **Agweddau ar gyfer gwelliant** |
| * Mae angen gwella'r dull o reoli newid a sgiliau cynllunio prosiectau. |

### Mesur perfformiad (PAS2)

11.5 Cyfeiriwn yn rhywle arall yn yr adroddiad at wendid yr Ardal wrth geisio nodi mesurau llwyddiant priodol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y cynlluniau peilot. Ni chafwyd cysondeb mewn canfyddiadau o ran p'un a fu'r cynlluniau peilot yn llwyddiannus a chafwyd diffyg eglurder o ran sut y dylai hyn gael ei fesur.

11.6 Canfuom fod yr ymwybyddiaeth o ganfyddiadau adolygiadau perfformiad cenedlaethol mewn perthynas â Dim Tystion Dim Cyfiawnder a'r mentrau ETMP yn annisgwyl o isel.

### Adolygiad (PAS3)

11.7 Cynhaliodd yr Ardal adolygiad cynhwysfawr o'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo ar ddechrau 2004. Trafodwn hyn a gwnawn argymhelliad ym mharagraff 4.4.

11.8 Yn fwy cyffredinol, mae dyfodiad y CCP a'r ACM newydd ym mis Mai 2004 wedi rhoi'r cyfle i'r Ardal adolygu ei chynlluniau a'i strategaethau presennol. Mae'r cynllun Busnes Ardal a'r gofrestr risgiau wedi'u diweddaru. Mae hyn wedi cyfrannu at fwy o ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad ymhlith rheolwyr Ardal, y mae angen ei rannu ymhlith yr holl staff.

**Fframwaith o brosesau allweddol (PAS4)**

11.9 Mae'r Ardal wedi dechrau gwella ei phrosesau drwy waith y Tîm Adolygu Prosesau Busnes. Cymrasant y cam cadarnhaol o gynnwys staff yr heddlu yn y timau, gan eu bod yn ymdrin â llawer o'r swyddogaethau gweinyddol. Gwnaed cychwyn addawol i ddatblygu prosesau, a ategwyd gan gyfarwyddiadau pen desg, sy'n gallu cynorthwyo i gyflawni lefelau uwch o gysondeb.

**Cyfathrebu a gweithredu (PAS5)**

11.10 Bu'r cyfathrebu ynghylch y prosiectau ychydig yn anghyson, a theimlodd rhai staff fod yr ymgynghori ar fentrau newydd yn annigonol. Ceir ychydig o gynlluniau i arwain y gwaith gweithredu a chydnabu'r rhan fwyaf o'r bobl y cyfwelwyd â hwy y gellid bod wedi cyflawni ymagwedd fwy cydlynus. Gallai gwell dull o gynllunio a gweithredu fod wedi cyflymu'r broses o gyflawni buddiannau posibl – yn enwedig o ran cyd-leoli.

## 12 HYDER Y CYHOEDD

### Cwynion (CR1)

12.1 Mae gan yr Ardal system ar waith ar gyfer delio â chwynion, er bod y system bresennol yn cael ei chymhlethu gan gofnod cwynion ysgrifenyddiaeth ar wahân nad yw bob amser yn bwydo i'r prif gofnod cwynion y mae'r Ganolfan Gwybodaeth i Ddioddefwyr yn ei chynnal. Byddai cyflwyno cofnod cyfansawdd yn galluogi'r Ardal i fonitro cwynion a dadansoddi ac asesu data cwynion yn fwy effeithiol. Mae angen i'r Ardal hefyd ystyried sut y gall ddysgu gwersi o gwynion a lledaenu canfyddiadau i staff.

12.2 Tra ein bod ar y safle, archwiliasom rhai llythyrau mewn ymateb i gwynion a chanfuom fod eu safon, yn gyffredinol, o ansawdd da ac yn amserol ar y cyfan.

### Cymunedau lleiafrifoedd ethnig (CR5)

12.3 Ymdrinnir ag achosion sydd â dimensiwn lleiafrifoedd ethnig yn unol â'r Cod ac ni chanfuom unrhyw beth i nodi unrhyw ragfarn neu achos o wahaniaethu. Caiff ffurflenni monitro digwyddiadau hiliol eu cwblhau ac mae cofnodion boddhaol ar waith. Mae'r Pennaeth Uned sy'n gyfrifol am droseddau casineb yn monitro'r achosion hyn yn gynhwysfawr.

### Amddiffyn plant (CR7)

12.4 Ymdrinnir ag achosion cam-drin plant yn dda yn y rhan fwyaf o agweddau ac mae gan yr Ardal erlynwyr arbenigol perthnasol. Mae cynrychiolwyr Ardal yn mynychu Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal yn rheolaidd.

### Cysylltiad cymunedol (CR6 a SR1)

12.5 Nid yw'r Ardal wedi dangos ymrwymiad cydlynol i gysylltiad cymunedol hyd yn hyn, a megis cychwyn y mae ei gwaith o gysylltu â'r gymuned. Mae'r Rheolwr Cysylltiadau a benodwyd yn ddiweddar wedi cynnal rhywfaint o waith cychwynnol, gan gynnwys trefnu bod y CPS yn mynychu ysgolion a cholegau. Gyda'r tîm newydd o uwch reolwyr a sefydlwyd yn ddiweddar, yn awr mae angen sicrhau y mabwysiadir ymagwedd allblyg.

12.6 Gwnaed cysylltiadau priodol gyda'r gymuned o dan nawdd yr LCJB, ac er bod hyn yn ffordd effeithiol o sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau CPS a strategaeth gydgysylltiedig ar gyfer cyfathrebu ar gyfer y CPS yn gyffredinol, byddai'n annoeth i ddibynnu'n gyfan gwbl ar yr ymagwedd ar y cyd hon. Mae angen i'r ymagwedd gyfredol fod yn fwy systematig, gan nodi a blaenoriaethu cysylltiad cymunedol yn briodol, a sicrhau sylwebaeth effeithiol sy'n cysylltu â'r Cynllun Busnes Ardal.

### Cysylltiad â'r cyfryngau (SR2)

12.7 Mae'r Ardal wedi mabwysiadu ymagwedd sy'n bennaf yn adweithiol tuag at gysylltu â'r cyfryngau, a hwylusir gan y Rheolwr Cysylltiadau. Gwnaed rhyw fath o gysylltiad gyda rhannau o'r cyfryngau lleol, ac mae angen gwella hyn er mwyn cynorthwyo i sicrhau y caiff storïau newyddion da a rhagweithiol eu trosglwyddo'n rheolaidd.

12.8 Mae strategaeth cysylltiadau a ddatblygwyd yn ddiweddar ar waith a gwnaed cysylltiadau â phartneriaid LCJB i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig tuag at gysylltu â'r cyfryngau drwy'r CJS. Ar adeg ein hymweliad roedd protocol yn cael ei gymeradwyo. Mae angen i'r Ardal sicrhau bod y CPS yn cael ei hyrwyddo'n annibynnol, yn ogystal â bod yn rhan o CJS Gogledd Cymru.

**Hyder y cyhoedd (SR3)**

12.9 Dengys Arolwg Troseddau Prydain ar gyfer 2002-03 fod hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd y broses o ddod â throseddwyr gerbron y llys yng Ngogledd Cymru yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (47% o gymharu â 39%) a dyma'r ganran uchaf ond un yn y wlad. I sicrhau'r duedd gadarnhaol hon, mae'r LCJB wedi datblygu cynllun cyflenwi hyder y cyhoedd ac yn ei rhoi ar waith ar gyfer Rhagfyr 2003 – Mawrth 2005, i gynnal y targed cenedlaethol o wella hyder y cyhoedd yn y CJS.

## 13 ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU

### Gweledigaeth a gwerthoedd (LAG1)

13.1 Cafwyd nifer o newidiadau ymhlith uwch reolwyr yr Ardal sydd, yn naturiol, wedi cyfrannu at rywfaint o ansicrwydd ynghylch y cyfeiriad cyffredinol dros y 18 mis diwethaf. Gwnaed cynnydd ers dyfodiad y CCP a'r ABM newydd o ran diweddaru strategaethau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r ASB wedi cytuno ar ei ddatganiad gweledigaeth a gwerthoedd newydd. Mae angen gwneud gwaith o hyd i gytuno ar flaenoriaethau'r Ardal a gwella'r broses o gyflawni buddiannau'r gwaith cyd-leoli a'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo. Mae angen sicrhau bod proses raeadru effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o strategaethau ac ymagweddau newydd.

13.2 Mae'r CCP wedi cynnal cyfarfodydd un i un gyda chanran fawr o erlynwyr i wrando ar eu safbwyntiau ar nifer o faterion. Cynhelir cyfarfodydd â graddau eraill hefyd.

13.3 Mae hyn yn gyfle mawr i'r Ardal ac fe'n calonogwyd gan y gobaith a ganfuom ymhlith y tîm rheoli.

**Agweddau ar gyfer gwelliant**

* Dylid sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o weledigaeth a blaenoriaethau'r Ardal er mwyn rhoi gwell ymdeimlad o gyfeiriad iddynt.

### Cydnabod staff (LAG2)

13.4 Datgelodd yr arolwg staff nad yw rheolwyr wedi bod yn dda yn cydnabod gwaith neu ymdrechion unigolion a thimau. Mae hyn yn gysylltiedig â phryder staff o ran adborth a chyfathrebu yn gyffredinol. Mae'r cynllun gweithredu mewn perthynas â'r arolwg yn cynnwys syniadau ar sut i wella'r sefyllfa. Dangoswyd copïau i ni o ohebiaeth ddiweddar i aelodau unigol o staff a oedd yn cydnabod eu hymdrechion ar faterion penodol.

13.5 Cafwyd cydnabyddiaeth ymhlith rheolwyr bod angen gwneud gwaith o hyd i wella morâl staff, yn enwedig yn y TU.

### Strwythur rheoli (LAG3)

13.6 Mae'r Ardal wedi cyflawni proses rannol o gyd-leoli â'r heddlu yn nwy swyddfa'r CPS. Mae'n dechrau mynd i'r afael â materion yngl_n â rheoli staff yr heddlu, sy'n gyfrifol am wneud swm sylweddol o waith gweinyddol ar ran y CPS, yn cynnwys terfynu achosion ar CMS. Cafwyd safbwyntiau cymysg o ran pa mor werthfawr fyddai cael uned paratoi ffeiliau ac archwilwyr ffeiliau o fewn swyddfeydd y CPS.

13.7 Mae'r strwythur rheoli ar lefel Penaethiaid Uned yn safonol, er bod cwmpas y gwaith a reolir ganddynt yn anarferol a bod y TU yn ymdrin â'r rhan fwyaf o dreialon diannod. Mae dau o'r Penaethiaid Uned yn rhannu swydd ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn fodlon bod y trefniant wedi gweithio'n dda.

13.8 Mae'r diffyg cysondeb ar lefel uwch reolwyr wedi effeithio ar effeithiolrwydd yr ASB. Roedd cyfarfodydd yn llai rheolaidd a chafwyd cytundeb bod y gr_p wedi mynd yn gysylltiedig â materion gweithredol lefel isel nad oeddent yn canolbwyntio llawer ar faterion mwy strategol. Mae'r CCP yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Strwythur trefniadol (LAG4)**

13.9 Mae gan yr Ardal strwythur anarferol lle y caiff y rhan fwyaf o dreialon diannod eu paratoi gan TU. Roedd rheolwyr wedi ystyried opsiynau yn ofalus o ran beth ddylai fod y strwythur gorau yn dilyn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

13.10 Mae llawer o staff o'r farn nad yw'r strwythur presennol yn gweithio'n dda, er mai nifer prin ohonynt a allai fynegi eu pryderon gyda thystiolaeth ffeithiol y gellid ei phriodoli'n bendant i'r strwythur. Cafwyd canfyddiad ymhlith staff TU bod gwaith achos yn Llys y Goron yn cael llai o sylw nag y dylai. Yn gyffredinol, roedd asiantaethau partner yn fodlon iawn ar waith achos yn Llys y Goron (yn dilyn gostyngiad mewn perfformiad gryn amser yn ôl) ac mae ffigurau perfformiad y CPS yn dda iawn. Roedd cyfran uchel o'r bobl y cyfwelwyd â hwy yn fewnol o blaid proses ailstrwythuro arall.

13.11 Mae ffactorau eraill, ar wahân i strwythur wedi cael dylanwad cryf ar yr Ardal yn ddiweddar, gan gynnwys;

- diffyg cysondeb ymhlith uwch reolwyr;
- gweithredu llawer o fentrau;
- strwythurau anghytûn yr heddlu; ac
- ymgyrch "Siwrne Saff" yr heddlu sydd wedi cynhyrchu nifer fawr o droseddau moduro.

13.12 Roeddem yn pryderu bod rhai aelodau o staff wedi dod i'r casgliad bod y strwythur wrth wraidd eu holl broblemau a'u bod am ei newid heb ystyried y materion yn briodol ac yn ofalus. Er ei bod yn hollol briodol i'r Ardal adolygu ei strwythur, dylai ffurfio rhan o werthusiad ehangach o allu'r Ardal i gyflawni ei strategaethau y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Gallai cymryd camau gweithredu effeithiol i wella'r broses o restru, ansawdd ffeiliau'r heddlu ac effeithiolrwydd y cynlluniau peilot hefyd effeithio ar unrhyw benderfyniad.

**ARGYMHELLIAD**

**Mae'r ASB yn craffu ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o rannu gwaith rhwng y TU a'r CJU yn cynnwys cydbwyso staffio yn yr unedau.**

**Cynlluniau gweithredu (LAG5)**

13.13 Mae'r Cynllun Busnes Ardal (ABP) a ddiweddarwyd yn ddiweddar a'r gofrestr risgiau gysylltiedig yn welliant ar y rhai blaenorol, ond mae angen gwella'r broses o nodi mesurau llwyddiant priodol. Rydym wedi cyfeirio at hyn yn ein sylwadau ar gynllunio cynlluniau peilot ym Mhennod 11.

13.14 Erbyn hyn, cytunwyd ar y cyfrifoldeb dros gyflenwi'r amcanion allweddol yn yr ABP ac mae gan yr Ardal system ganmoladwy o fonitro pwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol i sicrhau y caiff y tasgau eu cyflawni. Caiff y camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol eu nodi a chaiff eu cynnydd ei drafod a'i gofnodi yn y cyfarfod dilynol. Daw unrhyw gamau nad aethpwyd i'r afael â hwy yn eitem benodol ar yr agenda nesaf. Ystyriwn fod hyn yn **arfer da**.

**Cydweithredu o ran y system cyfiawnder troseddol (LAG6)**

13.15 Cafwyd enghreifftiau da o weithio ar y cyd i weithredu tair menter fawr yr Ardal. Ni fyddai hyn wedi digwydd heb gydweithrediad da rhwng asiantaethau.

13.16 Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i wella darpariaeth o hyd, yn enwedig gyda'r heddlu. Mae newidiadau diweddar yn strwythurau'r heddlu a'r adolygiad ffurfiol o gyhuddo wedi gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni mwy o fuddiannau o'r broses o gyd-leoli a'r cynllun cyngor cyn-cyhuddo.

**ATODIAD 1**

# MAP AROLYGU MODEL RHAGORIAETH BUSNES

## CANLYNIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

* Mae’r Ardal yn gwneud cynnydd sylweddol, ar y cyd â phartneriaid yn y CJS, tuag at gyflawni targedau PSA.
* Dengys perfformiad mewn meysydd allweddol o ran gwaith achos a pharatoi achosion welliant parhaus.
* Cyflenwir cyfiawnder yn effeithiol drwy gymhwyso’r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn briodol a thrwy ddod â throseddwyr gerbron y llys yn gyflym, tra’n parchu hawliau diffynyddion a’u trin yn deg.

(Elfennau diffiniol: KPR1 - 14)

## CANLYNIADAU O RAN Y BOBL

* Noda’r canlyniadau y caiff staff eu lleoli’n effeithlon, y cyflawnir gwaith yn gost effeithiol, a bod yr Ardal yn cyflawni ei chyfrifoldebau, sef y rhai statudol a’r rhai sy’n deillio o bolisïau mewnol, er mwyn datblygu sefydliad modern ac amrywiol y gall staff ymfalchïo ynddo.

(Elfennau diffiniol: PR1 - 9)

## CANLYNIADAU O RAN CWSMERIAID

* Noda’r canlyniadau y diwellir anghenion dioddefwyr a thystion, a phartneriaid CJS, ac y caiff hawliau diffynyddion eu parchu.

(Elfennau diffiniol: CR1 - 6)

## CANLYNIADAU O RAN Y GYMDEITHAS

* Mae’r Ardal yn cymryd camau i wella hyder y cyhoedd yn y CJS a’r CPS, ac yn mesur canlyniadau ei weithgaredd.

(Elfennau diffiniol: SR1 - 3)

## PROSESAU

### GWAITH ACHOS AC EIRIOLAETH

* Mae’r Ardal yn dylunio, rheoli ac yn gwella ei phrosesau gwaith achos ac eiriolaeth er mwyn cyflenwi perfformiad allweddol, canlyniadau i gwsmeriaid a’r gymdeithas, i sicrhau bod yr holl brosesau yn rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu, ac i ategu polisi a strategaeth.

(Elfennau diffiniol: CAP1 - 21)

### RHEOLI PERFFORMIAD

* Caiff perfformiad a risg eu monitro a’u gwerthuso’n systematig, a’u defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

(Elfennau diffiniol: PM1 - 6)

### ANSAWDD Y GWASANAETH A DDARPERIR YN Y LLYS

* Mae’r Ardal yn darparu gwasanaeth o safon uchel i’r llys, i ddefnyddwyr eraill y llys, a dioddefwyr a thystion, sy’n cyfrannu at effeithiolrwydd gwrandawiadau llys.

(Elfennau diffiniol: QSD1 - 4)

### CYFATHREBU UNIONGYRCHOL Â DIODDEFWYR

* Caiff dioddefwyr eu hysbysu yn brydlon ac yn briodol o benderfyniadau i ddirwyn achosion i ben, neu i newid cyhuddiad yn sylweddol, yn unol â pholisi CPS, ac mewn ffordd sy’n diwallu anghenion dioddefwyr unigol.

(Elfennau diffiniol: DCV1 - 8)

### RHEOLI ADNODDAU ARIANNOL

* Mae’r Ardal yn cynllunio ac yn rheoli ei chyllid yn effeithiol, gan sicrhau cywirdeb ac ymagwedd gwerth am arian, sy’n ystyried anghenion rhanddeilaid.

(Elfennau diffiniol: MFR1 - 5)

## POBL

* Cynllunnir adnoddau dynol i sicrhau bod staff yn cael eu lleoli’n effeithlon, bod yr Ardal yn cyflawni ei gwaith yn gost effeithiol a bod yr Ardal yn cyflawni ei dyletswyddau statudol fel cyflogwr, a’r rhai sy’n deillio o bolisïau mewnol.

(Elfennau diffiniol: P1 - 8)

## POLISI A STRATEGAETH

* Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o bwr pas ac mae rheolwyr wedi pennu cyfeiri ad perthnasol ar gyfer yr Ardal, wedi’i gyflenwi gan bolisïau perthnasol ac wedi’i ategu gan gynlluniau, amcanion, targedau a phrosesau, a dulliau ar gyfer adolygu.

(Elfennau diffiniol: P a S1 - 5)

## PARTNERIAETHAU AC ADNODDAU

* Mae’r Ardal yn cynllunio ac yn rheoli ei phartneriaethau a’i hadnoddau allanol a mewnol mewn ffyrdd sy’n ategu ei pholisi a’i strategaeth a’r dull effeithlon o reoli ei phrosesau.

(Elfennau diffiniol: P a R1 - 5)

## ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU

* Mae arweinwyr yn datblygu gweledigaeth a gwerthoedd sy’n arwain at lwyddiant hirdymor ac yn gweithredu’r rhain drwy gamau ac ymddygiadau priodol. Yn arbennig, ceir trefniadau gwaith sy’n sicrhau y caiff yr Ardal ei rheoli a’i chyfarwyddo i gyflawni ei nodau a’i hamcanion yn gyson ac yn briodol.

(Elfennau diffiniol: L a G1 - 10)

**ATODIAD 1A**

## GOFYNION ALLWEDDOL A SAFONAU AROLYGU

### GWAITH ACHOS (Pennod 4)

---

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLAI'R ARDAL GYNLLUNIO, RHEOLI A GWELLA EI PHROSESAU GWAITH ACHOS ER MWYN DARPARU PERFFORMIAD ALLWEDDOL, CANLYNIADAU I GWSMERIAID AC I'R GYMDEITHAS, I SICRHAU BOD YR HOLL BROSESAU YN RHYDD O RAGFARN A CHAMWAHANIAETHU, AC I ATEGU POLISI A STRATEGAETH**

---

### Cyngor i'r heddlu (CAP1)

*Safon*: dylid ymdrin ag ymgynghori cynnar, a chyngor cyhuddo yn briodol mewn ffordd amserol, ac yn unol â phrofion y Cod, polisi CPS a phrotocolau lleol, a dylai'r cyngor fod yn rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu.

**Achosion sy'n barod i fynd rhagddynt ar ddiwrnod cyntaf y gwrandawiad (CAP2)**

*Safon*: dylai prosesau CPS/yr heddlu ar y cyd sicrhau bod achosion yn barod i fynd rhagddynt ar ddiwrnod cyntaf y gwrandawiad a bod penderfyniadau gwaith achos yn rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu.

**Ceisiadau am fechnïaeth/cadwraeth (CAP3)**

Safon: dylai prosesau CPS/yr heddlu ar y cyd sicrhau y gwneir ceisiadau hyddysg a phriodol am fechnïaeth/cadwraeth a bod penderfyniadau yn rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu.

**Achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon (CAP4)**

*Safon*: dylai achosion sy'n dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon neu yn Llys y Goron fod yn seiliedig ar yr holl ddeunydd sydd ar gael a dylent fod yn amserol.

**Paratoi treialon diannod (CAP5)**

*Safon*:dylai prosesau treialon diannod sicrhau bod yr adolygiad cyn-treial (os bydd un) a dyddiadau treialon yn wrandawiadau effeithiol.

### Traddodi a pharatoi achosion yn Llys y Goron (CAP6)

*Safon*: Dylai prosesau'r Ardal ar gyfer achosion a "ddanfonir" neu a draddodir i dreial yn Llys y Goron sicrhau bod:

a) y broses o gyflwyno achos yr erlyniad i'r amddiffyniad yn digwydd o fewn y cyfnodau amser y cytunwyd arnynt cyn y traddodi/gwrandawiad ple a chyfarwyddiadau (PDH);

b) yr erlyniad wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod y PDG a dyddiad y treial yn effeithiol;

c) yr erlynydd wedi'i gyfarwyddo'n llawn.

**Dadlennu deunydd nas defnyddiwyd (CAP7)**

*Safon*: dylid sicrhau bod y broses ddadlennu yn llawn ac yn amserol a'i bod yn cydymffurfio â pholisi a chyfarwyddiadau gweithredol CPIA a CPS yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron.

**Achosion sensitif (CAP8)**

*Safon*: dylid ymdrin ag achosion sensitif (troseddau'n ymwneud â hil, trais yn y cartref, cam-drin plant/tystion sy'n blant, trais rhywiol, troseddau traffig ffordd lle cafwyd marwolaethau, ymosodiadau homoffobig) yn amserol ac yn unol â pholisi'r CPS ac mewn ffordd sy'n rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu.

**Ymdrin â ffeiliau/negeseuon (CAP9)**

*Safon*: dylai gweithdrefnau ymdrin â ffeiliau/negeseuon ategu penderfyniadau a chamau gwaith achos amserol yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron.

**Terfynau amser yn y ddalfa (CAP10)**

*Safon*: dylai systemau fod ar waith i sicrhau cydymffurfiad â therfynau amser statudol a therfynau amser yn y ddalfa yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron.

**Gweithredu ar y cyd i wella gwaith achos (CAP11)**

*Safon*: dylai fod gan yr Ardal brosesau a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau eraill i wella amseroldeb ac ansawdd y gwaith o adolygu a pharatoi gwaith achos ar gyfer y llysoedd ynadon a Llys y Goron a dylai partneriaethau adlewyrchu'r dyletswydd gyffredinol o dan y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

**Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Thimau Troseddwyr Ifanc (CAP12)**

*Safon*: dylid darparu gwybodaeth yn amserol i'r Gwasanaeth Prawf a dylid cynhyrchu adroddiadau cywir sy'n rhydd o gamwahaniaethu a rhagfarn.

**Achosion yn ymwneud â phobl ifanc (CAP13)**

*Safon:* dylid ymdrin ag achosion ieuenctid mewn ffordd amserol (yn enwedig troseddwyr ifanc parhaus) ac yn unol â pholisi'r CPS ac mewn ffordd sy'n rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu.

**Prosesau apelio a thraddodi i ddedfryd (CAP14)**

*Safon*: dylai prosesau apelio a thraddodi i ddedfryd sicrhau bod gwrandawiadau apêl/dedfryd wedi'u paratoi a'u cyflwyno'n llawn.

**Apeliadau yn erbyn dedfrydau trugarog diangen (CAP15)**

*Safon*: dylid gwneud cyflwyniadau i'r Twrnai Cyffredinol sy'n ymwneud â chyfeiriadau posibl i'r Llys Apêl yn erbyn dedfrydau trugarog diangen yn unol â pholisi'r CPS a chanllawiau dedfrydu presennol, a dylent fod yn rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu.

**Cofnodi canlyniadau achos (CAP16)**

*Safon*: dylid sicrhau bod y broses o gofnodi canlyniadau achos ac archifo systemau yn effeithlon ac yn gywir.

**Gwybodaeth ar faterion gweithredol a chyfreithiol (CAP17)**

*Safon*: dylai gwybodaeth ar faterion gweithredol a chyfreithiol gael ei lledaenu'n effeithlon ac yn effeithiol.

**Parodrwydd ar gyfer y llys (CAP18)**

*Safon*: dylai systemau'r CPS, yr heddlu a'r llys sicrhau bod ffeiliau yn cael eu darparu i'r llys cywir mewn ffordd amserol a'u bod yn barod i fynd rhagddynt.

**Pwyntiau dysgu (CAP21)**

Safon: dylai pwyntiau dysgu o waith achos gael eu nodi a dylid rhoi gwelliannau ar waith.

---

**EIRIOLAETH AC ANSAWDD Y BROSES O DDARPARU GWASANAETHAU (Pennod 5)**

---

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLAI'R ARDAL DDARPARU GWASANAETH, GAN GYNNWYS EIRIOLAETH, O SAFON UCHEL I'R LLYS, I DDEFNYDDWYR ERAILL Y LLYS, A DIODDEFWYR A THYSTION, SY'N CYFRANNU AT EFFEITHIOLRWYDD GWRANDAWIADAU'R LLYS**

---

**Safonau eiriolaeth a monitro (CAP19)**

*Safon*: dylai'r broses o ddethol a monitro eiriolwyr yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron sicrhau y caiff achosion eu cyflwyno i safon uchel ac mewn ffordd sy'n rhydd o ragfarn a chamwahaniaethu, a bod y detholiad o eiriolwyr yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y CPS o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

**Arnodiadau llys (CAP20)**

*Safon*: dylai arnodiadau llys fod yn gywir ac yn drylwyr a dylid cymryd camau amserol o ganlyniad.

**Paratoi ar gyfer y llys (QSD1)**

*Safon*: dylai'r broses o baratoi ar gyfer y llys fod yn effeithlon a dylai alluogi busnes i fynd rhagddo a datblygu.

**Presenoldeb yn y llys (QSD2)**

*Safon*: dylai presenoldeb staff yn y llys fod yn amserol ac yn broffesiynol, a dylid darparu'r lefelau cywir o gymorth.

**Ystafelloedd (QSD4)**

*Safon*: dylai fod gan y CPS ystafelloedd digonol yn y llys a dylai fod cyfleusterau digonol i alluogi busnes i gael ei gynnal yn effeithlon.

---

## DIODDEFWYR A THYSTION (Pennod 6)

---

**GOFYNION ALLWEDDOL:**

* **DYLID DIWALLU ANGHENION DIODDEFWYR A THYSTION**
* **DYLAI PENDERFYNIADAU I DDIRWYN ACHOSION I BEN, NEU NEWID CYHUDDIAD YN SYLWEDDOL GAEL EU TROSGLWYDDO'N BRYDLON AC YN BRIODOL I DDIODDEFWYR YN UNOL Â PHOLISI CPS, AC MEWN FFORDD SY'N DIWALLU ANGHENION DIODDEFWYR UNIGOL**

---

### Tystion yn y llys (QSD3)

*Safon*: dylid ymdrin â thystion â pharch yn y llys a dylent dderbyn cymorth a gwybodaeth briodol.

### Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr (CAP13)

*Safon*: dylai dioddefwyr gael eu hysbysu o benderfyniadau i ddirwyn achosion i ben neu newid cyhuddiadau yn unol â pholisi CPS ar Gyfathrebu Uniongyrchol â Thystion.

### Cyfarfodydd â dioddefwyr a pherthnasau dioddefwyr (DCV5)

*Safon*: dylid cynnig cyfarfodydd i ddioddefwyr a pherthnasau dioddefwyr mewn amgylchiadau priodol, dylid sicrhau bod staff wedi paratoi'n ddigonol ac y cymerir nodiadau llawn

### Siarter y Dioddefwyr (CR2)

*Safon*: dylai canlyniadau nodi bod anghenion dioddefwyr a thystion yn cael eu diwallu'n gyson yn unol â Siarter y Dioddefwyr.

---

## RHEOLI PERFFORMIAD (Pennod 7)

---

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLID MONITRO A GWERTHUSO PERFFORMIAD A RISGIAU YN SYSTEMATIG, A'U DEFNYDDIO I LYWIO PENDERFYNIADAU YN Y DYFODOL**

---

### Safonau Perfformiad (PM1)

*Safon*: dylid pennu safonau perfformiad ar gyfer agweddau allweddol ar waith a'u trosglwyddo i staff.

### Monitro perfformiad (PM2)

*Safon*: dylai uwch reolwyr a rheolwyr canolog fonitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn cynlluniau ac amcanion, dylid gwerthuso targedau a safonau, a chymryd camau o ganlyniad.

**Rheoli perfformiad ar y cyd (PM3)**

*Safon*: dylid sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer rheoli perfformiad ar y cyd gyda phartneriaid CJS.

**Rheoli risgiau (PM4)**

*Safon*: dylid adolygu risgiau a'u rheoli'n briodol.

**Gwelliant parhaus (PM5)**

*Safon*: dylai'r Ardal ddatblygu diwylliant o welliant parhaus.

**Bod yn atebol am berfformiad (PM6)**

*Safon*: dylai'r Ardal fod yn atebol am berfformiad.

---

## RHEOLI POBL A CHANLYNIADAU (Pennod 8)

**GOFYNION ALLWEDDOL:**

* **DYLID CYNLLUNIO ADNODDAU DYNOL I SICRHAU Y CAIFF STAFF EU LLEOLI'N EFFEITHLON, BOD YR ARDAL YN CYFLAWNI EI GWAITH YN GOST EFFEITHIOL A BOD YR ARDAL YN CYFLAWNI EI DYLETSWYDDAU STATUDOL FEL CYFLOGWR, A'R RHAI SY'N DEILLIO O BOLISÏAU MEWNOL**
* **DYLAI'R CANLYNIADAU DDANGOS BOD STAFF YN CAEL EU LLEOLI'N EFFEITHLON, Y CYFLAWNIR GWAITH YN GOST EFFEITHIOL, A BOD YR ARDAL YN CYFLAWNI EI CHYFRIFOLDEBAU, YN STATUDOL A'R RHAI SY'N DEILLIO O BOLISÏAU MEWNOL, MEWN FFORDD SY'N SICRHAU Y DATBLYGIR SEFYDLIAD MODERN, AMRYWIOL Y GALL STAFF YMFALCHÏO YNDDO**

**Cynllunio adnoddau dynol (P1)**

*Safon*: dylid cynllunio anghenion adnoddau dynol yn systematig ac yn barhaus.

**Strwythur staff (P2)**

*Safon*: dylai strwythur a niferoedd staff alluogi gwaith i gael ei gyflawni'n gost effeithiol.

**Datblygu staff (P3)**

*Safon*: dylid nodi, cynnal a datblygu galluoedd staff.

**Adolygu perfformiad (P4)**

*Safon*: dylid adolygu perfformiad a datblygiad staff yn barhaus a chytuno ar dargedau.

**Cysylltiad rheolwyr (P5)**

*Safon*: dylai rheolwyr gyfathrebu'n effeithiol gyda staff a meithrin ymdeimlad o gysylltiad.

**Arfer cyflogi da (P6)**

*Safon*: dylai'r rheolwyr gyflawni eu rhwymedigaeth statudol fel cyflogwyr a dangos arfer cyflogi da.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth (P7)**

*Safon*: dylid cymryd camau i weithredu mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth CPS a dylid trin yr holl staff yn gyfartal ac yn deg.

**Iechyd a diogelwch (P8)**

*Safon*: dylid sicrhau bod dulliau ar waith i fynd i'r afael â gofynion o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

---

**RHEOLI ADNODDAU ARIANNOL (Pennod 9)**

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLAI'R ARDAL GYNLLUNIO A RHEOLI EI HARIAN YN EFFEITHIOL, GAN SICRHAU CYWIRDEB AC YMAGWEDD GWERTH AM ARIAN SY'N YSTYRIED ANGHENION RHANDDEILIAID**

**Sgiliau ariannol staff (MFR1)**

*Safon*: dylai fod gan yr Ardal strwythur a staff priodol sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio a rheoli cyllid.

**Ymlynu wrth ganllawiau ariannol (MFR2)**

*Safon*: dylai'r Ardal gydymffurfio â rheolau a chanllawiau CPS ar gyfer rheolaeth ariannol.

**Rheolaethau cyllidebol (MFR3)**

*Safon*: dylai fod gan yr Ardal reolaethau effeithiol i hwyluso dull cywir o amcangyfrif ei sefyllfa gyllidebol ar gyfer costau cynnal.

**Rheoli costau erlyn (MFR4)**

*Safon*: dylid rheoli costau erlyn yn effeithiol a dylent gynrychioli gwerth am arian.

**Ymagwedd gwerth am arian (MFR5)**

*Safon*: dylai'r Ardal ddangos ymagwedd gwerth am arian wrth wneud penderfyniadau ariannol.

---

## PARTNERIAETHAU AC ADNODDAU (Pennod 10)

---

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLAI'R ARDAL GYNLLUNIO A RHEOLI EI PHARTNERIAETHAU A'I HADNODDAU ALLANOL A MEWNOL MEWN FFYRDD SY'N ATEGU EI PHOLISI A'I STRATEGAETH A GWEITHREDIAD EI PHROSESAU YN EFFEITHLON**

---

### Partneriaethau CJS (P&R1)

*Safon*: dylid datblygu a rheoli partneriaethau gydag asiantaethau CJS eraill.

### Asiantaethau CJS (KPR8)

*Safon*: dylai partneriaethau gydag asiantaethau CJS eraill wella ansawdd ac amseroldeb gwaith achos a sicrhau bod penderfyniadau yn rhydd o ragfarn.

### Gwella perfformiad CJS lleol (CR4)

*Safon*: dylai partneriaid CJS fod yn fodlon ar gyfraniad y CPS at wella perfformiad yr Ardal leol.

### Technoleg gwybodaeth (P&R2)

*Safon*: dylid lleoli a defnyddio technoleg gwybodaeth yn effeithiol.

### Adeiladau, offer a dulliau diogelu (P&R3)

*Safon*: dylai'r Ardal reoli ei hadeiladau, ei hoffer a'i diogelwch yn effeithiol.

### Partneriaethau gyda'r Pencadlys a'r Ganolfan Gwasanaethau (P&R4)

*Safon*: dylai fod gan yr Ardal bartneriaeth waith dda gydag Adrannau'r Pencadlys a'r Ganolfan Gwasanaethau.

---

## POLISI A STRATEGAETH (Pennod 11)

---

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLAI FOD GAN YR ARDAL YMDEIMLAD CLIR O DDIBEN A DYLAI FOD RHEOLWYR WEDI SEFYDLU CYFEIRIAD PERTHNASOL AR GYFER YR ARDAL, WEDI'I ATEGU GAN BOLISÏAU PERTHNASOL SY'N CAEL EU CEFNOGI GAN GYNLLUNIAU, AMCANION, TARGEDAU A PHROSESAU, A DULLIAU ADOLYGU**

---

### Rhanddeiliaid (P&S1)

*Safon*: dylai polisi a strategaeth fod yn seiliedig ar anghenion a disgwyliadau presennol rhanddeiliaid ac yn y dyfodol.

### Mesur perfformiad (P&S2)

*Safon*: dylai polisi a strategaeth fod yn seiliedig ar wybodaeth o fesur perfformiad, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig.

**Adolygiad (P&S3)**

*Safon*: dylai datblygu, adolygu a diweddaru polisi a strategaeth.

**Fframwaith o brosesau allweddol (P&S4)**

*Safon*: dylai polisi a strategaeth gael eu datblygu drwy fframwaith o brosesau allweddol.

**Cyfathrebu a gweithredu (P&S5)**

*Safon*: dylai polisi a strategaeth gael eu trosglwyddo a'u gweithredu.

---

## HYDER Y CYHOEDD (Pennod 12)

**GOFYNION ALLWEDDOL:**

- **DYLAI'R ARDAL GYMRYD CAMAU RHAGWEITHIOL I WELLA HYDER Y CYHOEDD YN Y CJS A'R CPS, A MESUR CANLYNIADAU EI GWEITHGAREDD**
- **DYLAI CANLYNIADAU NODI BOD ANGHENION DIODDEFWYR A THYSTION, A PHARTNERIAID CJS YN CAEL EU DIWALLU, A BOD HAWLIAU DIFFYNYDDION YN CAEL EU PARCHU**

**Cwynion (CR1)**

*Safon*: dylid rheoli cwynion yn effeithiol i gynyddu boddhad a hyder.

**Cymunedau lleiafrifoedd ethnig (CR5)**

*Safon*: dylai'r Ardal sicrhau y cynhelir safonau gwaith achos uchel mewn achosion sy'n ymwneud â lleiafrifoedd ethnig er mwyn cynyddu hyder cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y CJS.

**Amddiffyn plant (CR7)**

*Safon*: dylai'r Ardal amddiffyn plant drwy ei pherfformiad gwaith achos a'i chydymffurfiad â pholisi CJS mewn perthynas ag achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant a gwaith gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys y Pwyllgor(au) Amddiffyn Plant Ardal.

**Cysylltiad cymunedol (CR6)**

*Safon*: dylai'r Ardal gysylltu'n briodol â'r gymuned.

**Cysylltiad â'r cyfryngau (SR2)**

*Safon*: dylai'r Ardal gysylltu â'r cyfryngau.

**Hyder y cyhoedd (SR3)**

*Safon*: dylid mesur a gwerthuso hyder y cyhoedd yn y CJS a chymryd camau o ganlyniad.

---

## ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU (Pennod 13)

**GOFYNIAD ALLWEDDOL: DYLAI ARWEINWYR DDATBLYGU GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD SY'N ARWAIN AT LWYDDIANT YN Y TYMOR HIR A GWEITHREDU'R RHAIN DRWY GAMAU AC YMDDYGIADAU PRIODOL. YN ARBENNIG, DYLID SICRHAU BOD TREFNIADAU GWAITH MEWN GRYM, SY'N SICRHAU BOD YR ARDAL YN CAEL EI RHEOLI A'I CHYFEIRIO ER MWYN CYFLAWNI EI NODAU A'I HAMCANION YN GYSON AC YN GYWIR**

### Gweledigaeth a gwerthoedd (L&G1)

*Safon*: dylid datblygu gweledigaeth a gwerthoedd a chynnal diwylliant o welliant parhaus.

### Cydnabod staff (L&G2)

*Safon*: dylai rheolwyr gymell, cydnabod a chynorthwyo eu staff.

### Strwythur rheoli (L&G3)

*Safon*: dylai'r Ardal fod wedi datblygu strwythur rheoli effeithiol i ddarparu strategaeth ac amcanion Ardal.

### Strwythur trefniadol (L&G4)

*Safon*: dylai'r Ardal fod wedi datblygu strwythur trefniadol effeithiol i ddarparu strategaeth ac amcanion Ardal.


### Cynlluniau gweithredu (L&G5)

*Safon*: dylai fod cynlluniau gweithredu, sy'n nodi materion allweddol, ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol y CPS a'r CJS, ac anghenion lleol, ar waith.

### Cydweithredu o ran y system cyfiawnder troseddol (L&G6)

*Safon*: dylai'r Ardal gydweithredu ag eraill wrth gyflawni nodau a bennir ar gyfer y system cyfiawnder troseddol.

# STRWYTHUR STAFF CPS GOGLEDD CYMRU




ATODIAD 2

**ATODIAD 3**

## LLWYTH ACHOSION ARDAL AR GYFER Y FLWYDDYN HYD AT MAWRTH 2004

| 1. Llys Ynadon – Mathau o achosion | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Cyngor | 5,646 | 26.6 | 194,928 | 12.4 |
| Achosion diannod yn ymwneud â throseddau moduro | 3,900 | 18.4 | 273,949 | 17.4 |
| Achosion diannod nad ydynt yn ymwneud â throseddau moduro | 5,934 | 27.9 | 563,024 | 35.8 |
| Neillfordd a ditiol | 5,668 | 26.7 | 525,345 | 33.4 |
| Gweithrediadau eraill | 88 | 0.4 | 17,225 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **21,236** | **100** | **1,574,471** | **100** |

| 2. Llys Ynadon - Achosion Cymhleth | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Gwrandawiadau | 12,858 | 82.9 | 1,011,743 | 74.3 |
| Achosion sy'n dirwyn i ben | 1,418 | 9.1 | 165,198 | 12.1 |
| Traddodebau | 818 | 5.3 | 100,490 | 7.4 |
| Achosion eraill a waredir | 408 | 2.6 | 84,884 | 6.2 |
| **Cyfanswm** | **15,502** | **100** | **1,362,315** | **100** |

| 3. Llys Ynadon - Canlyniadau achosion | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Pleon euog | 11,065 | 85.1 | 800,525 | 78.1 |
| Profion mewn absenoldeb | 1,192 | 9.2 | 152,757 | 14.9 |
| Collfarnau ar ôl y treial | 519 | 4.0 | 52,201 | 5.1 |
| Rhyddfarnau: ar ôl y treial | 188 | 1.4 | 15,997 | 1.6 |
| Rhyddfarnau: dim achos i'w gyflwyno | 35 | 0.3 | 3,053 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **12,999** | **100** | **1,024,533** | **100** |

| 4. Llys y Goron – Mathau o achosion | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ditiol yn unig | 201 | 21.6 | 40,200 | 31.7 |
| Neillffordd: dewis yr amddiffyniad | 14 | 1.5 | 13,037 | 10.3 |
| Neillfordd: cyfarwyddyd yr ynadon | 434 | 46.7 | 41,997 | 33.1 |
| Diannod: apeliadau; traddodi i ddedfryd | 281 | 30.2 | 31,609 | 24.9 |
| **Cyfanswm** | **930** | **100** | **126,843** | **100** |

| 5. Llys y Goron – Achosion a Gwblhawyd | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Treialon (yn cynnwys pleon euog) | 605 | 93.2 | 78,698 | 82.6 |
| Achosion nas cyflwynwyd | 33 | 5.1 | 13,377 | 14.0 |
| Achosion a rwymwyd | 1 | 0.2 | 981 | 1.0 |
| Achosion eraill a waredwyd | 10 | 1.5 | 2,171 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | **649** | **100** | **95,227** | **100** |

| 6. Llys y Goron – Canlyniadau Achosion | Gogledd Cymru | | Cenedlaethol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Pleon euog | 501 | 81.9 | 59,537 | 73.6 |
| Collfarnau ar ôl y treial | 64 | 10.5 | 13,119 | 16.2 |
| Rhyddfarnau gan y rheithgor | 35 | 5.7 | 6,652 | 8.2 |
| Rhyddfarnau a gyfarwyddwyd gan y Barnwr | 12 | 2.0 | 1,538 | 1.9 |
| **Cyfanswm** | **612** | **100** | **80,846** | **100** |

**ATODIAD 4**

## TABL O ADNODDAU A LLWYTH ACHOSION

| LLWYTH ACHOSION/STAFFIO ARDAL<br>CPS GOGLEDD CYMRU | | |
|---|---|---|
| | **Mawrth 2004** | **Mawrth 2002** |
| Cyfreithwyr mewn swydd (ac eithrio CCP) | 24.7 | 22.3 |
| Achosion fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) fesul blwyddyn | 859.6 | 773.1 |
| Treialon a ymleddir yn y llysoedd ynadon fesul cyfeithiwr (ac eithrio CCP) | 30 | 33.7 |
| Traddodebau ar gyfer treial ac achosion a "ddanfonwyd" fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 33.1 | 28.3 |
| Treialon a ymleddir yn Llys y Goron fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 4.5 | 6.6 |
| Gweithwyr achos lefel B1, B2, B3 sydd mewn swydd | 18.8 | 17.8 |
| Traddodebau ar gyfer treial ac achosion a "ddanfonwyd" fesul gweithiwr achos | 43.5 | 35.5 |
| Treialon a ymleddir yn Llys y Goron fesul cyfreithiwr | 5.9 | 8.3 |
| Costau rhedeg (nad ydynt wedi'u neilltuo'n benodol) | £2,949,300 | £2,539,943 |

DS: Mae data llwyth achosion yn rhoi ffigur blynyddol ar gyfer pob aelod o staff perthnasol.

**ATODIAD 5**

## GWEITHREDU ARGYMHELLION/AWGRYMIADAU O'R ADRODDIAD A GYHOEDDWYD YM MIS MAWRTH 2002

| | ARGYMHELLION | SEFYLLFA YM MIS MEHEFIN 2004 |
|---|---|---|
| **R1** | Mewn perthynas â darparu cyngor cyn-cyhuddo, dylai'r Ardal adolygu:<br>* y system ar gyfer monitro amseroldeb yn y tair uned;<br>* y systemau ar gyfer monitro ansawdd cyngor (paragraff 2.16). | Ddim yn berthnasol bellach. Disodlwyd gan y trefniadau cyhuddo cysgodol. |
| **R2** | Dylai'r Penaethiaid Uned archwilio ansawdd ac amseroldeb yr adolygiad cychwynnol yn ogystal â'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau pan gaiff penderfyniadau gwaith achos eu monitro (paragraff 3.9). | Cyflawnwyd yn rhannol. Mae'r gwaith monitro o dan y system CQA a phroses 'samplo dethol' yr Ardal yn cwmpasu'r adolygiad, ond mae gennym rywfaint o bryderon nad oedd yr holl achosion wedi'u hadolygu cyn y gwrandawiad cychwynnol. |
| **R3** | Dylai'r broses o fonitro achosion sy'n dirwyn i ben gael ei strwythuro er mwyn rhoi gwybodaeth ar ansawdd ac amseroldeb yr adolygiad yn ogystal ag argymhellion o ffeiliau'r heddlu (paragraff 3.22). | Cyflawnwyd yn rhannol. Sefydlwyd dull strwythuredig o fonitro achosion sy'n dirwyn i ben ond cafodd ei derfynu yn dilyn hynny ar ôl mabwysiadu'r strwythur TU/CJU newydd. Mae ffeiliau achosion sy'n dirwyn i ben bellach yn rhan o'r CQA a'r broses 'samplo dethol'. |
| **R4** | Er mwyn gwella ansawdd yr adolygiad o'r treialon diannod dylai:<br>* Pennaeth CJU Eryri fonitro amseroldeb ac ansawdd y broses o baratoi ffeiliau yng ngoleuni'r trefniadau newydd ar gyfer meddu ar ffeiliau; a dylai<br>* Penaethiaid y CJU gynnal dull hunanasesu mwy trylwyr mewn perthynas â NCTA, a rhyddfarnau'r llysoedd ynadon yn gyffredinol (paragraff 3.26). | Cyflawnwyd. Ymdrinnir â threialon bellach yn y TU. Caiff y gwaith o fonitro treialon diannod ei gwmpasu gan CQA a phroses 'samplo dethol'. Mae ETMP yn cynnwys cyfarfodydd datblygu achosion gyda'r llysoedd.<br><br>Cyflawnwyd yn rhannol. Mae'r broses ddysgu yn systematig mewn egwyddor ond gellid gwneud mwy i sicrhau bod staff perthnasol a swyddogion yr heddlu yn dysgu gwersi. |

| | ARGYMHELLION | SEFYLLFA YM MIS MEHEFIN 2004 |
|---|---|---|
| **R5** | Dylai'r Penaethiaid Uned ar gyfer yr Uned Treialon a CJU Eryri sicrhau bod eu cofnodion cam-drin plant wedi'u diweddaru ac ar yr un fformat â chofnod CJU Wrecsam (paragraff 3.43). | Cyflawnwyd. Mae'r systemau cofnodi ar gyfer unedau bellach yr un peth ac maent mewn trefn. |
| **R6** | Dylid cynnal hyfforddiant pellach ar gyfer erlynwyr a gweithwyr achos i godi ymwybyddiaeth o effaith troseddau sy'n ymwneud â hil ar ddioddefwyr a sicrhau gwell dealltwriaeth o bolisi'r CPS mewn perthynas â throseddau sy'n ymwneud â hil (paragraff 3.48). | Cyflawnwyd. Ymdriniwyd â'r achosion a oedd yn ymwneud â hil yn foddhaol. |
| **R7** | Dylai'r ASB roi trefniadau strwythuredig ar waith ar gyfer pwyntiau dysgu sy'n berthnasol, yn gyffredinol, o bob treial, ar gyfer sicrhau y caiff cyfreithwyr yn y CJU a'r TU eu hysbysu'n rheolaidd o ganlyniadau achosion yn Llys y Goron (paragraff 3.59). | Ni chyflawnwyd. Nid yw'n berthnasol bellach i gyfreithwyr CJU. Caiff ei ystyried yn bellach yn y strategaeth cyfathrebu newydd. |
| **R8** | Dylai erlynwyr, wrth ddelio â blaenwybodaeth, gofnodi'r deunydd a ddarparwyd i'r amddiffyniad ar y ffeil (paragraff 4.3). | Ni chyflawnwyd. |
| **R9** | Dylai'r ASB sicrhau y gwneir asesiad priodol ym mhob achos yngl_n â'r angen am ddadlennu eilaidd, bod yr amddiffyniad yn cael eu hysbysu'n ffurfiol o ganlyniad yr asesiad, a bod y weithdrefn yn cael ei dogfennu'n llawn (paragraff 4.18). | Ni chyflawnwyd. Dim ond mewn 31.1% o achosion perthnasol yr ymdriniwyd â dadlennu eilaidd yn briodol. |
| **R10** | Dylai'r Penaethiaid Uned fonitro ansawdd arnodiadau ffeil, a mynd i'r afael â pherfformiad gwael gydag aelodau unigol o staff (paragraff 4.62). | Cyflawnwyd. Monitrwyd drwy CQA. |

| | ARGYMHELLION | SEFYLLFA YM MIS MEHEFIN 2004 |
|---|---|---|
| **R11** | Dylai'r ASB adolygu p'un a ddylid rhannu'r Uned Treialon. Dylai'r adolygiad hwn fod yn eang ei gwmpas, a dylai gynnwys pa mor ymarferol yw lleoli'r Uned mewn adeilad addas mewn lleoliad arall i ddarparu mynediad rhesymol i staff ac eraill sy'n delio â'r Gwasanaeth (paragraff 6.11). | Cyflawnwyd. Ailstrwythurwyd yr Ardal. Argymhellir gwaith craffu pellach. |
| **R12** | Dylai'r ASB adolygu trefniadau ar gyfer rheoli llinell o ran y staff gweinyddol yn yr Unedau Cyfiawnder Troseddol (paragraff 6.13). | Cyflawnwyd a'i ddatblygu ymhellach drwy gyd-leoli. |
| **R13** | Dylai'r ASB sefydlu system effeithiol a chyson ar draws yr Ardal er mwyn sicrhau bod llwyth achosion a chanlyniadau achos yn cael eu cofnodi'n gywir, ac y cynhelir gwiriadau rheoli rheolaidd i sicrhau cysondeb y broses gofnodi (paragraff 6.30). | Ni chyflawnwyd. Rydym wedi gwneud argymhelliad arall. |
| **R14** | Er mwyn gwella cyfathrebu mewnol, dylai'r ASB:<br>* adolygu ac atgyfnerthu cynnydd camau a nodwyd yn y strategaeth gyfathrebu;<br>* adolygu cyfansoddiad y Bwrdd Seinio Ardal er mwyn sicrhau y caiff presenoldeb gan staff ei hybu;<br>* ystyried cyfleoedd pellach i gysylltu'n bersonol â staff;<br>* datblygu cysylltiadau rhwng swyddfeydd a rhwng unedau;<br>* ystyried proses olygyddol newydd ar gyfer y Cylchlythyr Ardal er mwyn ei wneud yn ddogfen ar gyfer yr Ardal yn hytrach na'r offeryn rheoli arall (paragraff 6.34). | Ni chyflawnwyd. Mae angen gweithredu'r strategaeth gyfathrebu bresennol yn llawn o hyd. Rydym wedi gwneud argymhelliad i wella cyfathrebu yn gyffredinol. |

| | Awgrymiadau | Sefyllfa ym mis Mehefin 2004 |
|---|---|---|
| **S1** | Dylai'r Penaethiaid Uned drafod gwell cydymffurfiad â Chytundeb Lefel Gwasanaeth 1995 gyda'r heddlu o ran y ddarpariaeth o gyngor cyn-cyhuddo (paragraff 2.5). | Ddim yn berthnasol bellach. Mae'r Ardal wedi gweithredu cynllun cyngor cyn-cyhuddo cysgodol. |
| **S2** | Dylai'r Ardal adolygu ei systemau ar gyfer cofnodi cyngor ar lafar i sicrhau y caiff unrhyw gyngor o'r fath ei gofnodi at ddibenion dangosyddion perfformiad, ei nodi'n ysgrifenedig a dylid anfon copi ohono at yr heddlu ym mhob achos (paragraff 2.13). | Ddim yn berthnasol bellach. Mae'r Ardal wedi gweithredu cynllun cyngor cyn-cyhuddo cysgodol. |
| **S3** | Dylai'r ASB adolygu ei ddull o ymdrin ag achosion trais yn y cartref gyda'r heddlu, yn yr achosion hynny lle y mae'r dioddefwr yn tynnu ei gyhuddiad yn ôl, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth hyddysg lawn i bu'n a ddylid gorfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth (paragraff 3.51). | Cyflawnwyd. Rydym bellach yn ystyried bod y broses o ymdrin ag achosion trais yn y cartref yn gryfder. |
| **S4** | Mewn perthynas â dadlennu deunydd nas defnyddiwyd:<br>* dylai'r ASB adolygu ei weithdrefnau ar gyfer ymdrin â deunydd sensitif;<br>* dylai'r Penaethiaid Uned sicrhau bod yr holl ddeunydd nas defnyddiwyd, gan gynnwys gohebiaeth, yn cael ei chadw mewn ffolder ar wahân ar bob ffeil;<br>* dylai'r CCP barhau i geisio gwelliannau gan yr heddlu o ran ansawdd yr amserlenni dadlennu (paragraff 4.19). | Ni chyflawnwyd. Er yr ymdrinnir â deunydd sensitif yn foddhaol, mae agweddau eraill ar ddadlennu yn destun argymhelliad arall. |

| | AWGRYMIADAU | SEFYLLFA YM MIS MEHEFIN 2004 |
|---|---|---|
| **S5** | Dylai penaethiaid y CJU ystyried y defnydd o "wiriad parodrwydd" yn fuan cyn y treial i sicrhau bod yr erlyniad wedi gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod y treial yn effeithiol. Byddai'r gwiriad hwn yn sicrhau bod yr holl dystion priodol wedi'u galw, a bod y rhai nad oes eu hangen bellach yn gallu terfynu eu tystiolaeth (paragraff 4.27). | Cyflawnwyd. Mae'r broses o baratoi treialon diannod yn foddhaol. Mae'r Ardal yn awr yn cyflwyno systemau newydd o dan ETMP. |
| **S6** | Dylai'r ASB asesu p'un a fydd y defnydd o'r Pecyn Paratoi Achosion Llys y Goron gan gyfreithwyr a gweithwyr achos yn uniongyrchol ar eu proseswyr geiriau yn lleihau'r amser a gymerir i baratoi papurau traddodi (paragraff 4.31). | Ddim yn berthnasol bellach. Mae'r Ardal bellach wedi cyflwyno Compass. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o gyfreithwyr yn defnyddio'r system ar gyfer traddodebau. Mae'r defnydd o deipyddion yn achosi rhywfaint o oedi o hyd. |
| **S7** | Dylai Pennaeth y TU fonitro ansawdd y cyfarwyddiadau i sicrhau yr eir i'r afael â materion yn llawn ac, yn arbennig, dylid ymdrin â chyfarwyddiadau ar bleon derbyniol mewn achosion priodol (paragraff 4.41). | Cyflawnwyd. Ystyriasom fod ansawdd y cyfarwyddiadau i'r cwnsler yn dda a bod y broses o baratoi achosion yn Llys y Goron, yn gyffredinol, yn gryfder. |
| **S8** | Mewn perthynas â phleon a gwrandawiadau cyfarwyddiadau, dylai Pennaeth y TU:<br>* weithredu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, y weithdrefn rhestr wirio cyn PDH yn swyddfa Wrecsam; ac<br>* ymchwilio i system ar gyfer cofnodi cyfarwyddiadau a roddir mewn PDH ar y ffeil, a'r dyddiad cydymffurfio a rhoi'r system hon ar waith (paragraff 4.45). | Cyflawnwyd. Mae'r gweithdrefnau bellach yn gyson ac yn foddhaol. |

| | Awgrymiadau | Sefyllfa ym mis Mehefin 2004 |
|---|---|---|
| **S9** | Mewn perthynas â therfynau amser yn y ddalfa, dylai'r Penaethiaid Uned adolygu gweithdrefnau monitro terfynau amser yn y ddalfa, a chytuno ar system sy'n:<br>* unffurf ar draws yr Ardal; ac yn<br>* sicrhau bod gwiriadau rheoli i ddibynadwyedd y weithdrefn (paragraff 4.58). | Cyflawnwyd yn rhannol. Ceir rhai amrywiaethau o hyd ond cynhelir gwiriadau rheoli. |
| **S10** | Dylai'r ASB ystyried cynyddu'r sylwebaeth yn y llys gan gyfreithwyr TU yn y llysoedd ynadon (paragraff 5.16). | Ddim yn berthnasol bellach. Mae'r Ardal wedi ailstrwythuro. Mae cyfreithwyr TU bellach yn cwmpasu'r llysoedd ynadon yn aml – efallai ar draul gwaith Llys y Goron. |
| **S11** | Mewn perthynas â dewis cwnsler, dylai'r ASB:<br>* ystyried ehangu'r siambrau;<br>* rhoi cyfarwyddiadau i siambrau yn Lerpwl a Manceinion; a<br>* cymryd camau i leihau lefel y dychwelebau (paragraff 5.23). | Cyflawnwyd yn rhannol. Er mai'r siambr leol a ddefnyddir yn lleol o hyd ac na chaiff lefel y dychwelebau eu monitro gan y siambrau, mae safon ac arbenigedd y cwnsler yn foddhaol. |
| **S12** | Dylai'r ASB gyflwyno dull mwy rheolaidd o strwythuredig o fonitro pob asiant yn y llysoedd ynadon a'r holl gwnsler yn Llys y Goron (paragraff 5.27). | Ni chyflawnwyd. Ond bwriedir gweithredu system fonitro lawn. |
| **S13** | Dylai'r ASB adolygu strwythur ei gyfarfodydd rheoli (paragraff 6.16). | Cyflawnwyd. |
| **S14** | Er mwyn sicrhau y caiff eu sgiliau eu lleoli yn llawn ac yn effeithiol, dylai'r CCP a'r ABM adolygu,:<br>* tasgau DCW a'r broses o'u lleoli; a<br>* tasgau gweithwyr achos lefel B yn y TU (paragraff 6.47). | Cyflawnwyd. Cafodd yr Ardal ei hailstrwythuro ac mae'r broses o leoli'r graddau hyn yn foddhaol. Mae'r mater o leoli HCA yn Llys y Goron bellach wedi codi. |

| | AWGRYMIADAU | SEFYLLFA YM MIS MEHEFIN 2004 |
|---|---|---|
| **S15** | Dylai'r ASB ailasesu gofynion hyfforddi ar gyfer staff ac, yn arbennig, er mwyn sicrhau: | Cyflawnwyd yn rhannol. |
| | * bod gan staff sgiliau digonol er mwyn defnyddio'r dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd ar gael iddynt yn effeithiol; | Mae angen hyfforddiant pellach o hyd ar y defnydd o Compass. |
| | * y gall penaethiaid Uned rheoli eu cyllidebau datganoledig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cenedlaethol ac Ardal (paragraff 6.51). | Prin yw'r ddealltwriaeth o gyllid y tu allan i'r ysgrifenyddiaeth. |

**ATODIAD 6**

## CYFANSWM Y FFEILIAU A ARCHWILIWYD AR GYFER CPS GOGLEDD CYMRU

| | **Nifer y ffeiliau a archwiliwyd** |
|---|---|
| **Achosion yn y llysoedd ynadon/CJU:** | |
| Cyngor | 1 |
| Dim achos i'w gyflwyno | 6 |
| Treialon | 24 |
| Achosion a ddaeth i ben | 25 |
| Troseddau'n ymwneud â hil | 9 |
| Achosion yn ymwneud â thrais yn y cartref | (14) |
| Treialon ieuenctid | 6 |
| Treialon sy'n chwalu | (9) |
| Treialon aneffeithiol | 3 |
| Achosion sy'n amodol ar derfynau amser yn y ddalfa | 5 |
| **Achosion yn Llys y Goron/TU:** | |
| Cyngor | 9 |
| Traddodebau a ryddhawyd ar ôl gwrthod tystiolaeth a gynigiwyd/achosion a ddanfonwyd ar ôl ystyried yr achos | 0 |
| Rhyddfarnau a orchymynwyd gan Farnwr | 4 |
| Rhyddfarnau a gyfarwyddwyd gan Farnwr | 6 |
| Treialon | 29 |
| Achosion yn ymwneud â cham-drin plant | (5) |
| Troseddau'n ymwneud â hil | (5) |
| Treialon sy'n chwalu | 11 |
| Treialon aneffeithiol | 1 |
| Achosion yn ymwneud â thrais hiliol | (5) |
| Achosion yn ymwneud â throseddau ar y stryd | (5) |
| Achosion sy'n amodol ar derfynau amser yn y ddalfa | 5 |
| **CYFANSWM** | **144** |

Pan fydd ffigurau mewn cromfachau, bydd hyn yn nodi bod achosion wedi cael eu cyfrif o fewn eu categori cyffredinol e.e. treialon.

**ATODIAD 7**

## RHESTR O GYNRYCHIOLWYR LLEOL O ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL A SEFYDLIADAU A GYNORTHWYODD YN EIN HAROLYGIAD

### Llys y Goron

Ei Anrhydedd y Barnwr Rogers, CF
Mr M White, Rheolwr Dros Dro Llys y Goron

### Y Llysoedd Ynadon

Mr D Vaughan YH, Cadeirydd y Pwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru
Mrs J Bryson YH, Cadeirydd Mainc Conwy
Yr Arglwyddes Jones YH, Cadeirydd Mainc Sir y Fflint
Mr E Wardle YH, Cadeirydd Mainc Wrecsam Maelor
Mr J Grant-Jones, Prif Weithredwr yr Ustusiaid
Mr I Thomas, Clerc yr Ustusiaid

### Heddlu

Mr R Brunstrom, Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru
Prif Uwcharolygydd J Sandham
Prif Uwcharolygydd P Thompson
Prif Uwcharolygydd R Wise
Uwcharolygydd M Williams
Uwcharolygydd Dros Dro G Wynne
Ditectif Brif Arolygydd J Clayton
Prif Arolygydd M Owen
Prif Arolygydd W Williams
Arolygwr S Hatchett
Cwnstabl D Tucker, Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Mr S Humphreys

### Cwnsler

Mr R Spencer, CF
Mr R Rowlands
Mr R Trevor-Jones

### Cyfreithwyr

Mr C Williams
Mr G Parry
Mr M Parry

### Gwasanaeth Prawf

Mr S Ray

**Timau Troseddwyr Ifanc**

Ms J Belton
Mr G Dafydd
Ms N Ellis-Williams
Mr D Johnson

**Grwpiau Cymunedol**

Mrs M Caldwell, Cymorth i Fenywod

**Gwasanaeth y Tystion**

Mrs I Ewing
Mr N Fisher
Miss L Johnson
Ms L Parry
Mr M Smale
Mrs S Zachary

**Aelodau o'r Senedd**

Mr E Llwyd AS
Mr I Lucas AS
Mr C Ruane AS
Mr G Thomas AS
Mrs B Williams AS

Gwahoddwyd pob Aelod Seneddol ag etholaethau yng Ngogledd Cymru i gyfrannu.

**ATODIAD 8**

# GWELEDIGAETH, CENHADAETH A GWERTHOEDD HMCPSI

## Gweledigaeth

Diben HMCPSI yw hybu gwelliant parhaus yn effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a thegwch y gwasanaethau erlyn o fewn system cyfiawnder troseddol cydgysylltiedig drwy broses o arolygu a gwerthuso; darparu cyngor, a nodi arfer da. Er mwyn cyflawni hyn rydym am fod yn sefydliad sy'n:

- perfformio i'r safonau uchaf posibl;
- hybu balchder;
- gorchymyn parch;
- gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ond heb beryglu ei annibyniaeth gadarn;
- gwerthfawrogi ei holl staff;
- ceisio gwelliant parhaus.

## Cenhadaeth

Nod HMCPSI yw cyflawni rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ei gweithgareddau ac yn arbennig darparu prosesau arolygu a gwerthuso cyson a phroffesiynol i gwsmeriaid a rhanddeiliaid ynghyd â chyngor ac arweiniad, y cânt oll eu mesur yn erbyn safonau ansawdd cydnabyddedig a lefelau perfformiad diffiniedig.

## Gwerthoedd

Ymdrechwn i ymlynu wrth ein gwerthoedd, fel y nodir isod, ym mhob peth a wnawn:

| | |
|---|---|
| **cysondeb** | Mabwysiadu'r un egwyddorion a gweithdrefnau craidd ar gyfer pob arolygiad, a chymhwyso'r un safonau a meini prawf i'r dystiolaeth a gasglwn. |
| **trylwyredd** | Sicrhau bod ein penderfyniadau a'n canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yr ymchwiliwyd iddi a'i gwirio yn drylwyr, gyda llwybr archwilio priodol. |
| **cyfanrwydd** | Dangos cyfanrwydd ym mhopeth a wnawn drwy gymhwyso ein gwerthoedd eraill. |
| **proffesiynoldeb** | Dangos cymhwysedd proffesiynol, cwrteisi ac ystyriaeth o'r safon uchaf. |
| **gwrthrychedd** | Bod yn agored wrth ymdrin â phob arolygiad. Ni fyddwn yn caniatáu i farnau personol ddylanwadu ar ein canfyddiadau. Byddwn yn cofnodi pethau fel ag y maent. |

At ei gilydd, ystyr y rhain yw:

Dangoswn gyfanrwydd, gwrthrychedd a phroffesiynoldeb bob amser ac ym mhob agwedd ar ein gwaith ac mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yr ymchwiliwyd iddi, ei gwirio a'i gwerthuso yn drylwyr yn unol â safonau a meini prawf cyson.

**ATODIAD 9**

## RHESTR TERMAU

| | |
|---|---|
| **ACHOS GWRTHWYNEBUS** | *NCTA, JOA, JDA* (gweler diffiniadau ar wahân) neu achos lle y mae'r ynadon yn penderfynu bod tystiolaeth annigonol ar gyfer traddodi achos neillffordd i Lys y Goron |
| **ADOLYGIAD,** cychwynnol, parhaus, treial diannod ac ati | Y broses lle y bydd Erlynydd y Goron yn penderfynu bod achos a dderbyniwyd gan yr heddlu yn bodloni ac yn parhau i fodloni'r profion cyfreithiol ar gyfer erlyniad yn y Cod. Un o swyddogaethau pwysicaf y CPS |
| **ADOLYGIAD CYN - TREIAL** | Gwrandawiad yn y llys ynadon a gynlluniwyd i ddiffinio'r materion ar gyfer treial a delio ag unrhyw faterion cyn-treial eraill nad aethpwyd i'r afael â hwy |
| **ADRAN 9 DEDDF CYFIAWNDER TROSEDDOL 1967** | Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno datganiadau tystion fel y gellir darllen y dystiolaeth, yn hytrach na bod y tyst yn mynychu yn bersonol |
| **ADRAN 51 DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998** | Gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag *achosion ditiol yn unig* drwy broses llwybr cyflym yn Llys y Goron, sydd bellach yn delio ag achosion o'r fath o gam cynnar iawn – anfonir y diffynnydd i Lys y Goron gan yr ynadon |
| **AGWEDD I'W GWELLA** | Gwendid sylweddol sy'n berthnasol i agwedd bwysig ar berfformiad (weithiau'n cynnwys y camau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn) |
| **ARFER DA** | Agwedd ar berfformiad y mae'r Arolygiaeth nid yn unig yn rhoi sylwadau cadarnhaol yn ei chylch, ond hefyd yn ystyried ei bod yn cael ei hadlewyrchu yn y ffordd yr ymdrinnir â gwaith a ddatblygir gan Ardal, a allai, drwy ei haddasu'n briodol i ddiwallu anghenion lleol, arwain at gael ei chymeradwyo fel arfer cenedlaethol |
| **ARGYMHELLIAD** | Fel arfer caiff hwn ei gyfeirio at unigolyn neu gorff ac mae'n nodi'r camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â gwendid sylweddol sy'n berthnasol i agwedd bwysig ar berfformiad (h.y. agwedd i'w gwella) y dylid, ym marn yr Arolygiaeth, rhoi blaenoriaeth uchel iddi |
| **ASIANT** | Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr nad ydyw wedi'i gyflogi'n uniongyrchol gan y CPS, ond a gaiff ei gyfarwyddo ganddynt, fel arfer ar sail sesiynol, i gynrychioli'r erlyniad yn y llys ynadon |
| **BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL LLEOL** | Prif Swyddogion yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y llysoedd, y CPS a'r Tîm Troseddau Ieuenctid ym mhob ardal cyfiawnder troseddol sy'n atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol ar gyfer cyflenwi targedau *PSA* |
| **CATS - COMPASS, SCOPE, SYSTEM 36** | Systemau TG ar gyfer olrhain achosion a ddefnyddir gan y CPS. Compass yw'r system gynhwysfawr newydd sydd wrthi'n cael ei chyflwyno i bob Ardal |

| | |
|---|---|
| **COD AR GYFER ERLYNWYR Y GORON (Y COD)** | Y ddogfen gyhoeddus sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer proses gwneud penderfyniadau yr erlyniad. Mae gan Erlynwyr y Goron b_er y DPP i bennu achosion a ddirprwyir, ond mae'n rhaid iddynt eu harfer yn unol â'r Cod a'i ddau brawf – y prawf tystiolaethol a'r prawf budd y cyhoedd. Dim ond os, yn gyntaf, y bydd digon o dystiolaeth i ddarparu collfarn realistig ac, yn ail, os bydd yr erlyniad yn ofynnol er budd y cyhoedd y dylid parhau ag achos |
| **CRYFDERAU** | Gwaith a gyflawnir yn gywir yn ôl safonau proffesiynol priodol h.y. gwaith da parhaus |
| **CYD-LEOLI** | Y CPS a staff yr heddlu yn gweithio gyda'i gilydd mewn uned weithredol (*TU* neu *CJU*), p'un ai yn y CPS neu ar safle'r heddlu – un o argymhellion adroddiad *Glidewell* |
| **CYFATHREBU UNIONGYRCHOL GYDA DIODDEFWYR (DCV)** | Gweithdrefn newydd lle y mae'r CPS yn ymgynghori'n uniongyrchol â dioddefwyr troseddau ac yn darparu gwybodaeth iddynt am gynnydd eu hachos |
| **DADLENNU,** Sylfaenol ac Eilaidd | Mae gan yr erlyniad ddyletswydd i ddadlennu deunydd a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad i drosedd i'r amddiffyniad, na fwriedir ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y diffynnydd, ond a allai fod yn berthnasol i fater yn yr achos. Ceir dadlennu sylfaenol lle y gallai eitem danseilio achos yr erlyniad; ceir dadlennu eilaidd lle, ar ôl cyflwyno datganiad gan yr amddiffyniad, y gallai unrhyw eitem gynorthwyo'r amddiffyniad hwnnw |
| **DEUNYDD SENSITIF** | Unrhyw ddeunydd perthnasol o fewn ffeil ymchwiliadol yr heddlu nad yw'n rhan o'r achos yn erbyn y diffynnydd, na fyddai ei *ddadlennu*, o bosibl, o fudd i'r cyhoedd |
| **DIM ACHOS I'W GYFLWYNO (NCTA)** | Lle y mae'r ynadon yn gwrthod achos ar ôl i dystiolaeth yr erlyniad ddod i ben oherwydd nad ydynt yn ystyried bod yr erlyniad wedi cyflwyno achos i'r diffynnydd ymateb iddo |
| **DIRWYN ACHOSION I BEN** | Gollwng achos gan y CPS yn y llys ynadon, boed drwy hysbysiad ysgrifenedig, tynnu yn ôl, neu beidio â chynnig tystiolaeth yn y llys |
| **EIRIOLYDD YR UWCH LYS (HCA)** | Yn y cyd-destun hwn, cyfreithiwr a gyflogir gan y CPS sydd â hawl i ymddangos yn Llys y Goron |
| **GLIDEWELL** | Adolygiad pellgyrhaeddol o weithrediadau a pholisi'r CPS yn dyddio o 1998 a wnaeth argymhellion ailstrwythuro pwysig e.e. y rhaniad yn 42 Ardal leol a rhaniad pellach yn unedau gweithrediadol - *CJUs* a *TUs* |
| **GWEITHIWR ACHOS** | Aelod o staff y CPS sy'n delio â'r broses o gynnal achos yr erlyniad, neu ei reoli, o dan oruchwyliaeth Erlynydd y Goron ac, yn Llys y Goron, yn mynychu'r llys i gynorthwyo'r eiriolwr |
| **GWEITHIWR ACHOS PENODEDIG (DCW)** | Uwch *weithiwr achos* sydd wedi'i hyfforddi i gyflwyno achosion uniongyrchol ar bleon euog, neu i'w profi lle nad yw'r diffynnydd yn mynychu'r llys ynadon |

| | |
|---|---|
| **GWEITHREDIADAU PENODEDIG** | Mân droseddau y mae'r heddlu a'r llys ynadon yn ymdrin â hwy nad yw'n ofynnol iddynt gael eu hadolygu neu eu herlyn gan y CPS, oni bai y cofnodir ple euog |
| **GWRANDAWIAD CYNTAF CYNNAR (EFH)** | O dan weithdrefnau *Narey,* un o'r ddau ddosbarth lle y caiff achosion diannod neu *neillfordd* eu rhannu. Mae EFH ar gyfer achosion uniongyrchol lle y rhagwelir ple euog |
| **GWRANDAWIAD GWEINYDDOL CYNNAR (EAH)** | O dan weithdrefnau *Narey,* un o'r ddau ddosbarth lle y caiff achosion diannod neu neillfordd eu rhannu. Mae EAH ar gyfer achosion lle y rhagwelir ple dieuog |
| **LLYSOEDD NAREY, ADOLYGIADAU AC ATI** | Gweithdrefn ddiwygiedig ar gyfer ymdrin ag achosion yn y llys ynadon, wedi'i chynllunio i sicrhau mwy o gyflymder ac effeithlonrwydd |
| **MG6C, MG6D AC ATI** | Ffurflenni a gwblheir gan yr heddlu yn ymwneud â deunydd nas defnyddiwyd |
| **MONITRO PERFFORMIAD AR Y CYD (JPM)** | System reoli sy'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am agweddau ar weithgaredd a gynhelir gan yr heddlu a/neu'r CPS, wedi'i anelu at sicrhau gwelliannau mewn perfformiad |
| **PRAWF BUDD Y CYHOEDD** | Yr ail brawf o dan *y Cod* – a yw er budd y cyhoedd i erlyn y diffynnydd hwn ar y cyhuddiad hwn? |
| **PRAWF TYSTIOLAETHOL** | Y prawf cychwynnol o dan *y Cod* – a oes digon o dystiolaeth i allu darparu collfarniad ar y dystiolaeth? |
| **PRIF ERLYNYDD Y GORON (CCP)** | Mae un o'r 42 o brif swyddogion sy'n arwain y CPS lleol ym mhob Ardal, yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr. Mae ganddo rywfaint o hunanreolaeth ond mae'n atebol i Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus am berfformiad yr Ardal |
| **RHEOLWR BUSNES ARDAL (ABM)** | Uwch reolwr busnes, nad oes ganddo gymwysterau cyfreithiol, ond sy'n gyfrifol am gyllid, personél, cynllunio busnes a materion gweithredol eraill |
| **RHYDDFARN A GYFARWYDDWYD GAN FARNWR (JDA)** | Lle y bydd y barnwr yn cyfarwyddo'r rheithgor i ddyfarnu bod y diffynnydd yn ddieuog ar ôl i'r treial ddechrau |
| **RHYDDFARN A ORCHMYNNWYD GAN FARNWR (JOA)** | Lle y bydd barnwr yn gwrthod achos oherwydd nad yw'r erlyniad wedi cynnig unrhyw dystiolaeth cyn i'r rheithgor ffurfio |
| **SESIWN Y LLYS** | Mae dwy sesiwn bob dydd yn y llys ynadon, yn y bore a'r prynhawn |
| **STAFF LEFEL A, B, C, D, E** | Graddau'r CPS sy'n is na'r Uwch Wasanaeth Sifil, o A (staff gweinyddol) i E (uwch gyfreithwyr neu weinyddwyr) |

| | |
|---|---|
| **TARGEDAU CYTUNDEB GWASANAETH CYHOEDDUS (PSA)** | Targedau a bennir gan y Llywodraeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol (CJS), sy'n ymwneud â dod â throseddwyr gerbron y llys a chodi hyder y cyhoedd yn y CJS |
| **TERFYNAU AMSER YN Y DDALFA (CTLS)** | Y terfyn amser statudol ar gyfer cadw diffynnydd yn y ddalfa tra'n aros am dreial. Gallai gael ei ymestyn gan y llys mewn rhai amgylchiadau |
| **TÎM RHEOLI ARDAL (AMT)** | Uwch reolwyr cyfreithiol ac uwch reolwyr anghyfreithiol yr Ardal |
| **TQ1** | Ffurflen fonitro lle y mae'r heddlu a'r CPS yn asesu amseroldeb ac ansawdd ffeil yr heddlu fel rhan o ddull *monitro perfformiad ar y cyd* |
| **TRADDODEB** | Gweithdrefn lle y mae diffynnydd mewn achos *neillfordd* yn cael ei symud o'r llys ynadon i Lys y Goron i gael treial, fel arfer ar ôl cyflwyno tystiolaeth yr erlyniad i'r amddiffyniad, ond weithiau ar ôl ystyried y dystiolaeth gan yr ynadon |
| **TREIAL ANEFFEITHIOL** | Achos a restrir ar gyfer treial a ymleddir na all fynd yn ei flaen pan drefnwyd iddo ddechrau, am amrywiaeth o resymau posibl, ac y caiff ei ohirio i ddyddiad hwyrach |
| **TREIAL SY'N CHWALU** | Achos a restrir ar gyfer treial a ymleddir nad yw'n mynd yn ei flaen, naill ai oherwydd bod y diffynnydd yn newid ei ble i euog, neu yn pledio am gyhuddiad amgen, neu os na fydd yr erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth |
| **TROSEDDAU DIANNOD** | Troseddau sy'n brofadwy yn y llysoedd ynadon yn unig, e.e. y rhan fwyaf o droseddau sy'n ymwneud â moduro |
| **TROSEDDAU DITIOL YN UNIG** | Troseddau sy'n brofadwy yn Llys y Goron yn unig, e.e. llofruddiaeth, trais rhywiol, ysbeiliad |
| **TROSEDDWR IFANC PARHAUS** | Person ifanc a ddedfrydwyd yn flaenorol ar o leiaf tri achlysur gwahanol |
| **TROSEDDAU NEILLFFORDD** | Y troseddau hynny sy'n brofadwy naill ai yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron e.e. lladrata |
| **UNED CYFIAWNDER TROSEDDOL (CJU)** | Uned weithredol y CPS sy'n ymdrin â'r broses o baratoi a chyflwyno erlyniadau yn y llys ynadon. Argymhellodd adroddiad *Glidewell* y dylai'r heddlu a staff y CPS gael eu lleoli gyda'i gilydd a gweithio'n agos i sicrhau effeithlonrwydd a safonau uwch o ran cyfathrebu a pharatoi achosion. (Mewn rhai Ardaloedd gelwir uned cymorth gweinyddiaeth yr heddlu yn CJU) |
| **UNED DREIAL (TU)** | Uned weithredol y CPS sy'n paratoi achosion ar gyfer Llys y Goron |
| **Y SEFYDLIAD EWROPEAIDD ER RHEOLI ANSAWDD (EFQM)** | Fframwaith ar gyfer hunanasesiad a hunanwelliant parhaus. Mae HMCPSI yn cynnal ei harolygiadau yn erbyn meini prawf y fframwaith hwn |